

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YMCHWIL CYMDEITHASOL RHIF:

02/2021

DYDDIAD CYHOEDDI:

12/01/2021

Gwerthusiad o Weithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): Gwerthuso Proses – Adroddiad

Gwerthusiad o Weithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): Gwerthuso Proses – Adroddiad

Mark Llewellyn, Fiona Verity, Sarah Wallace a Sion Tetlow.

Llewellyn M., Verity F., Wallace S. a Tetlow S. (2021) *Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Gwerthuso Proses*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, GSR rhif adroddiad 02/2021.

Ar gael: <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014-gwerthuso-prosesau>

Barn ymchwilwyr ydy'r rhai a fynegwyd yn yr adroddiad hwn nid o angenrheidrwydd farn Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Rebecca Cox

Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: Rebecca.Cox@llyw.cymru

Tabl y Cynnwys

Rhestr y Tablau	3
Rhestr y Ffigyrau	3
Rhestr Termau.....	3
1. Cyflwyniad a Chefndir.....	4
Strwythur yr adroddiad	5
2. Methodoleg.....	6
Cynllun	6
Casglu data	7
Moeseg.....	10
Dadansoddi data	11
3. Cyd-destun: Fframwaith ar gyfer Newid ac Adolygiad Llenyddiaeth.....	13
Fframwaith ar gyfer Newid	14
Adolygiad Llenyddiaeth	17
4. Canfyddiadau – Egwyddorion y Ddeddf.....	25
Trosolwg cyffredinol	25
Ataliad ac ymyriad cynnar	27
Cydgynhyrchu	29
Llesiant	31
Llais a rheolaeth.....	33
Gweithio'n aml-asiantaethol	34
Crynodeb.....	36
5. Canfyddiadau – Gweithredu'r Ddeddf.....	38
Gwneud pethau'n wahanol, strategaeth a gweledigaeth hirdymor	38
Gwaith Cyn y Ddeddf a Chyflwyno'r Ddeddf.....	39
(Gweithredu'r) Ddeddf	41
Sgyrsiau ac ymglymiad gyda dinasyddion	43
Cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru.....	44
Crynodeb.....	45
6. Canfyddiadau – Swyddogaethau Awdurdodau Lleol a Gwasanaethau Cymdeithasol.....	47
Aseidiadau.....	47
Sgyrsiau am 'yr hyn sy'n bwysig'	52
Cynlluniau gofal a chymorth, ac adolygiadau o achosion	53
Cyrchu gwasanaethau ataliol	54
Canlyniadau	56
Comisiynu.....	57

Diogelu	59
Crynodeb	62
7. Canfyddiadau – Perthynas gyda Phartneriaid: Gweithredol a Strategol	63
Perthynas Weithredol gyda phartneriaid	63
Y sector annibynnol	63
Y Sector gwirfoddol	64
Mewnol i'r Awdurdod Lleol	65
Y GIG	66
Crynodeb: perthynas weithredol gyda phartneriaid	71
Strwythurau a threfniadaeth ranbarthol	72
Pwrpas a chyfeiriad strategol ar draws y rhanbarth	77
Heriau a phroblemau mewn gweithio'n rhanbarthol	78
Crynodeb: perthynas strategol gyda phartneriaid	79
8. Canfyddiadau – Y Gweithlu	81
Llwyth achosion, capasiti a phwysau'r galw	81
Newid	83
Effaith ar y gweithlu	86
Ymarfer	87
Hyfforddiant	88
Crynodeb	90
9. Canfyddiadau – Data	91
Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau	91
Mesur	92
Ansawdd	96
Cofnodi'r perfformiad	97
System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)	98
Crynodeb	100
10. Canfyddiadau - Goblygiadau Ariannol ac Economaidd	102
Cyni a phwysau ariannol	102
Ariannu ac adnoddau	106
Arbedion	111
Crynodeb	113
11. Casgliadau	115
Sylwadau gan ymatebwyr	115
Cysyniadau'r canfyddiadau	117
Aseiad wrth gymharu â'r nodau ac amcanion	120
Y Camau Nesaf	122
Cyfeiriadau	127

Rhestr y Tablau

Tabl 1.1: Pum egwyddor y Ddeddf a phum maes yr astudiaeth.....	4
Tabl 2.1: Elfennau'r pedair astudiaeth achos haenedig	8
Tabl 2.2: Cyfanswm y cyfweliadau	9
Tabl 2.3: Cyfanswm y cyfwelai	10
Tabl 2.4: Cyfanswm ymatebion pro forma	10

Rhestr y Ffigyrau

Ffigwr 3.1: Fframwaith ar gyfer Newid: Egwyddorion y Ddeddf.....	15
Ffigwr 3.2: Canlyniadau tymor byr a chanolig arfaethedig Y Ddeddf.....	24
Ffigwr 3.3: Egwyddorion y Ddeddf ar waith	24
Ffigwr 11.1: Parhad a ffurfiau ymarfer Trawsffurfiol mewn ymateb i weithrediad y Ddeddf	Error!

Bookmark not defined.

Rhestr Termau

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
ADSS Cymru	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
CAMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
ICF	Cronfa Gofal Integredig
IMPACT	Gwerthusiad Annibynnol o Weithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
ALL C	Cydgysylltu Ardal
ALI s	Awdurdodau Lleol
P-FE	Gwerthusiad â'r Ffocws ar Egwyddorion
PSB	Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus
SERG	Grŵp Cyfeirio Arbenigol Astudiaeth
RPB	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
WCCIS	System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru
WCVA	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
LLYWODRAETH CYMRU	Llywodraeth Cymru
WIHSC	Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru
WLGA	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

1. Cyflwyniad a Chefndir

- 1.1 Comisiynodd Llywodraeth Cymru bartneriaeth rhwng academyddion blaenllaw pedair prifysgol yng Nghymru ac ymgynghorwyr arbenigol i gynnig gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'y Ddeddf') ..
- 1.2 Mae'r bartneriaeth dan arweiniad yr Athro Mark Llewellyn, Cyfarwyddwr Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (WIHSC), Prifysgol De Cymru ynghyd â'r Athro Fiona Verity, Athro Gwaith Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, Prifysgol Abertawe, hefyd yn cynnwys cydweithwyr o Brifysgol Bangor a Phrifysgol Caerdydd. Mae Canolfan PRIME Wales a [Grŵp Cyfeirio Arbenigol Astudiaeth](#) (SERG) hefyd yn cynorthwyo'r gwerthusiad.
- 1.3 Mae'r Ddeddf yn mynegi gweledigaeth llywodraeth i greu 'newidiadau trawsffurfiol' ym mholisi cyhoeddus gwasanaeth cymdeithasol ar draws Cymru. Mae iddi 11 o rannau ac mae wedi'i seilio ar bum egwyddor sy'n gosod allan gweledigaeth, i greu newidiadau trawsffurfiol mewn polisi cyhoeddus, rheoliadau a darparu gwasanaeth. I'w chynorthwyo mae strwythurau, prosesau a chodau ymarfer
- 1.4 Bydd y gwerthusiad y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel astudiaeth IMPACT (*IMPlimentation of the Social Services and Well-being ACT*), yn archwilio gweithrediad a chanlyniadau'r Ddeddf drwy ei phum egwyddor (a goblygiadau ariannol pob un). Gwerthusir hwn drwy ystyried y modd y mae'r Ddeddf wedi effeithio ar y pum 'maes':

Tabl 1.1: Pum egwyddor y Ddeddf, a phum maes yr astudiaeth

Egwyddorion	Meysydd
- Llais a Rheolaeth	- Dinasyddion
- Llesiant	- Teuluoedd a Gofalwyr
- Cydgynhyrchu	- Cymunedau
- Gweithio aml-asiantaeth	- Y Gweithlu
- Ataliad ac ymyrraeth gynnar	- Sefydliadau

Nodau ac Amcanion Gwerthuso Proses

1.5 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o gam Gwerthuso Proses yr astudiaeth. Fel rhan o werthuso proses mae gweithrediad y Ddeddf yn cael ei ystyried yn ei gyfanrwydd.

Nod

1.6 I deall sut mae'r ddeddfwriaeth wedi cael ei gweithredu yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan ystyried yn benodol y rôl oedd gan yr ystod eang o sefydliadau a effeithiwyd gan y Ddeddf, i'w chwarae yn y broses o'i gweithredu.

Amcanion

1.7 Amcanion Gwerthuso Proses ydy :

- Ystyried pa gynllunio a wnaed gan bartneriaid allweddol i weithredu'r Ddeddf ac a oedd hyn yn ddigonol. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol, y trydydd sector, y sector annibynnol a phartneriaid allweddol eraill sy'n cael eu hystyried yn berthnasol.
- Asesu a ydy holl gydrannau'r gweithredu hyd yn hyn wedi eu cwblhau yn ôl y bwriad.
- Asesu a ydy cydrannau'r Ddeddf wedi ymdreiddio i'r ymarfer.
- Asesu dehongliad o'r Ddeddf ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol.
- Ystyried profiad y rhai sydd wedi bod yn ymwneud â gweithredu'r Ddeddf, gyda ffocws penodol ar integreiddio, cydgynhyrchu, arweinyddiaeth, rheoli, rhyngweithio, hyfforddiant a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg

Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r data o gam Gwerthuso Proses yr astudiaeth. Dilynir yr adran hon gan ddisgrifiad o'r fethodoleg a phennod yn gosod cyd-destun yr astudiaeth o ran y Fframwaith ar gyfer Newid ac Adolygiad Llenyddiaeth a gyhoeddwyd yn flaenorol. Yna, ceir penodau yn amlinellu'r canfyddiadau o gyfnod yr ymchwil sylweddol (Ionawr – Mawrth 2020), a chyfres o gasgliadau.

2. Methodoleg

Cynllun

- 2.1 Dull ffocysu ar Egwyddorion (P-FE) ¹oedd y dull a ddefnyddiwyd i fynd ati i werthuso'r Ddeddf. Mae'r dull hwn o fynd ati yn arbennig o ddefnyddiol wrth werthuso ymyriadau sy'n gymhleth gyda nifer o gydrannau a gaiff eu dehongli a'u gweithredu yn wahanol mewn gwahanol amgylcheddau a lleoliadau. Gallai gweithredu ymyriad mewn cyd-destun ysgogi newid yn y cyfryw gyd-destun ([Moore et al., 2015](#)).² Mae bod yn sensitif i'r amgylcheddau deinamig lle mae ymyriad yn digwydd yn nodwedd o P-FE.
- 2.2 Mae P-FE yn camu nôl o nodi'n uniongyrchol achos ac effaith llinol y cysylltiadau rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a'r canlyniadau disgwylidig, megis seilio prosiectau ar fodolau rhesymu ond yn hytrach yn gosod y ffocws ar egwyddorion ymyriad, ac ar y modd y caiff y rhain eu haddasu a'u gweithredu yn y pen draw.
- 2.3 Mae dull P-FE, hefyd yn cydnabod yn glir gyd-destunau ehangach yr ymyriad, neu'r hyn y mae Patton yn ei alw yn 'complex dynamic systems'. Mewn geiriau eraill, roedd gwerthusiadau sy'n ffocysu ar egwyddorion yn talu sylw i gyd-destunau'r ymyriadau (e.e. lleoliadau sefydliadol, y bobl sy'n cymryd rhan a'r hyn maen nhw'n ei gredu, ei werthfawrogi a'i wneud, a'r amgylchedd cymdeithasol, diwylliannol, economiadd a gwleidyddol ehangach). Dydy'r cyd-destun ddim yn statig ac yn aml yn anrhagweladwy a chyfnewidiol fel y mae digwyddiadau 2020 a phandemig COVID-19 yn parhau i'w ddangos.
- 2.4 Mae ein gwerthusiad yn asesiad annibynnol a gwrthrychol o weithrediad y Ddeddf a'r modd y mae wedi effeithio ar lesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a'u gofalwyr ac yn gofyn tri chwestiwn allweddol – pob un wedi ei seilio ar ddull P-FE o fynd ati: 'I ba raddau ac ym mha fodd mae'r egwyddorion...'

1. Yn cael eu mynegi'n ystyrion a'u deall?
2. Yn cael eu parchu wrth weithredu'r Ddeddf?

¹ Patton, M. Q. (2018). *Principles-Focused Evaluation - The GUIDE*. New York: Guilford Press.

² Moore G., Audrey, S., Barker, M., Bond, L., Bonell, C., Hardeman, W., et al. (2015) 'Process evaluation of complex interventions: Medical Research Council guidance' *BMJ*, 350 :h1258

3. Yn arwain at y canlyniadau dymunol?

Cyfranogwyr a samplo

- 2.5 Defnyddiwyd samplo pwrpasol i nodi a recriwtio cyfranogwyr. Techneg ydy samplo pwrpasol sy'n cynnwys nodi a dethol unigolion neu grwpiau o unigolion sydd â gwybodaeth drylwyr a/neu brofiad o ffenomenon diddordeb (Creswell and Plano Clark, 2011).³ Felly, er mwyn deall a threiddio ymhellach i bethau, mae'r ymchwilydd yn dethol y sampl gorau i wneud hyn (Merriam, 2009)⁴ er mwyn cyflawni nodau ac amcanion y gwerthusiad.

Casglu data

- 2.6 Agwedd ydy gwerthuso proses o'r astudiaeth werthuso sy'n rhoi safbwynt y gweithlu cyflogedig o ran gweithredu'r Ddeddf. Yn ystod cyfnodau dilynol o'n gwaith (yn bennaf cyfnod cyflwyno canlyniadau'r gwerthusiad a fydd yn digwydd yn 2021), byddwn yn casglu data gan ddefnyddwyr gwasanaeth, gofalmwyr, teuluoedd a chymunedau, ond ni roddir y safbwyntiau hynny yn yr adroddiad hwn.⁵
- 2.7 Roedd dwy haen bendant i ddull cymysg y broses o gasglu data.⁶ : ffurflen pro forma ar-lein Cymru cyfan a chasglu data ansoddol, drwy gyfweiliadau dros y ffôn, cyfweiliadau wyneb yn wyneb a grwpiau trafod.
- 2.8 Mae'n bwysig nodi i'r data gael ei gasglu cyn pandemig COVID-19, rhwng Ionawr a Mawrth 2020.⁷
- 2.9 Rhestrir elfennau creiddiol y dull o fynd ati i gasglu data isod a'u darparu yn Nhabl 2.1 (ar y dudalen nesaf).

³ Creswell, J.W. & Plano Clark, V.L. (2011) *Designing and Conducting Mixed Methods Research*. 2nd edn. Los Angeles: Sage Publications.

⁴ Merriam, S. (2009) *Qualitative Research: A Guide to Design and Implementation*. John Wiley & Sons: San Francisco.

⁵ Ar wahân i dri unigolyn a gyfwelwyd a 19 a gwblhaodd ffurflen pro forma. Caiff y rhain eu cynnwys yn y cam gwerthuso canlyniadau yn ystod 2021.

⁶ Yn ogystal â hyn, mae tîm yr astudiaeth yn gweithio ar ddadansoddiad o ddata a gyhoeddwyd – o Lywodraeth Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Data Cymru a ffynonellau swyddogol eraill.

⁷ O gofio bod LLC wedi ymestyn dyddiad terfynu cyffredinol ar gyfer yr astudiaeth am 12 mis hyd at Hydref 2022, bydd hyn yn galluogi i ail gyfnod gwerthuso proses yn ystod Gwanwyn 2022a fydd yn caniatáu i dîm yr astudiaeth i ddilyn y materion a godwyd yn ystod y cyfnod cyntaf hwn.

Tabl 2.1: Elfennau'r pedair astudiaeth achos haenedig

Haen	Staff Awdurdodau Lleol	Staff Bwrdd Iechyd	Gwasanaethau wedi eu comisiynu/cymorth arall	Staff Rhanbarthol
Uwch reolwyr/ arweinwyr strategol	1	Cyfarwydd Gwasanaethau Cymdeithasol	Cyfarwydd Partneriaethau	Cydlynnydd Rhanbarthol
	2	Pennaeth Gwasanaethau Oedolion	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Sylfaenol a Chymuned (yn cynnwys iechyd meddwl)	Arweinwyr Diogelu Rhanbarthol (Plant ac Oedolion)
	3	Pennaeth Gwasanaethau Plant	Cyfarwyddwr Cyllid	Arweinydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
	4	Rheolwyr Busnes Gwasanaethau Cymdeithasol		Arweinydd Fforwm Gwerth Cymdeithasol Rhanbarthol
	5	Prif Weithredwr		
	6	Cyfarwyddwr Cyllid		
	7	Pennaeth Comisiynu		
	8	Pennaeth Partneriaethau		
Rheolwyr gweithredol /goruchwylwyr	9	Uwch weithwyr Cymdeithasol	Rheolwyr gweithredol gwasanaethau sylfaenol a chymuned	Timau Partneriaethau Rhanbarthol
	10	Rheolwyr Gofal	Rheolwyr gweithredol gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol	Timau Diogelu Rhanbarthol (Plant ac Oedolion)
	11	Rheolwyr Gwasanaethau Gofal Uniongyrchol		Timau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
	12	Goruchwylwyr Gwasanaethau Gofal Uniongyrchol		Timau Fforymau Gwerth Cymdeithasol
	13	Rheolwyr Gwasanaethau Cymorth		
	14	Arweinwyr a rheolwyr data		
Staff rheng flaen / gwirfoddolwyr	15	Gweithwyr cymdeithasol rheng flaen	Ymwelwyr iechyd	Cynorthwyywyr personol
	16	Staff Gofal Cartref	Staff tîm iechyd meddwl cymunedol	Sector annibynnol: gweithwyr gofal yn y cartref
	17	Staff cartrefi preswyl	Swyddogion camddefnyddio sylweddau	Sector annibynnol: gweithwyr cartrefi gofal preswyl
	18	Staff tai â chymorth	Staff gofal sylfaenol	Sector annibynnol: gweithwyr gofal nyrsio yn y cartref
	19	Cysylltwyr cymuned	Nyrsys ardal	Sector gwirfoddol: gweithwyr gwasanaethau cymorth
	20	Staff cymorth eraill		Sector gwirfoddol: gweithwyr gwasanaeth rhyddhau o ysbyty
	21			Sector gwirfoddol: gweithwyr gwasanaethau eiriolaeth
	22			Cysylltwyr cymuned
	23			Gwirfoddolwyr

Elfennau creiddiol casglu'r data

1. Arolwg Cymru gyfan o sefydliadau/rhwydweithiau rhan-ddeiliaid allweddol ar draws Cymru
 - Lluniwyd rhestr o sefydliadau allweddol o aelodaeth SERG ynghyd â chysylltiadau allweddol a rhan-ddeiliaid Llywodraeth Cymru a rhwydweithiau tîm yr astudiaeth.
 - Datblygwyd ffurflen pro forma o 8-10 cwestiwn ar lein, ffurflen yn seiliedig ar amcanion gwerthuso proses ac ar y cwestiynau yn siediwyl y cyfweiliad.
2. Astudiaethau achos haenedig ar 'olion traed' pedwar awdurdod lleol
 - Gofynnwyd i bedwar awdurdod lleol yng Nghymru (Ardaloedd 1-4) gymryd rhan yn y broses werthuso fel cynrychiolwyr o gymunedau Cymru: un sy'n

wledig yn bennaf, un drefol yn bennaf, un yn gymoedd yn bennaf ac un gan fwyaf yn Gymraeg ei hiaith.

- Defnyddiwyd tri 'strata' gwahanol o'r gweithlu yn yr ardaloedd hynny:
 - o Arweinwyr strategol; ac uwch reolwyr
 - o Rheolwyr gweithredol
 - o Staff rheng flaen
- Cafodd gwahanol sefydliadau o fewn y pedair ardal ôl troed eu cynnwys:
 - o sefydliadau statudol (awdurdod lleol a bwrdd iechyd);
 - o gwasanaethau a gomisiynwyd (y sector annibynnol a'r sector gwirfoddol); a
 - o strwythurau rhanbarthol sy'n gweithredu o fewn yr olion traed (ymhlith eraill byrddau partneriaeth ranbarthol, byrddau diogelu rhanbarthol, fforymau gwerth cymdeithasol rhanbarthol, byrddau gwasanaeth cyhoeddus).

3. Ymglymiad gyda sefydliadau rhan-ddeiliaid allweddol

- Cyfweiliadau gyda phobl allweddol ymhlith eraill o Lywodraeth Cymru, ADSS Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, CLILC, CGGC, Cydffederasiwn y GIG, Y Comisiynydd Pobl Hŷn, Y Comisiynydd Plant, Fforwm Gofal Cymru ac aelodau eraill o SERG

Cyfanswm y cyfweiliadau

2.10 Mae Tabl 2.2 isod yn dangos cyfanswm y cyfweiliadau/grwpiau trafod a gynhaliwyd, a dinasyddion/defnyddwyr gwasanaeth (n=100).

Tabl 2.2: Cyfanswm y cyfweiliadau

CYFANSWM Y CYFWELIADAU n = 100

	CYFANSWM			
Dinasyddion/Defnyddwyr gwasanaeth [C]	3			
	Uwch reolwyr / arweinwyr strategol	Rheolwyr gweithredol / goruchwylwyr	Grwpiau (yn cynnwys gweithwyr rheng flaen)	CYFANSWM
Rhanddeiliaid Cenedlaethol	9	-	-	9
Ardal 1	8	6	-	14
Ardal 2	9	11	3	23
Ardal 3	8	10	-	18
Ardal 4	14	13	6	33
CYFANSWM	48	40	9	97

Cyfanswm y cyfwelai

- 2.11 Mae Tabl 2.3 yn dangos cyfanswm yr unigolion gymerodd ran mewn cyfweliadau/grwpiau trafod a gynhaliwyd gyda phob ôl troed Awdurdod Lleol, rhanddeiliaid cenedlaethol a dinasyddion./defnyddwyr gwasanaeth (n=152)

Tabl 2.3: Cyfanswm y cyfwelai

CYFANSWM Y CYFWELAI

n = 152

	CYFANSWM
Dinasyddion/Defnyddwyr gwasanaeth [C]	3

	Uwch reolwyr / arweinwyr strategol	Rheolwyr gweithredol / goruchwylwyr	Grwpiau (yn cynnwys gweithwyr rheng flaen)	CYFANSWM
Rhanddeiliaid Cenedlaethol [N]	9	-	-	9
Ardal 1	8	6	-	14
Ardal 2	9	11	19	39
Ardal 3	8	10	-	18
Ardal 4	16	14	39	33
CYFANSWM	50	41	58	149

Cyfanswm ymatebion pro forma

- 2.12 Isod, mae tabl 2.4 yn dangos cyfanswm (n=30) y nifer o ymatebion i'r arolwg a dderbyniwyd – sefydliadau (n=11), dinasyddion/defnyddwyr gwasanaeth (n=19).

Tabl 2.4: Cyfanswm ymatebion pro forma

YMATEBION I'R AROLWG

n = 30

	Sefydliadau	Defnyddwyr gwasanaethau / gofalwyr	CYFANSWM
Pro forma ar-lein	11	19	30

Moeseq

- 2.13 Sicrhawyd caniatâd foeseqol gan Bwyllgor Moeseq Prifysgol De Cymru. Derbyniodd pob darpar gyfranogwr daflen wybodaeth gyda manylion am yr hyn byddai cyfranogi yn ei olygu. I gyrchu'r ffurflen pro forma ar-lein gofynnwyd i'r cyfranogwyr

gadarnhau eu bod wedi deall bod cwblhau'r ffurflen yn golygu eu bod yn rhoi eu caniatâd. Cadarnhawyd caniatâd ysgrifenedig neu lafar cyn i'r cyfweiliadau/grwpiau trafod gychwyn a chadwyd ffurflenni caniatâd wedi'u llofnodi. Gwnaed yr holl gyfranogwyr yn ymwybodol o'r hysbysiad preifatrwydd a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr astudiaeth.

Dadansoddi data

- 2.14 Recordiwyd sain y cyfweiliadau/trafodaethau a thrawsgrifiwyd data ansoddol air am air a'u hanonymeiddio. Dadansoddwyd y trawsgrifiadau yn ôl themâu ([Braun and Clarke, 2006](#)).⁸ Defnyddiwyd NVivo 12 i drefnu a rheoli'r data a datblygwyd fframwaith o godau.
- 2.15 Roedd hyn yn ymarfer ymchwil helaeth – cynhyrchodd y 100 cyfweiliad 260,907 o eiriau a'r 30 o ymatebion pro forma 12,688 o eiriau.
- 2.16 Mewngofnodwyd ymatebion testun rhydd o'r ffurflenni pro forma yn NVivo 12 a'u codio yn ôl y fframwaith.
- 2.17 Proses iterus oedd dadansoddi'r data; ymgwymerwyd â'r gwaith o codio trawsgrifiadau gan dri aelod o'r tîm gwerthuso ac roedd hyn yn cynnwys nifer o drafodaethau i adolygu a diwygio'r fframwaith codio, a'r themâu.
- 2.18 I ategu'r dull iterus o fynd ati i ddadansoddi, ymgwymerwyd â chyfres o sesiynau ar-lein gyda phob ardal ôl troed ALI i wirio synnwyr ac adolygu'r canfyddiadau cychwynnol. Yn ogystal, rhannwyd y canfyddiadau cychwynnol gyda'r SERG yn ystod tri digwyddiad ar-lein ym mis Hydref 2020 er mwyn derbyn adborth a sylwadau.

Canfyddiadau

- 2.19 Cyflwynir canfyddiadau gan ddefnyddio pob un o'r themâu troswaol/gwreiddiol fel pennod. Mae pob pennod yn cynnwys data o gyfweiliadau, grwpiau trafod/ffocws, ac ymatebion testun rhydd o'r ffurflenni pro forma ar-lein.

⁸ Braun, V. and Clarke, V. (2006) 'Using thematic analysis in psychology', *Qualitative Research in Psychology*, 3(2), p.77-101

2.20 Mae manylion am ffynhonnell dyfyniad yn cyfeirio at y lleoliad, y sefydliad a'r strata y mae'r bobl hyn yn ei gynrychioli (fel y nodir yn adran 2.7.2 uchod). Dilëwyd pob enw, manylion swydd ac unrhyw wybodaeth arall a allai i fod yn fodd i adnabod yr unigolyn.

3. Cyd-destun: Fframwaith ar gyfer Newid ac Adolygiad Llenyddiaeth

3.1 Yn sail i ymchwil gwerthuso proses astudiaeth IMPACT mae dau ddarn o waith gan y tîm gwerthuso, y ddau ddarn wedi'u cyhoeddi fel adroddiadau annibynnol:

- [Fframwaith ar gyfer Newid](#), sy'n ddogfen yn disgrifio dehongliad o'r modd y mae egwyddorion, dyletswyddau, mecanweithiau a'r arferion gofynnol o dan y Ddeddf yn gonglfeini newid a chanlyniadau penodol yn fwyaf arbennig cyflawni gwasanaethau llesiant a chynaliadwy yng Nghymru.⁹
- Roedd yr [Adolygiad Llenyddiaeth](#),¹⁰ yn cynnwys chwe adolygiad naratif ar wahân â'u ffocws ar bum egwyddor y Ddeddf (llesiant, llais a rheolaeth, ataliad ac ymyriad cynnar, cydgynhyrchu, aml-asiantaeth) ac adolygiad ariannol ac economaidd.

3.2 Fel y nodwyd uchod, arweinir astudiaeth IMPACT gan Werthusiad Michael Patton sy'n Ffocysu ar Egwyddorion (P-FE), a diffinnir hyn fel gwerthusiad 'o'r modd y mae egwyddorion yn sail i ddatblygiadau blaengar mewn sefyllfa ddeinamig gymhleth'.¹¹ Mae P-FE yn archwilio proses, budd ac effaith datblygiadau sy'n seiliedig ar egwyddorion (e.e. polisïau, rhaglenni, ymyriadau). Mae gwerthusiadau sy'n Ffocysu ar Egwyddorion (P-FE) yn addas ar gyfer gwerthuso newid mewn polisi ac ar gyfer ymyriadau cymhleth.¹²

3.3 Yn ein proses werthuso ac yn unol â dull P-FE o fynd ati, rydyn ni wedi defnyddio pum egwyddor y Ddeddf fel meysydd i'w harchwilio. Sut mae'r egwyddorion hyn yn cael eu dehongli a'u gweithredu gan y bobl allweddol sydd â gwahanol rolau a chyfrifoldebau i roi'r Ddeddf ar waith? Pa newid fu yn y rhaglennu a pha fodd fu'r pum egwyddor yn sail i'r newid hwn? Hefyd, mae gwerthusiad IMPACT yn ffocysu ar bum maes ymchwiliad i ystyried y broses o weithredu'r Ddeddf ac effeithiau cynnar (unigolion, teuluoedd a gofalwyr, cymunedau a sefydliadau). Yn y bennod hon, rydyn ni'n darparu crynodeb o'r Fframwaith ar gyfer Newid a themâu allweddol

⁹ Verity, F., Andrews, N., Blackmore, H., Calder, G., Richards, J., Llewellyn, M. (2019). *Gwerthuso Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Llesiant (Cymru) 2014; Adroddiad ar Fframwaith ar gyfer Newid*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 38/2019.

¹⁰ Llewellyn, M., Verity, F. and Wallace, S (eds). (2020) *Gwerthuso Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Llesiant (Cymru) 2014: Adolygiad Llenyddiaeth*, Caerdydd, Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 60/2020.

¹¹ Patton, M. (2018) *Principles-Focused Evaluation*, The Guilford Press, Llundain. tud.27

¹² Ibid. tudalen ix.


yr Adolygiad Llenyddiaeth sy'n gonglfeini dull o werthuso proses a'r dadansoddiad o'r canfyddiadau.

Fframwaith ar gyfer Newid


- 3.4 Mae dogfen [Fframwaith ar gyfer Newid](#)¹³ a gynhyrchwyd gan y tîm gwerthuso yn amlinelliad disgrifiadol o gydrannau rhyngberthynol y Ddeddf a ddaeth i rym yn Ebrill 2016; y diben, gwerthoedd, egwyddorion, dyletswyddau a strategaethau byrddau iechyd ac eraill yn ôl y fframwaith cyfreithiol hwn. Mae'r Ddeddf yn gofyn am ymyriadau ar y cyd a fydd yn ceisio 'hybu llesiant y rhai sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth'.
- 3.5 Fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r Ddeddf yn nodi newid sylweddol yn y modd y mae gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu fframio, eu cynllunio, eu comisiynu a'u cynnig yng Nghymru. Mae'n gosod polisi trefn sefydliadol newydd a chontract llesiant cymdeithasol newydd ar gyfer pobl Chymru yn seiliedig ar werthoedd hawliau dynol ac egwyddorion allweddol. Disgrifir hyn yn 'arloesol' ac yn 'drefn o newid trawsffurfiol' wrth gynnig gwasanaethau a chymorth ar gyfer llesiant. Mae'r Ddeddf yn gosod allan y pum egwyddor i'w dilyn gan swyddogaethau i'w cynnal dan ei nawdd fel y gwelir yn Ffigwr 3.1 (drosodd).
- 3.6 Drwy gyflenwi dyletswyddau a swyddogaethau, nod y Ddeddf ydy sicrhau bob pobl yn cael eu cynorthwyo i gyflawni eu hawliau ac yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod, cynhyrchu canlyniadau positif o ran llesiant ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth ac ar gyfer cymunedau; cynorthwyo sefydliadau a gweithlu i newid ac ail-gyfeirio, rhagor o weithio'n aml-asiantaethol, modelau newydd o ofal arweiniad y gymuned gwasanaethau cymdeithasol cynaladwy – gweler Ffigwr 3.2 (drosodd).
- 3.7 Mae'r pwyslais ar gydweithio ar draws ffiniau cyfundrefnol. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno cysyniad o gynhyrchu ar y cyd (gweler Adran 16 o'r Ddeddf). Nod y polisi hwn ydy gyrru newid i agor modelau blaengar eraill o ofal, gan ddefnyddio cwmnïau cydweithredol a dulliau cydweithredol o fynd ati, mentrau cymdeithasol, y trydydd sector a'r sector annibynnol a sefydliadau dan arweiniad sefydliadau.

¹³ Verity, F., et al, op. cit.

Ffigwr 3.1: Fframwaith ar gyfer Newid: Egwyddorion y Ddeddf



Ffigwr 3.2: Canlyniadau tymor byr a chanolig arfaethedig y Ddeddf



- 3.8 Mae goblygiadau statudol y Ddeddf o ran cydweithredu wedi ysgogi cydweithio. Mae'n gosod gofynion ar gyfer cydweithredu rhanbarthol a fframwaith deddfwriaethol i orfodi hyn, os oes angen, rhwng awdurdodau lleol eu hunain a rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Mae'n annog sefydlu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Mae'n sefydlu fframwaith statudol newydd i amddiffyn oedolion sydd mewn perygl a gosod dyletswydd ar ysgwyddau partneriaid perthnasol i roi gwybod i'r awdurdod lleol pan fydd amheuaeth y gallai unigolyn fod yn oedolyn mewn perygl. Darparodd ar gyfer creu Byrddau newydd Diogelu Plant a Byrddau newydd Diogelu Oedolion.
- 3.9 I baratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf, cafwyd newidiadau mewn trefniadau cyfundrefnol, yn y cysylltiadau rhwng-sefydliadau ac yn y mecanweithiau ar gyfer gweithio'n aml-asiantaethol, yn nhrefniadau gwella a gweithlu, prosesau cynllunio, cynlluniau cyllido ac ail-gyfeirio ymarfer.

Cyd-destun cymdeithasol deinamig

- 3.10 Mae'r ddogfen Fframwaith ar gyfer Newid yn crynhoi rhai o'r ffactorau cymhleth sy'n nodweddu'r cyd-destun ehangach lle lluniwyd, datblygu a gweithredu'r Ddeddf.
- 3.11 Mae effaith mesurau cyni economaidd-gymdeithasol yn gefndir i'r fframwaith. Cyfyngwyd ar wariant ariannol a rhagwelir y bydd y duedd hon yn parhau ac o feddwl am y galw, yn golygu bylchau yn y cyllid ar gyfer gwasanaethau allweddol yng Nghymru ([Roberts and Charlesworth, 2014](#)).¹⁴
- 3.12 Mae cyd-destun y polisi hefyd wedi symud. Cyflwynwyd y Ddeddf ar adeg pan oedd polisi cyhoeddus yn cael ei ddiwygio yng Nghymru, sy'n cyfrannu at lunio'r amgylchedd y mae'r rhai sy'n gyfrifol am weithredu'r Ddeddf yn gweithio ynddo. Er enghraifft, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol, menter Gofal Iechyd Darbodus, Cymru Iachach, a Deddf Rheoleiddio ac Adolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Deddf Tai (Cymru) 2014, a weithredwyd yn 2015 a Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol a gyhoeddwyd yn 2017.

¹⁴ Roberts A and Charlesworth A (2014) *A decade of austerity in Wales? The funding pressures facing the NHS in Wales to 2025/26. Research report*. Nuffield Trust.

- 3.13 Mae gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd sydd â dyletswydd o dan y Ddeddf hefyd hanes a hinsoddau penodol, eu sefyllfaoedd ariannol eu hunain ac mae eu polisiau a'u harferion yn ymateb i anghenion lleol. Mae eu poblogaethau a'u lleoliadau daearyddol yn amrywio. Mae'r ffactorau cyd-destunol hyn yn effeithio ar y modd y cyflenwir gwasanaethau cymdeithasol ac yn ffactorau sy'n effeithio ar lesiant.

Adolygiad Llenyddiaeth

- 3.14 Mae Adolygiad Llenyddiaeth yr astudiaeth ar gael fel [adroddiad technegol](#) ac fel [adroddiad cryno](#).¹⁵ Mae'n cynnwys chwe adolygiad naratif ar wahân â'u ffocws ar bum egwyddor y Ddeddf (llesiant, llais a rheolaeth, ataliad ac ymyriad cynnar, cydgynhyrchu, aml-asiantaeth) ac adolygiad ariannol ac economaidd. Roedd pob adolygiad yn delio â set penodol o gwestiynau oedd yn llywio'r chwileiriau a gweithrediad yr adolygiad. Yn yr adran nesaf rydyn ni'n crynhoi canfyddiadau cyffredin o'r llenyddiaeth a adolygwyd sydd yn berthnasol ar gyfer dadansoddi canfyddiadau gwerthuso' r broses.¹⁶

Beth ydy ystyr yr egwyddorion?

- 3.15 Un o nodweddion arbennig y Ddeddf ydy ei bod yn datgan yn bendant y dylid gweithredu swyddogaethau a dyletswyddau'r Ddeddf 'i weithredu egwyddorion arbennig' (h.y. 'llesiant', 'ataliad', 'cydgynhyrchu', 'llais a rheolaeth' a 'gweithio'n aml-asiantaethol'). Mae Patton yn dweud bod 'Egwyddorion yn deillio o brofiad, arbenigedd, gwerthoedd ac ymchwil'.¹⁷ Mae e'n gwahaniaethu rhwng egwyddorion naturiol am sut mae'r byd yn gweithio' a'r egwyddorion sy'n 'ganllawiau i bobol sut dylen nhw fyw a'r hyn i'w wneud mewn rhai amgylchiadau' neu egwyddorion cyfarwyddyd i ddynoliaeth.¹⁸
- 3.16 Ymhob un o'r adolygiadau ar wahân ceir ychydig o gymhlethdod o ran y modd mae'r egwyddor dan sylw yn cael ei dehongli a'i diffinio. Mewn rhai achosion mae'r iaith a ddefnyddir yn aneglur ac amwys. Mewn achosion eraill, mae'r egwyddor yn

¹⁵ Llewellyn et al (2020), op. cit.

¹⁶ Am ragor o fanylion, cyfeirir y darllenydd ar adroddiadau adolygiad llenyddiaeth technegol a chryno, ibid.

¹⁷ Ibid. tudalen 3.

¹⁸ Ibid. tudalen 4.

gorgyffwrdd â chysyniadau eraill neu ddefnyddio termau procsi. Mae rhai yn ystyried bod yr olaf o'r ddau yn help i fod yn fwy manwl-gywir, ond, mae rhai o'r farn bod y gorgyffwrdd hwn neu ddefnyddio termau procsi yn cymylu'r ystyr. Gwelir hefyd rannu patrwm o doreth o gynlluniau a theipolegau sy'n dadelfennu ac ail-drefnu cydrannau egwyddor. Er enghraifft, cysylltir ataliad gyda gwahanol lefelau neu haenau – h.y. ataliad sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, a gyda categorïau megis ataliad cyffredinol neu ddewisol. Isod, ceir rhai enghreifftiau o'r cymhlethdod ieithyddol a'r heriau cyfathrebu.

- 3.17 Mae'r [adolygiad ar ataliad](#) yn gorffen gyda'r canfyddiad: *Er bod cytundeb cyffredinol ar y fframwaith tri haen (i ataliad), mae amrywiaeth sylweddol yn parhau am y modd y defnyddir y term 'ataliad' ei hun (Curry, 2006; Marczak et al, 2019). Mae'r derminoleg yn gorgyffwrdd a nodwyd bod gwahaniaethau yn gyffredin, o ran ystod amrywiol o weithgareddau ac ymyriadau (Allen and Gallsby, 2010; Marczak et al, 2019).*¹⁹
- 3.18 Mae'r [adolygiad am-asiantaethol](#) yn nodi bod termau megis 'gweithio'n aml-asiantaethol' a gweithio 'rhyngasiantaethol (rhwng asiantaethau) a gweithio mewn partneriaeth' yn gorgyffwrdd, ond bod ganddyn nhw nodweddion a ffactorau llwyddiant yn gyffredin.²⁰
- 3.19 Cafodd yr [adolygiad ar lesiant](#) y gallai fod rhai yn dewis eu diffiniadau o lesiant: *'Mae llesiant yn gysyniad aml-ddimensiwn, yn aml yn ceisio ysgogi dull dewis o fynd ati i ddiffinio a mesur gyda'r risg o'i ddefnyddio mewn ffurf aneglur neu ar ffurfiau cwbl ddadleuol.'*²¹
- 3.20 Mae [adolygiad llais a rheolaeth](#) yn nodi: *Efallai yn drawiadol, dydy'r llenyddiaeth gyhoeddedig ddim, ar y cyfan yn cynnig diffiniadau clir o'r termau 'llais' a 'rheolaeth' (Dyfynnwyd Vamstad 2016; Bamford a Bruce, Quereshi et al, Gabriel a Bowling, Quereshi and Henwood, gan Callaghan et al 2014). Yr hyn y mae'r llenyddiaeth yn ei ddatgelu ydy'r ffaith bod termau megis llais a rheolaeth yn cael eu diffinio mewn*

¹⁹ Verity F., Read S. and Richards J. (2020) 'Prevention and early intervention' in Llewellyn et al, op. cit.

²⁰ Wallace., Orrell A., Garthwaite T., Tetlow S. and Wallace S. (2020) 'Multi-agency' in Llewellyn et al, op. cit.

²¹ Anderson P., Lyttleton-Smith J., Kosnes L., Read S., Blackmore H. and Williams Z. (2020) 'Well-being' in Llewellyn et al, op. cit.

*gwahanol ffyrdd gyda thermâu procsi yn cael eu cyfnewid yn aml a hynny'n golygu bod cysyniadau yn gorgyffwrdd.*²²

3.21 Mae [adolygiad o gydgyngyrchu](#) yn cychwyn gyda'r paragraff canlynol: *Mae'n bwysig sylweddoli bod y diffiniadau hyn eu hunain yn gwrthdaro i ryw raddau ac felly dydy'r hyn a elwir yn gydgyngyrchu ddim yn fater o gonsensws syml. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith ei fod yn faes ymchwiliad academaidd cymharol ifanc ac hefyd yn un cymhleth: defnyddiwyd amrediad eang o ddisgyblaethau academaidd o ddulliau mynd ati i ddelio â chydgyngyrchu a'i weithredu mewn lleoliadau gwasanaethau cyhoeddus amrywiol. Mae'r lleoliadau hyn yn aml ar y groesffordd rhwng gwahanol feysydd o ddylanwad polisi, arbenigedd proffesiynol ac ymglymiad y cyhoedd.*²³

3.22 Yn ogystal â'r pryder o ran semanteg, mae pob adolygiad yn delio gyda mesur a gwerthusiad. Sylwodd awduron yr adolygu llesiant ar sut mae 'Llesiant Ewdemonaid' yn ategu safonau byw ac agweddau perthynol a chymdeithasol llesiant. Mae 'Llesiant Hedonistaidd', neu agweddau 'emosiynol ac ymgorfforedig llesiant, megis pleser a mwynhad' yn cyd-fynd â chysyniadau hapusrwydd a boddhad gyda bywyd.²⁴

Mwy o gydlyniad cysyniadol a iaith a rennir

3.23 Mae pob adolygiad yn dod i'r casgliad bod angen am gydlyniad cysyniadol ac am ddatblygu iaith gyffredin am yr egwyddor mewn polisi ac ymarfer. Amlygodd yr adolygiad ar gydgyngyrchu bod rhag-amod o amgylcheddau sy'n galluogi cydgyngyrchu yn datblygu iaith gyffredin ar draws gwahanol safbwyntiau proffesiynol a gwahanol ddefnyddwyr gwasanaeth. Nodwyd hefyd bod angen iaith gyffredin a phwrpas cyffredin ar gyfer gwaith aml-asiantaethol llwyddiannus

Cydgysylltiadau

3.24 Thema drawsbynciol ydy natur y cydgysylltiadau rhwng pum egwyddor y Ddeddf. Dydyn nhw ddim yn sefyll ar eu pen eu hunain, ond mae cydgysylltiadau cymhleth

²² Llewellyn M., Saltus R., Blackmore H., Tetlow S., Williams Z. and Wallace S. (2020) 'Voice and control' in Llewellyn et al, op. cit.

²³ Andrews N., Calder G., Blanluet N., Tetlow S. and Wallace S. (2020) 'Co-production' in Llewellyn et al, op. cit.

²⁴ Anderson et al., op. cit.

rhyngddyn nhw. Er enghraifft, yn y bôn, mae egwyddor 'llais a rheolaeth' yn ategu cydgynhyrchu. Mae llais a rheolaeth yn egwyddor allweddol o'r Ddeddf, yn cynnwys y sgwrs ar "yr hyn sy'n bwysig", gyda ffocws ar osod yr oedolyn neu'r plentyn, yn cynnwys gofalwyr di-dâl yng nghanol eu gofal a'u cymorth, a hynny'n eu galluogi i reoli pethau er mwyn cyflawni'r canlyniadau a fydd yn eu helpu i gyflawni llesiant ymhob agwedd o'u bywyd. Cysylltir hyn â chydgyhyrchu, yn gofyn i bobl fod yn bartneriaid i wneud penderfyniadau, a nodi bod y dull o fynd ati yn seiliedig ar gryfderau a dealltwriaeth o gyfraniad pobl eu hunan i'w llesiant. Mae cyswllt annatod rhwng ataliad a chydgyhyrchu, llais a rheolaeth a gweithio'n aml-asiantaethol ac i'r nod terfynol o gynorthwyo.

Agendâu/trafodaethau sy'n gwrthdaro

- 3.25 Cyflwynir y Ddeddf ar adeg dathlu 20 mlynedd neu ragor o reolwriaeth a rhesymoliaeth economaidd mewn polisi cyhoeddus a chynnig gwasanaeth. Cysylltwyd y trafodaethau hyn â chystadleuaeth, hawliau unigolion ac osgoi risg, yng nghyd-destun gostwng gwariant.²⁵ Mae gweithredu egwyddorion y Ddeddf yn gofyn ailosod dulliau o fynd ati dwy newid hinsawdd sefydliad, gan gydweithio i rannu grym gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr a chysylltu ar draws asiantaethau a sectorau.
- 3.26 Amlygodd y llenyddiaeth a adolygwyd yr anghyseindedd posibl rhwng trafodaethau am egwyddorion sylfaenol y Ddeddf a gwerthoedd eraill sy'n arwain polisi ac ymarfer. Isod, nodir agweddau o'r tensiynau hyn:
- **Ataliad:** Mae gyrrwyr cymysg ar gyfer ymglymu mewn ataliad ym maes gofal cymdeithasol yn amlwg yn y llenyddiaeth empirig. Un gyrrwr polisi ydy arbed darpar gostau a llai o alw yn y dyfodol a'r defnydd o wasanaethau, yn unol â pholisi gwasanaethau cymdeithasol. Cafwyd arsylwadau y gall yr agenda hwn newid meddylfryd i feddwl mai camau i arbed arian ddylai fod yr ystyriaeth bennaf. Mae rhai arsylwyr yn dadlau bod hyn yn mynd yn groes i'r hyn sydd ei angen a gall fod angen buddsoddiad ar gyfer ataliad dros yr hirdymor ac mae'n cymryd amser i ddeall problemau cymhleth y sefyllfaoedd

²⁵ Andrews et al, op. cit.

sydd angen eu hatal.²⁶ Yr un oedd casgliad yr adolygiad llenyddiaeth economaidd ac ariannol.

- **Cydgynhyrchu:** Mae llenyddiaeth cydgynhyrchu yn llawn o enghreifftiau o'r gwrthdaro posibl rhwng gwerthoedd ac arferion cydgynhyrchu a gwerthoedd ac arferion cymdeithasol, trefniadol a phroffesiynol eraill. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys tensiynau rhwng trafodaethau am hawliau'r unigolyn/prynwriaeth a chyd-ddibyniaeth/cyfaddawd; rhwng sicrwydd ac ansicrwydd; safbwyntiau pobl sy'n defnyddio a chymorth a'r rhai sy'n eu cynnig.²⁷ Nodir y tensiynau hyn hefyd yn y llenyddiaeth hanesyddol a chyfranogiad y cyhoedd a'r gymuned.
- **Gweithio'n aml-asiantaethol:** Mae'r adolygiad ar weithio'n aml-asiantaethol yn archwilio'r her o gael asiantaethau yn cydweithio ac mae'n nodi hanes darnio gwasanaethau '*...a waethygir gan annibyniaeth, cystadleuaeth a dewis cyfundrefnol*'.²⁸
- **Llais a Rheolaeth:** Mae adolygiad llais a rheolaeth yn nodi tensiynau rhwng syniadau dinasyddiaeth a chael mwy o reolaeth ariannol, a rhoi llais a rheolaeth ar waith mewn sefyllfaoedd a lleoliadau gofal cymdeithasol a darparu cymorth.

Adeiladu'r sail tystiolaeth a defnyddio tystiolaeth yn ymarferol

3.27 Mae adeiladu sail tystiolaeth ar gyfer ymchwil a defnyddio tystiolaeth yr ymchwil yn thema gyffredin ar draws y gwahanol adolygiadau. Os bydd tystiolaeth fel hyn ar gael yn aml gwneir defnydd ymarferol annigonol ohoni. Mae potensial i ddefnyddio data a gesglir yn gyson i ddeall pa mor effeithiol ydy mentrau (e.e. [Emerson et al, 2011](#); [Shapiro et al, 2013](#)):²⁹

²⁶ Verity et al, op. cit.

²⁷ Andrews et al., op. cit.

²⁸ Wallace et al., op. cit., p.15.

²⁹ Emerson, E., Hatton, C. & Robertson, J. (2011) *Prevention and Social Care for Adults with Learning Disabilities. A Scoping Review*. School for Social Care Research

Shapiro, V.B., Hawkins, D.J., Oesterle, S., Monahan, K.C., Brown, E.C. & Arthur, M.W. (2013). 'Variation in the Effect of Communities That Care on Community Adoption of a Scientific Approach to Prevention'. *Journal of Social Work Research*, 4(3), doi:10.5243/jsswr.2013.10.

- Un thema yn yr adolygiad ar ataliad ydy diffyg astudiaethau meintiol hirdymor am effeithiolrwydd ataliad wrth geisio cyflawni nodau pendant.³⁰ Mae'r bylchau hyn yn nhystiolaeth ataliad hefyd yn cynnwys bylchau yn argaeledd adnoddau mesur effeithiol. Bu ymdrechion diweddar i gyd-destunu canlyniadau gwaith atal drwy ddadansoddiad cost a budd ([Knapp, et al, 2013](#)).³¹
- Cafodd yr adolygiad ar lesiant bod cynnwys cylch ewdonomaidd a hedonaidd ynghyd â mesurau gwrthrychol a goddrychol yn cael eu hystyried yn bwysig i gyfleu gwir effaith a darpar effaith polisi cyhoeddus ar lesiant unigolion a gwneud hynny yn gywir. Nodwyd bylchau yn nefnydd Llywodraeth Cymru o lesiant a sgôp ar gyfer cynnwys elfennau a mesurau goddrychol hedonaidd.'
- Mae goblygiadau adolygiad ariannol ac economaidd yn rhybuddio yn erbyn defnyddio ymyriadau lle nad oes digon o ymchwil digonol a llenyddiaeth gwerthuso i gefnogi eu defnydd.
- Cafodd yr adolygiad ar gydgynhyrchu y gellir hwyluso dysgu a newid cyfundrefnol drwy wneud defnydd gwell o dystiolaeth wrth ddatblygu gwasanaeth (yn cynnwys profiad) a gwybodaeth o ddisgyblaethau academaidd.
- Ceir sail tystiolaeth sylweddol am brofiad personol defnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol, gofalwyr a chyfranogwyr a gan ddatblygwyr cymunedol y gellir ei ddiystyru o ran astudiaethau empirig.

Adeiladu sefydliadau galluogi sefydliadau a gwaith aml-asiantaethol

3.28 Mae pob un o'r adolygiadau yn trafod materion yn ymwneud â chyd-destunau datblygu cyfundrefnol a rhyng-gyfundrefnol. Roedd hyn yn arbennig felly yn adolygiadau aml-asiantaethol, llais a rheolaeth a chydgyhyrchu. Mae rhai nodweddion cyffredin yn y gwahanol adolygiadau am hinsoddau ac arferion cyfundrefnol.

³⁰ Verity et al., op. cit., p.8.

³¹ Knapp, M., Bauer, A., Perkins, M. and Snell, T. (2012) 'Building community capital in social care: is there an economic case?' *Community Development Journal*. 48 (2): 313- 331.

- 3.29 Ymhlith pethau eraill, cynorthwyr sefydliadau sy'n defnyddio egwyddorion y Ddeddf a gweithio'n aml-asiantaethol gan ddulliau perthynas a pherson ganolog o fynd ati, dulliau sy'n ffitio gyda gwahanol grwpiau o fewn poblogaeth a'u datblygu ar y cyd, yn comisiynu fframweithiau sy'n cynorthwyo penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth ar ble dylai adnoddau gael eu dyrannu ar sail egwyddorion, arweinyddiaeth sy'n cynorthwyo i addasu'r egwyddorion yn ymarferol a chreu newid cyfundrefnol a newid i hinsawdd gwasanaeth i alluogi'r egwyddorion i fod yn sail ystyrion i gamau gweithredu
- 3.30 Mae'r heriau'n niferus ac yn cynnwys ail-gyfeirio hinsoddau cyfundrefnol o'r hyn sydd wedi digwydd yn hanesyddol, rheoli'r tensiynau rhwng trafodaethau am yn ail (h.y. osgoi risg a chymryd risgiau positif), a chymhlethdod o weithredu egwyddorion ar draws gwahanol leoliadau gofal a gwneud hyn ar gyfer pobl o wahanol ddemograffeg a chefnidir.

Newid strwythurol a rhannu pŵer


- 3.31 Mae cysylltiadau grym a'r modd y mae grym yn cael ei weithredu ar lefel strwythurol yn themâu yn y llenyddiaeth a adolygwyd. Er enghraifft, ceir ystod o ddulliau ataliol o fynd ati a modelau a ddefnyddir ym maes gofal cymdeithasol ac mae'r rhain yn ffocysu'n bennaf ar ymyriadau ar lefel yr unigolyn/teulu a chymuned. Dyfynnwyd [Gough](#) (2013)³² yn yr adolygiad ar ataliad gan nodi mai ychydig o ymyriadau ataliol sy'n mynd i'r afael â phroblemau strwythurol, er gwaethaf y rhethreg i'r perwyl hwn. Y farn gyffredinol ydy bod gofal cymdeithasol wedi ffocysu'n bennaf ar ataliad trydyddol ac eilaidd yn hytrach nag ar ataliad sylfaenol neu waith 'heriol'. Mae perthynas grym yn thema yn yr adolygiadau cydgynhyrchu a llais a rheolaeth, gyda galw am ffyrdd newydd o arferion rhannu pŵer o fewn sefydliadau, rhwng sefydliadau ac mewn cysylltiadau rhwng darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaethau. Yn yr un modd, mae llenyddiaeth llais a rheolaeth yn nodi sialensiau wrth rannu rheolaeth mewn lleoliadau gofal cymdeithasol.

³² Gough, I. (2013). The Political Economy of Prevention. *British Journal of Political Science*. 45 (2): 307-327.

Crynodeb

- 3.32 I grynhoi, mae'r Ddeddf yn ymyriad cymhleth sy'n dod â dyletswyddau a swyddogaeth cydberthynol yn datgan y modd y mae'r rhai sy'n gyfrifol yn gweithredu mewn dulliau cydweithredol i ddiogelu pobl rhag niwed a chamdriniaeth, cynorthwyo a hyrwyddo llesiant pobl a chymunedau yng Nghymru. Mae'n ddarn o ddeddfwriaeth sy'n galluogi ac o bosibl yn trawsffurfio pethau.
- 3.33 Mae themâu trawsbynciol yn yr adolygiad llenyddiaeth ar y pum egwyddor ac yn sail i ddyletswyddau a swyddogaethau'r Ddeddf fel y gwelir yn Ffigwr 3.3.

Ffigwr 3.3: Egwyddorion y Ddeddf ar waith



4. Canfyddiadau – Egwyddorion y Ddeddf

- 4.1 Mae'r bennod yn cyflwyno'r canfyddiadau sy'n gysylltiedig ag egwyddorion y Ddeddf a'i weithrediad gan gyfranogwyr. Trosolwg cyffredinol sy'n agor y bennod, gyda ffocws ar bob un o'r egwyddorion canlynol.

Trosolwg cyffredinol

- 4.2 Wrth wraidd y Ddeddf, mae set o egwyddorion sy'n ganolog i gyflenwi gofynion a swyddogaethau'r Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn gofyn i'r rhai sy'n gyfrifol am ei gweinyddu i lynu at yr egwyddorion allweddol sy'n berthnasol i ddarparu gofal a chymorth ar gyfer pobl yn eu hardaloedd lleol neu dalgylchoedd.

Mae'r egwyddorion yn darparu fframwaith a ffocws ar gyfer camau gweithredu:

- 4.3 Y farn a fynegwyd yn fynych yn y cyfweiliadau oedd bod egwyddorion y Ddeddf yn 'bositif' ac 'i'w croesawu' wrth ddarparu fframwaith ac ysgogi camau gweithredu:

Byddwn i'n dweud bod yr egwyddorion yn ganolog i bopeth a wnawn (Uwch Reolwr, Awdurdod Lleol, Ardal 3)

Mae'r egwyddorion yn bwysig oherwydd nhw ydy sylfaen y Ddeddf (Uwch Reolwr, Awdurdod Lleol, Ardal 1)

- 4.4 Er gwaethaf y pryder ar y cychwyn am y baich gwaith o weithredu'r egwyddorion, roedden nhw'n cynnig fframwaith oedd o gymorth i gyfreithloni agenda: *Rydw i'n meddwl mai'r ymateb cyntaf i hyn oedd a fyddai'n golygu llwyth ar ben y gwaith oedd ganddyn nhw'n barod? Dyna'r pryder a realiti pethau, ond mae'n waith y mae asiantaethau partner wedi ei groesawu fel modd o hybu ffordd o weithio yr oedden ni am ei ddilyn beth bynnag ac mae wedi darparu fframwaith i alluogi hynny i ddigwydd (Uwch Reolwr, Bwrdd Iechyd, Ardal 4)*

- 4.5 Fel fframwaith darparodd yr egwyddorion uchod iaith gyffredin am sut gallai pethau fod yn y dyfodol ac ar gyfer newid ymarferol.

Adeiladu ar ymarfer blaenorol

- 4.6 Mae egwyddorion y Ddeddf yn cyd-daro â gwerthoedd, credoau, syniadau rhai o'r ymatebwyr. Mae'r Ddeddf hefyd wedi ysgogi dyfnhau ymarferion yn seiliedig ar y gwerthoedd hyn.

Mae fy ngyrwyrr yn hollol gydnaws â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Byddwn i wedi ei wneud beth bynnag heb y Ddeddf ond rhoddodd y Ddeddf rym i wneud hynny. Ond mewn gwirionedd doedd dim angen hynny oherwydd roedden eisoes yn ei weithredu yn [ALI] (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 3)

Mae egwyddorion y Ddeddf yn adlewyrchu gwerthoedd y trydydd sector yn gyffredinol a chroesawir ei fod yn cydnabod ymglymiad dinasyddion, cydgynhyrchu a gwerth prosiectau a mentrau dan arweiniad y gymuned i gymdeithas (Ymateb Arolwg).

- 4.7 Cyfreithlonodd y Ddeddf a charlamu camau gweithredu i gyfeiriadau roedd rhai arweinwyr ac ymarferwyr am eu dilyn. Defnyddiwyd trosiad o daith yn fynych lle mae gweithredu'r egwyddorion yn 'broses o ddatblygiad' gyda 'dysgu parhaus' dros amser.

Dydw i ddim yn ei ystyried o anghenraid ei fod, doedd dim byd yn mynd ymlaen o ran yr ardaloedd hyn cyn y Ddeddf ac yn sydyn y diwrnod mae'r Ddeddf yn cael ei chyflwyno mae newid anferthol yn digwydd. Mae'n broses o ddatblygiad dros amser ac rydyn ni'n dal wrth y gwaith (Uwch Reolwr, Bwrdd Iechyd. Ardal 3)

Byddwn i'n dweud ein bod ar daith barhaus a dyna sut byddwn i'n ei ddisgrifio. (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 2)

- 4.8 Cyfeiriodd ymatebwr hefyd at sail tystiolaeth oedd yn cronni o fewn adroddiadau arolwg y llywodraeth a sut mae egwyddorion y Ddeddf yn cael eu gweithredu: ...o fewn yr adroddiad [CIW] roedd y canfyddiadau yn eitha da. Er enghraifft, o ran pobl yn ymarfer rheolaeth, dywedwyd y gofynnwyd i bobl 'beth sy'n bwysig' iddyn nhw a bod eu lleisiau a'u dewisiadau yn cael eu clywed gan ymarferwyr a phobl eraill sy'n gweithio gyda nhw (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)

Sialensiau a newid

- 4.9 Cafwyd cydnabyddiaeth faint o waith sydd eto i'w wneud i ymgorffori a gweithredu egwyddorion y Ddeddf o fewn hinsawdd sefydliadau ac ar draws ystod eang o feysydd ymarfer: *Mae cydgynhyrchu, llais a rheolaeth a'r elfennau hynny, byddwn i'n awgrymu, yn rhai o'r meysydd eraill tra rydyn ni wedi gwneud newidiadau ac mae rhai pobl sy'n defnyddio'r dull hwnnw o fynd ati yn dda iawn iawn, ond mae gwaith eto i'w wneud dros y blynyddoedd nesaf (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)*
- 4.10 Cafwyd hefyd safbwyntiau nad ydy uchelgais y Ddeddf i drawsffurfio pethau yn cael ei fatio gan ymarfer beiddgar a newidiadau i'r system: *Dydw i ddim, mewn gwirionedd yn clywed unrhyw sgysiau am syniadau mentrus, clir, blaengar o'r chwith neu o'r dde i'r maes i mewn i syniadau prif ffrwd (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 3)*

Ataliad ac ymyriad cynnar

- 4.11 Roedd egwyddor ataliad ac ymyriad cynnar o dan y Ddeddf yn destun llawer o drafod ar draws y cyfweliadau gwerthuso proses.

Gweithredu ataliad

- 4.12 Cafwyd enghreifftiau o weithredu egwyddor ataliad a dyletswyddau o dan y Ddeddf. Roedd hyn yn ymestyn o ymgorffori ataliad yn gyffredinol ar draws systemau cyfundrefnol a meysydd gwaith i gyflenwi modelau penodol megis ataliad wedi ymgorffori yn y gwasanaethau diogelu, gwybodaeth a chymorth, cymorth cynnar i deuluoedd a modelau galluogi.
- 4.13 Cododd yr ymatebwr canlynol y pwynt bod gweithredu dulliau ataliol o fynd ati yn dibynnu ar yr hyn y ceisir ei atal: *...mae ataliad cynnar yn amrywio yn dibynnu ar yr hyn yr ydych yn ceisio ei atal. Mae'n derm cyffredinol, gall fod yn llawer o bethau gwahanol yn dibynnu ar eich sefyllfa. (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 3)*
- 4.14 Pwysleisiodd rhai gymhlethdod gweithredu agenda ataliol, sydd o ran ei natur yn gofyn am ddadansoddiad manwl a thrafod heriau er mwyn penderfynu ar y camau gorau i'w gweithredu: *Mae'n ymwneud â'r modd yr ydyn ni'n ymgorffori holl egwyddorion y Ddeddf, ac rydyn ni wir yn ffocysu ar ganlyniadau o ran yr hyn yr ydyn ni'n ei wneud, a hefyd y math o agenda ataliol. Mae trafodaeth barhaus o ran yr heriau, y rhwystrau, sut ydych chi'n teimlo mae pethau'n mynd gyda'r darparwr*

hwnnw, ydych chi'n setlo pethau, nid yr arian, i'w orfodi a gwneud pethau'n well wrth symud ymlaen (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 2)

Effaith ataliad

- 4.15 Cafwyd safbwyntiau cymysg ar effaith ataliad hyd yn hyn:

Yr hyn a ges i oedd yr hyn a wnaeth wahaniaeth oedd y defnydd cynyddol o ataliad a'r hyn mae ffocws ar ataliad o fewn y timau derbyn wedi'i olygu i'r tîm rydwi'n gweithio gydag e (Gweithiwr Rheng Flaen, ALI, Ardal 4)

Dydw i ddim yn siŵr pa mor bell mae hynny wedi mynd mewn gwirionedd, yr holl ataliad cynnar isel ei lefel cyn i bobl ddod dan radar y gwasanaethau. (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 4)

- 4.16 Fodd bynnag, cafwyd barn arall, sef ei bod yn rhy gynnar i wybod a ydy ataliad yn cael effaith. Hefyd, amlygwyd sialensiau wrth sefydlu'r adeg orau ar gyfer ymyriad, a gwneud ymyriadau yn bosibl i'w cyrchu:

Dw i'n meddwl ei bod ychydig yn rhy gynnar i ddweud hynny yn bendant yn [ALI] er enghraifft, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn gostwng yn araf a diogel ond mae'n ddyddiau cynnar, a fydden ni ddim yn gallu dweud yn bendant oherwydd ffactorau arbennig (Uwch Reolwr ALI, Ardal 2)

Mae'n ymddangos bod gwaith sy'n ffocysu ar ataliad yn y maes hwn wedi cael ei arwain gan fwyaf gan fentrau polisi [...] Mae mentrau fel hyn yn achosi newid yn y ffocws ac yn gofyn i awdurdodau lleol ystyried gyda'i gilydd y modd mae gwasanaethau yn cael eu cynllunio a pha mor alluog ydyn nhw o ymyrryd a chynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd lle bynnag posibl [...] Er bod rhai awdurdodau lleol yn gweithio'n dda, mae nifer o ardaloedd yn cael trafferth i ddatblygu'r agenda hwn (Ymateb Arolwg Gweithlu)

- 4.17 Cafwyd nifer o sylwadau am y "metrigau" a all fesur effaith orau a'r broses o weithredu ataliad; mae'r rhain yn dibynnu ar y math o fodelau neu fentrau sy'n cael eu cynnig a'r newid a fwriedir:

...mae'n gofyn am gydweithrediad mawr a phartneriaethau cadarn a pherthynas gadarn rhwng sefydliadau a'u huwch swyddogion a'r byrddau a chynrychiolwyr gwleidyddol. (Uwch Reolwr ALI, Ardal 4)

Rydyn ni wedi cael trafferth i sicrhau'r sail tystiolaeth o ran ataliad a sicrhau mesurau cadarn y gallai i pawb gytuno arnyn nhw. Rydw i'n meddwl y bydd rhaid i unrhyw un sy'n dod o hyd i'r mesur euraid a rhoi patent arno (Rheolwr Gweithredol, Bwrdd Iechyd, Ardal 2)

Buddsoddi mewn ataliad

- 4.18 Ymddangosodd thema buddsoddi mewn ataliad yn fynych yn ymatebion y cyfweiliadau. Cafwyd cymysgedd o farn a phrofiadau ar draws sbectrwm h.y. annigonol ydy'r buddsoddiad mewn ataliad, cyfyngiadau ar ryddhau cyllid ar gyfer ataliad ac enghreifftiau lle roedd awdurdod lleol wedi buddsoddi mewn ataliad: *Y pryder ydy nad oes cyllideb i gefnogi rhai o'r syniadau gwych hyn ac mae hynny'n rhwystredig iawn. Ie, mae'n edych yn dda ar bapur yn tydi? Yr holl wasanaethau ataliol hyn, a bydden nhw'n wasanaeth gwych, y broblem ydy eu gweithredu (Gweithiwr Rheng Flaen, ALI, Ardal 4)*

Cydgynhyrchu

- 4.19 Cafwyd enghreifftiau o weithredu cydgynhyrchu yn ôl gofynion y Ddeddf a sut, i rai, y mae'n newid o ymarferion blaenorol. Nodwyd ymglymiad ac arweinyddiaeth y trydydd sector, cydgynhyrchu gwaith mewn taliadau uniongyrchol, gweithio gyda phlant a theuluoedd ac oedolion hŷn mewn ffyrdd newydd, a datblygiad o bolisiâu ac ymarferion cyfundrefnol i fod yn gydnaws ag egwyddorion cydgynhyrchu:

Mae cydgynhyrchu yn ffynnu yn [ALI] ac yn datblygu'n norm [...]. Mae hyn yn bennaf oherwydd nifer fechan o staff sydd â'r sgil, yr hyder, y gwerthoedd a'i uwch swydd i gynorthwyo a hwyluso gweithio gydag egwyddorion cydgynhyrchu. Cynhaliodd gwasanaethau cymdeithasol gyfres o adolygiadau ar gyd-gomisiynu – mabwysiadu egwyddorion cydgynhyrchu yn ein cylch gorchwyl a rennir a diffinio cyd-gomisiynu a chomisiynu ar gyfer cydgynhyrchu (Ymateb i Arolwg Gweithlu)

[] Gwneud yn sicr bod yr unigolyn ynghanol pethau ac yn gallu cydgynhyrchu'r gofal y mae'n ei dderbyn. Mae hynny o bosibl yn wahanol iawn i sut bu rhai partneriaid efallai'n gweithio yn flaenorol (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 1)

4.20 Cynorthwywyd i roi cydgynhyrchu ar waith gan hyfforddiant a hyrwyddiad oedd yn cynnwys mentora gan bobl â sgiliau a gwerthoedd cydgynhyrchu. Ystyriwyd hefyd fod sgôp ar gyfer gwelliant mewn arferion cydgynhyrchu i ymgorffori'r egwyddor hon er mwyn bod yn fwy ymarferol.

Sialensiau i weithredu cydgynhyrchu

4.21 Cafwyd trafodaethau meithion am brofiadau a sialensiau i ddilyn agenda cydgynhyrchu. Cydnabuwyd bod angen datblygiad pellach er mwyn deall ac adnabod yn llawn beth ydy cydgynhyrchu a sut i'w weithredu'n llwyddiannus: *Dw i'n meddwl bod pobl weithiau yn manteisio ar y sefyllfa, ie rydyn ni'n gwneud cydgynhyrchu ac rydyn ni'n gwneud hyn a'r llall'. Nawr, er ei fod yn fabandod mewn nifer o achosion a bod pobl yn dweud 'rydyn ni'n gwneud hyn' a phan fyddwch yn gofyn iddyn nhw sut ydych chi'n gwneud hyn, sut ydych chi'n ymgorffori'r hyn yr ydych yn ei wneud? Wel , rydyn ni'n gwneud hyn. Ond onid hynny a wnaethoch chi flynyddoedd yn ôl? Wel ie, ond mae'n wahanol'. Felly, mae llawer o bethau sydd angen eu datblygu (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 1)*

4.22 Cynigwyd awgrymiadau am yr hyn a all gynorthwyo datblygiad cydgynhyrchu parhaus yn ymarferol. Oedd un o'r rhain yn ffocysu ar ddarparu cymorth ar gyfer gofalwyr i gymryd rhan weithredol ym mhrosesau cydgynhyrchu, o gofio does gan ofalwyr ddim llawer o amser hamdden: *Bydden nhw'n treulio unrhyw amser sbâr fyddai gyda nhw, yn dal i fyny gyda'u gorchwylion neu dreulio eu hamser ar hamdden a hobïau. Dylid ystyried annog unigolion, yn cynnwys gofalwyr, i ymglymu gyda chydgyhyrchu. Mae darparu gofal amgen, treuliau a defnyddio technoleg yn enghreifftiau lle mae gofalwyr yn fwy tebygol o ymglymu gyda chydgyhyrchu a chynllunio. Rydyn ni'n poeni bod asiantaethau statudol yn aml yn disgwyl i ofalwyr ymglymu heb unrhyw dâl na chymorth, sy'n gwneud gofalwyr i deimlo nad ydyn nhw'n cael eu gwerthfawrogi (Ymateb Arolwg Gweithlu)*

4.23 Nodwyd bod ymateb i ddiddordebau amrywiol a'r cymhlethdod sy'n annatod mewn trafodaethau ar gydgynhyrchu yn her fawr:

[] Mae'n ymwneud â gwrthsefyll y temtasiwn i geisio datrys popeth ... Dydw i ddim yn meddwl ei bod yn hawdd gan fod pobl yn aml yn disgwyl cael atebion sydyn a hefyd, fel dw i'n dweud, bod llawer o bobl yn dal i ddod aton

ni yn dilyn arhosiad mewn ysbyty neu beth bynnag, a lle gall fod tuedd o fewn sefyllfa ysbyty i ddweud 'rydych chi angen hyn neu'r llall'. Gall sgwrs weithiau eich rhoi mewn sefyllfa lle mae ychydig o wrthdaro a dw i'n meddwl bod hyn yn digwydd yn fyny (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)

Dydych chi ddim yn gallu sicrhau consensws heb fod y bobl sydd yn y grŵp defnyddwyr gwasanaeth sy'n mynd i gydgyhyrchu yn deall y cysyniad o gydgyhyrchu eu hunain, maen nhw'n meddwl mai ymgynghori ac yn aml dydyn ni ddim. [...] Maen nhw'n disgwyl i chi fynychu digwyddiad cydgyhyrchu gyda chynnyrch ac maen nhw cynnig sylwadau ar y cynnyrch hwnnw ond nid dyna ydy cydgyhyrchu (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 4)

- 4.24 Mae symud y cylch gorchwyl arbenigol o fewn patrwm cynnig gwasanaeth i fatisio gwerthoedd ac ymarfer cydgyhyrchu a sicrhau bod cymorth uwch arweinyddiaeth a chymorth gwleidyddol wedi cael eu nodi fel ffactorau hanfodol:

[] Mae'r dyheadau yn sicr yn bodoli, dydw i ddim yn deall eto mewn gwirionedd beth ydy cydgyhyrchu. Felly, ydy, mae'n fwriad gennym ond y realiti ydy 'dyma'r hyn y byddwn yn ei wneud, beth ydych chi'n feddwl ohono?' 'Ydy, mae'n syniad da iawn'. Yna, y tro nesaf y byddwn yn ei ystyried, fe welwn ni a allwn adlewyrchu hynny (Uwch Reolwr, Bwrdd Iechyd, Ardal 4)

Mae'n ymddangos nad yw uwch reolwyr a'r mwyafrif o bobl â chyfrifoldeb comisiynu yn cynnig eu cymorth a'u cymeradwyaeth. Felly, er bod hyn yn ffordd o weithio sy'n cael ei sefydlu, mae'n dal yn fregus (Ymateb Arolwg Gweithlu)

Llesiant

- 4.25 Nodwyd arwyddocâd ffocws pendant ar 'llesiant' yn nheitl a bwriad y Ddeddf gan ymatebwyr. Mae cynorthwyo llesiant yn gofyn am waith cysylltiol ac aml-asiantaethol a llais/rheolaeth a chydgyhyrchu: *Roedd cynnwys llesiant yn y Ddeddf yn dilysu'r penderfyniadau i gael haen allweddol ar ofal cymdeithasol ac i sicrhau y gellir mynd i'r afael â'r sialensiau yr ydyn yn eu hwynebu drwy gysylltiadau cadarn rhwng gofal iechyd sylfaenol, iechyd y boblogaeth, gofal cymdeithasol ac asiantaethau llesiant ac ymyriadau parhaus. Mae ein cenhadaeth yn delio â gofal*

cymdeithasol ac ar draws rhychwant bywyd i alluogi dinasyddion i fod yn actif yn hirach – rydyn ni'n gwybod bod hyn yn effeithio'n bositif ar lesiant ac mae manteision eraill megis cynnydd mewn ffyniant economaidd (Ymateb arolwg)

- 4.26 Cafwyd enghreifftiau o ymyriadau a dulliau o fynd ati i ddiwallu anghenion llesiant megis modelau ar sail lle, modelau cymunedol tosturiol, cysylltwyr cymunedol, modiwlau hwb, paneli aml-asiantaethol a rhagnodi cymdeithasol ymhlith eraill.
- 4.27 Roedd galw am rannu arferion da yn well ar draws Cymru. Roedd barn hefyd bod datblygu dulliau llesiant o fynd ati yn brosiect parhaus, a chodwyd cwestiynau am ystyr llesiant: *Dydw i ddim yn meddwl ein bod wedi cyrraedd eto, dw i'n meddwl bod angen i ni wneud, oherwydd bod deall llesiant yn rhywbeth y gall pawb gytuno a dweud 'ydyn, rydyn ni'n awyddus i gefnogi llesiant'. Ond o geisio c diffinio beth ydy llesiant mae'r ystyr yn niwlog ac annelwig, yntydi? (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 4)*

Diffinio a thrafod llesiant

- 4.28 Cafwyd dadleuon parhaus ar ddiffiniad llesiant. Roedd rhai ymatebwyr yn trafod sut mae llesiant mewn gwasanaethau cymdeithasol yn fwy na llesiant yr unigolyn ond hefyd llesiant cyffredinol/poblogaeth (h.y. ar lefel yr ALI) Awgrymai eraill bod llesiant yn 'derm technegol' sy'n drysu pwy sydd â'r grym mewn perthynas gwasanaethau cymdeithasol.
- 4.29 Cafwyd hefyd farn y gellir dadlau yn barhaus am lesiant, ac unwaith y caiff ei ddiffinio mewn cynllun llesiant cyfundrefnol, mae gwerth mewn peidio ag ysgogi dadlau'n barhaus.

Mae'r ddadl yn parhau oherwydd rydyn ni bob amser yn archwilio llesiant.

Ydy e'n ymwneud â iechyd? Ydy e'n ymwneud â bod yn ymwybodol o

iechyd? Ydy e'n ymwneud â sut mae unigolyn yn teimlo? Iechyd mewn

sgyrsiau a phresenoldeb yn eu sefyllfa eu hunain ac mae'r ddadl honno yn

barhaus mewn sgyrsiau o ddydd i ddydd, boed yn gyfarfodydd rheolwr gydag

ymarferwyr rheng flaen neu rhwng ymarferwyr (Rheolwr Gweithredol, ALI,

Ardal 4)

...mae rhan ohono yn cyfeirio nôl at y berthynas a'r gallu i gynnal y ddeialog

honno. Fel cysyniad, dw i'n meddwl bod pobl yn ei dderbyn ond o ystyried

*manyllion diffiniad llesiant, mae mor eang fel bron nad ydyn ni'n sicr o'i ystyr.
(Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Cenedlaethol)*

Llais a rheolaeth

- 4.30 Cafwyd enghreifftiau o ddehongliadau yn hytrach na positif o'r effaith yn deillio o ffocws ar 'llais a rheolaeth'. Roedd hefyd fwy o ymwybyddiaeth o sut orau i gynnal llais a rheolaeth:

Yn nhermau llais y plentyn, mae pwysau ar y funud i sicrhau bod dogfen ar wahân yn ogystal, felly, yn hytrach na dim ond ysgrifennu amdano yn eich asesiad, cael dogfen ar wahân i dystio i'r llais hwnnw (Gweithiwr Rheng Flaen, ALI, Ardal 4)

Cychwynnodd yr astudiaeth ar effaith y llais a rheolaeth gan ystyried llais a mewnbwn dinasyddion yn ystod y cam cynllunio ac nid yn unig fel "ymgyngorydd" ar ôl y newid yn y gwasanaethau (ymateb Arolwg Gweithlu)

- 4.31 Cafwyd trafodaeth sylweddol am weithredu gofynion eiriolaeth o dan y Ddeddf. Roedd rhai o'r farn bod y mesurau hyn yn gweithio'n dda gyda chynnydd yn y defnydd o wasanaethau eiriolaeth gan grŵp ehangach nag o'r blaen ac ymwybyddiaeth gynyddol o angen a phwysigrwydd eiriolaeth mewn arferion gofal cymdeithasol.

Nawr, wrth gwrs, mae eiriolaeth yn llawer mwy amlwg o dan y Ddeddf, nid nad oedd eiriolaeth yn amlwg cyn y Ddeddf, ond yn nhermau ein dyletswydd cyfreithiol o ran eiriolaeth a'r cynnig uniongyrchol. Dw i'n sicr wedi gweld mwy o gydnabyddiaeth ymhlith gweithwyr cymdeithasol proffesiynol a gweithwyr proffesiynol mewn meysydd eraill am bwysigrwydd eiriolaeth ac am sicrhau bod llais pobl ifanc yn cael eu clywed yn well hefyd (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)

Mae eiriolaeth yn gweithio'n dda iawn. Mae hyn wedi cynyddu llawer yn ddiweddar gyda mwy o ffocws ar yr angen i weithredu'r gwasanaeth eiriolaeth ymhlith plant fel rhywbeth arferol, gofyn a ydyn nhw am eiriolwr ac mae hynny yn rhan o'r hyn yr ydyn ni'n ei wneud nawr lle nad oedd cynt (Gweithiwr Rheng Flaen, ALI, Ardal 4)

Gweithio'n aml-asiantaethol

- 4.32 Drwy'r cyfweiliadau ac ymatebion yr arolwg cafwyd llawer o enghreifftiau o waith aml-asiantaethol sydd ei angen o dan y Ddeddf:

Mae'r gallu i gynnwys aml-asiantaethau yng ngofal unigolyn yn gweithio'n eithriadol o dda, yn cynnwys aml-asiantaethau yn y broses adolygu a chynllunio personol yn galluogi mynediad unigolion i ragor o wasanaethau (ymateb Arolwg Gweithlu)

Rydyn ni'n credu'n gryf bod rhan-deiliaid ar draws aml-asiantaethau yn rhannu gwir ddymuniad i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus. Fodd bynnag, mae'r capasiti o fewn sefydliadau a'r systemau sy'n bodoli yn llesteirio hyn (ymateb Arolwg Gweithlu)

- 4.33 Er y disgrifiwyd enghreifftiau positif o weithio'n aml-asiantaethol, yn aml addasir y rhain gyda sylwadau am yr hyn sydd ddim yn gweithio, yr hyn sy'n fregus, lle mae anghysonderau a bylchau a lle mae angen gwelliant:

Petaen ni'n parhau i gydweithio ar gyfer safbwynt aml-asiantaethol, byddai hynny yn fonws wrth symud ymlaen oherwydd dim ond mesur pa mor dda yr ydyn ni'n gwneud yn [yr ALI hwn] yn arbennig neu mewn unrhyw awdurdod y gallwn ni. Os byddwn yn cymharu'n hunain â'n partneriaid ac yn ddysgu o'r arferion gorau, fel y gallwn ni ei wneud os ydyn ni gyd yn eistedd yn yr un ystafell gyda'n gilydd yn siarad yr un iaith. Felly, i mi, byddai hynny'n ysbrydoli. Dydw i ddim yn meddwl ei fod yn digwydd cymaint ag y dylai sy'n anfantais ond dyna fyddai fy nod. (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)

Dw i'n meddwl mai'r peth gorau a fydd yn digwydd dros y ddwy flynedd nesaf ydy datblygu timoedd cymunedol mwy cadarn ar iechyd a gofal cymdeithasol. Yn hytrach na phobl naill ai adre heb gymorth neu mewn yn yr ysbyty neu heb fod yna gynllun clir ar eu cyfer, fy nyhead, a gobeithio dyhead yr holl system, ydy bod rhywun yn mynd i'r ysbyty am ysbaid byr ac yna'n mynd adref fel bod penderfyniadau yn cael eu gwneud yn y lle cywir (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)

- 4.34 Ystyrir bod gwaith aml-asiantaethol wedi'i seilio ar ymddiriedaeth a pherthynas dda, galluedd cyfundrefnol i gynorthwyo'r gwaith hwn ac mae rhai o'r farn bod y

prosesau hyn yn annigonol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc: *O ran gwasanaethau plant a phobl ifanc, profiad [enw] ydy bod Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol wedi canolbwyntio adnoddau i raddau helaeth ar oedolion y boblogaeth, ac yn gyfyng ac anghyson eu hystod a'u capasiti er mwyn ystyried y modd y maen nhw'n cynllunio gwasanaethau di-dor ar gyfer plant (ymateb Arolwg Gweithlu)*

Beth sy'n cynorthwyo gweithio'n aml-asiantaethol?

- 4.35 Ystyrir bod cysylltiadau a chyfathrebu o ansawdd yn bwysig wrth wneud gweithio'n aml-asiantaethol yn llwyddiannus ac yn ardystiad strategol a chyfundrefnol ar gyfer dull eang o fynd ati i ddelio â gweithio'n aml-asiantaethol. Mae hefyd yn gofyn am drafodaethau 'didwyll' ac agored.

Gallwch weithio mewn modd cydweithredol, i adeiladu perthynas, am y rhesymau hynny, wyddoch chi, bydd angen i chi allu cael dylanwad, bydd angen i chi allu cynnal trafodaethau didwyll ac agored am yr hyn yr ydych yn ceisio'i gyflawni a pha fframwaith deddfwriaethol sy'n eich tywys. Ond dydw i ddim yn credu mod i wedi gweld yr holl dystiolaeth y dylwn i fod yn gweithio tuag at ddull mwy strategol o fynd ati (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).

Rydyn ni wedi ymglymu gyda nhw [iechyd] beth bynnag a help y tîm nyrsio, maen nhw'n galw pwy bynnag sydd yn y tîm ac mae'n cyrraedd yr un lle. Dim ond galw arnyn nhw sydd raid, maen nhw i gyd yma, achos ein bod i gyd ar yr un llawr. Maen nhw'n ein gweld ni, rydyn ni'n eu gweld nhw, does dim byd na allwn ni wneud gyda'n gilydd (Rheolwr Gweithredol ALI, Ardal 1)

- 4.36 Hefyd roedd rhai o'r farn bod angen mwy o integreiddio a llai o ddarnio: *Y peth arall sydd ei angen arnon ni yn ddybryd ydy integreiddio, rhagor o integreiddio. Dydy hynny ddim wedi digwydd mewn gwirionedd i ni, i'n tîm, mae wedi i weddill yr awdurdod. Chi'n gwybod, integreiddio gweithwyr proffesiynol oherwydd ein bod wedi ein cyd-leoli gyda'n cydweithwyr iechyd, dydyn ni dim wedi'n hintegreiddio a dwi'n meddwl y byddai'n ddull un stori o fynd ati'n llawer mwy holistaidd ar gyfer pobl petaen nhw'n derbyn gofal gan dimoedd integredig (Rheolwr Gweithredol, All, Ardal 2)*

Crynodeb

4.37 Mae'r bennod hon wedi cyflwyno agweddau perthnasol i egwyddorion y Ddeddf. Y negeseuon allweddol ydy:

Trosolwg Cyffredinol

- Y farn a fynegwyd yn fynych oedd bod egwyddorion y Ddeddf yn ffurfio fframwaith pwysig yn seiliedig ar werthoedd ar gyfer camau weithredu.
- Ystyriwyd bod angen amser ar y 'daith' newid gyfredol a pharhaus er mwyn rhoi egwyddorion y Ddeddf ar waith.

Ataliad

- Cafwyd rhai enghreifftiau positif o fodolau ac arferion ataliad, ond ystyrir hyn gan rai yn fylchog.
- Cafwyd hanesion cymysg o'r buddsoddi mewn ataliad, gydag adroddiadau o dan-fuddsoddi yn ogystal ag ychydig o ddyrannu ataliad.

Cydgynhyrchu

- Cafwyd enghreifftiau positif o gydgynhyrchu yn natblygiad ymyriadau unigol a chymunedol ar gyfer gofal a chymorth
- Nodwyd sialensiau i sicrhau mwy o gymorth yr arweinyddiaeth ar gyfer dulliau cydgynhyrchiol o weithio, parhau i newid a datblygu modelau arbenigol proffesiynol ac ymateb i gymhlethdodau cynhenid prosesau cydgynhyrchu.

Llesiant

- Ystyrir bod llesiant yn hanfodol i ofal cymdeithasol, ond mae cryn ddadlau ynglŷn â chysyniad llesiant
- Mae galluogi llesiant yn gofyn am roi holl egwyddorion y Ddeddf ar waith

Llais a Rheolaeth

- Cafwyd bod gwasanaethau eiriolaeth yn gorgyffwrdd ac yn dameidiog, ynghyd â'r angen i ddal ati i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd eiriolaeth.

Gweithio aml-asiantaethol

- Gwelwyd ymrwymiad cryf i ac enghreifftiau positif o weithio'n aml-asiantaethol, fodd bynnag, mae breuder, bylchau ac anghysonderau mewn gweithio aml-asiantaethol.
- Gweithio'n aml-asiantaethol yn seiliedig ar ymddiriedaeth, cysylltiadau a galluedd sefydliadau i gynorthwyo'r gwaith hwn.

5. Canfyddiadau – Gweithredu'r Ddeddf

5.1 Mae'r data a gyflwynir yn y bennod hon o'r canfyddiadau yn darparu detholiad o'r dyfyniadau sy'n cynrychioli nodweddion allweddol y cyfeiriwyd atyn nhw o ran gweithredu'r Ddeddf.

Gwneud pethau'n wahanol, strategaeth a gweledigaeth hirdymor

5.2 Mae'r is-thema gyntaf yn cynrychioli cyfleoedd a grëwyd gan y Ddeddf i weithio'n wahanol. Mae'r is-thema hon hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod gweithredu'r Ddeddf yn datblygu'n barhaus a'i ystyried yn broses barhaus.

5.3 Mae'r Ddeddf wedi galluogi ffyrdd newydd o weithio wrth gynllunio a chynnig gofal a chymorth gan gynnwys newid yr ymarfer a datblygu a chyfnerthu partneriaethau:

Mae gweithrediad y Ddeddf wedi newid y modd yr ydyn ni'n cynllunio a chynnig gofal a chymorth (Ymateb Arolwg, Gweithlu)

Dw i'n meddwl ei fod wedi crisialu'r cyfle i wneud cysylltiadau oedd yno yn rhannol eisoes ond dwi'n meddwl bod y Ddeddf yn gosod fframwaith cliriach ar gyfer hynny (Rheolwr Gweithredol, Rhanbarthol, Ardal 3)

5.4 O ystyried pethau'n bositif, disgrifiwyd y newid mewn arferion gwaith fel 'cam i'w groesawu', camu'n ôl at ddull o weithio sy'n ffocysu ar y cleient: *Mae [y Ddeddf] yn dychwelyd at rai o'r egwyddorion o ran prif egwyddor gweithwyr cymdeithasol sef bod ganddyn nhw werth yn nhermau eu gallu i gysylltu â phobl, i drin pobl â pharch, a bod teuluoedd yn gallu creu eu hatebion eu hunain ac mae hyn i'w groesawu (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)*

5.5 Eto i gyd, derbyniwyd yr her o 'wneud pethau'n wahanol', er enghraifft newid yn hinsawdd y gweithlu a'r angen i barhau i nodi a gweithredu ffyrdd newydd o weithio:

Mae rhai gweithwyr yn deall hyn, ac i eraill bu'n ymdrech fawr. Roedd pobl yn ran bwysig yn y ddeddfwriaeth flaenorol nes ei bod yn ymdrech iddyn nhw ddeall rhywbeth gwahanol (Rheolwyr Gweithredol, ALI, Ardal 4)

Mae [gweithredu'r Ddeddf] gymaint o sialens nes, os ydyn ni'n onest, bod rhaid i ni ddal i weithio arni, cadw i herio'ch hunain a'ch sefydliad i ddod o

hyd i ffyrdd newydd o geisio bod yn dda am wneud y pethau hyn (Uwch Reolwyr, ALI, Ardal 4)

- 5.6 Ystyriwyd bod newid ac ymdrechu i wella pethau yn gontinwmm. A bod angen gwaith a datblygiad parhaus, cafodd ei ddisgrifio fel 'gwaith ar y gweill'.

Rydyn ni'n gweithio gyda'r Ddeddf gan ein bod yn gwybod bod ganddon ni anghenion datblygu a bod angen i ni fynd ymlaen â'r gwaith (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)

Dw i'n meddwl ein bod yn cyflawni hynny o'r brig i'r gwaelod, o wleidyddion i staff uniongyrchol, mae pawb yn glir iawn beth yw'n gweledigaeth ni yn [ALI] i gwrdd ag anghenion y Ddeddf eto ac, fel dwedes i, rydyn ni'n gweithio'n barhaus tuag at hynny (Rheolwr Gweithredol ALI, Ardal 2)

Gwaith Cyn y Ddeddf a Chyflwyno'r Ddeddf

- 5.7 Cyn i'r Ddeddf gael ei chyflwyno, roedd llawer o'r gwaith paratoi a'r cynllunio wedi'i wneud. Roedd y gwaith a wnaed yn cyfeirio at ail-fodelu gwasanaeth, gwella partneriaethau, casglu gwybodaeth a'i lledaenu, sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Ddeddf a hyfforddiant ar gyfer y gweithlu. Roedd y sialensiau a'r hyn a amlygwyd yn gysylltiedig â phwysau ac adnoddau: *O fewn [yr ALI] roedden ni'n hollol barod. Buon ni'n gwneud pethau dair blynedd cyn i'r Ddeddf ddod i rym ac felly, roedd ganddon ni gynllun clir o lefel gorfforaethol a lefel y gyfarwyddiaeth. [...] Roedden ni eisoes ar y daith o ystyried ail-fodelu ein gwasanaethau oherwydd yr hyn yr oedden ni'n ei wybod am y bobl yr oedden ni eisoes yn eu cynorthwyo neu rai'n dod i mewn i'n gwasanaethau. Roedden ni'n ymwybodol bod angen gwelliannau o ran gweithio'n agosach gyda sefydliadau'r trydydd sector oherwydd bod angen arnon ni eto i gyfnerthu'n gwaith yn y meysydd hynny ac roedden ni eisoes wedi cychwyn ail-fodelu ein gwasanaethau (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)*
- 5.8 Roedd ymgynghoriadau, casglu gwybodaeth, a gweithio gyda rhwydweithiau sydd eisoes yn bodoli i ystyried cyfleoedd i ddatblygu ac esblygu yn agweddau oedd yn cynorthwyo i roi'r Ddeddf ar waith. Roedd casglu gwybodaeth a lledaenu a ffeirio gwybodaeth yn helpu i gynnig gwybodaeth a helpu staff i ddeall y Ddeddf: *Pan ddaeth y Ddeddf i rym gyntaf, doedden ni ddim yn siŵr ble bydden ni'n ffitio i mewn, felly, ein dull o fynd at bethau ar y cychwyn oedd casglu gwybodaeth. [...]. Fe*

wnaethon ni sicrhau bod hyn yn rhan o'n hymarfer, ein cymorth a'n goruchwyliaeth ac i sicrhau bod gan ein hymgynghorwyr a'n staff y wybodaeth briodol a'r dealltwriaeth briodol o'r Ddeddf a sut oedd hynny yn ffitio i mewn gyda'u gwaith (Rheolwr Gweithredol, Sefydliad sy'n Darparu, Ardal 3)

- 5.9 Roedd gwaith rhagbaratoadol wedi ffocysu ar sicrhau bob popeth yn cydymffurfio â'r Ddeddf, adolygu polisïau, gwaith papur ac ymarfer er mwyn cynnig gofal a chymorth:

Felly, roedd un agwedd oedd yn sicrhau bod prif ethos y Ddeddf yn cydymffurfio sef adolygu ein gwaith papur, adolygu ein polisïau ac yna adolygu ein gwir ymarfer ar ôl gweithredu'r Ddeddf er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 4)

- 5.10 Roedd hyfforddiant gweithlu yn nodwedd allweddol o'r gwaith a wnaed cyn cyflwyno'r Ddeddf. Byddwn yn ail-ystyried pwnc hyfforddiant ym Mhennod 8 ar y Gweithlu: *Cyn i'r Ddeddf ddod i rym roedd llawer o baratoi o ran hyfforddiant. Fi'n cyfarwyddo, yn tywys y tîm hyfforddi o ran yr hyn oedd ei angen arnon ni a sicrhau eu bod wedi ymglymu gyda rhaglenni rhanbarthol o ran hyfforddi gweithwyr cymdeithasol (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)*

- 5.11 Roedd ymwybyddiaeth 'gadarn' o'r hyn oedd ei angen gan y Ddeddf yn cynorthwyo datblygu a chyflenwi pecyn hyfforddiant 'cynhwysfawr': *Dwi'n credu bod yr ymwybyddiaeth yn eitha cadarn ac efallai mod i'n dweud hynny oherwydd roeddwn i'n rhan o gyflenwi rhai. Trefnon ni bedwar pecyn hyfforddiant, sesiynau hyfforddi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf. Cynhaliwyd sesiynau penodol ar gyfer Gwybodaeth ar Gyngor a Chymorth, Plant sy'n Derbyn Gofal, Diogelu ayb. Felly, byddwn i'n dweud ei fod yn eitha trylwyr. (Rheolwr Gweithredol, Rhanbarthol, Ardal 3)*

- 5.12 Roedd y sialensiau a amlygwyd ar gyfer paratoi ar gyfer cyflwyno'r Ddeddf yn ffocysu ar bwysau ac adnoddau oedd eisoes yn bodoli tra'n ceisio gweithredu newid ar draws gwasanaethau, ymarfer a'r gweithlu:

Roedd eich gweithlu presennol o dan bwysau anhygoel, ynghyd â'r newidiadau demograffig, a mwy a mwy o bobl yn gofyn am help. Felly roedd byw yn y cyd-destun hwnnw ac ar yr un pryd, ceisio ail-fodelu, ailgynllunio, ffocysu ar bobl, ystyried eu canlyniadau, newid eich prosesau asesu, newid

eich arferion, eich arferion proffesiynol, roedd yn dasg anferth (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Cenedlaethol)

...problemau adnoddau a'r demograffeg a'r gwaith ehangach o newid agweddau pobl at y modd yr ydyn ni'n darparu gwasanaeth, dw i'n meddwl bod un yn gyrru'r llall mewn ryw ffordd. Doedden nhw ddim yn ddau yn digwydd a bod angen i ni eu rheoli, fe wnaethon nhw i gyd gyfuno'n un broses (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 4)

(Gweithredu'r) Ddeddf ...

- 5.13 Cynigwyd nifer o ddisgrifiadau o'r modd y mae'r Ddeddf yn cynorthwyo newidiadau. Er enghraifft, ystyriwyd bod y Ddeddf yn dilysu a chyfreithloni, yn gatalydd i yrru a chynnig newid ac fel galluogwr:

Byddwn i'n dweud bod llawer mwy o drafod o ran ystyr hyn i gyd a sut i lunio meddylfryd gwahanol a llunio gwasanaethau i gwrdd â'r heriau hynny orau (Rheolwr Gweithredol, Sefydliad sy'n Darparu, Ardal 3)

Dw i'n credu bod angen catalydd arnon ni a dw i'n meddwl ei bod hi [y Ddeddf] wedi'n hysgogi a rhoi cyfeiriad i ni (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 4)

- 5.14 Cyfeiriodd eraill at y Ddeddf fel galluogydd ac yn darparu sylfeini i gynorthwyo newid a sicrhau mewn-bryniant gan sefydliadau a staff:

Mae wir yn cynnig sail cadarnach ar gyfer datblygu'r gwasanaethau hynny a'r angen i symud yn gyflymach o'm safbwynt i. Yn sicr, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol gan ei bod yn gosod dyletswydd ar y sefydliadau hynny i symud yr agenda yn ei flaen, dwi'n meddwl bod hynny wedi eu helpu i symud y gwasanaethau hynny yn gyflymach na fyddai wedi digwydd fel arall (Uwch Reolwr, Bwrdd Iechyd, Ardal 3).

Mae wedi bod yn adnodd defnyddiol i fframio'r holl waith hynny roedd angen i ni ei wneud beth bynnag, ond i'n helpu ni i adeiladu hynny ac i gael rhywbeth i'w ddal yn ei le a dwi'n meddwl y bu'n ddefnyddiol iawn, iawn. (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 4)

- 5.15 Disgrifiwyd gweithrediad y Ddeddf fel 'taith'. Er bod llawer y gwaith rhagbaratoadol wedi'i wneud, ni ystyriwyd bod y broses yn statig ond yn gontinwwm o waith parhaus i'w adolygu, i ddysgu ganddo ac i symud ymlaen.

O ran [cydymffurfio â'r] Ddeddf gyfan, mae'n daith anferthol a fydd yn cymryd nifer o flynyddoedd. 5 i 10 mlynedd efallai (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)

Rydyn ni'n sylweddoli bod llawer y gallwn ni ei wneud o hyd, ac mae'n daith hir. Mae fel grisiau, ond ydy, lle rydych chi'n dal i ddringo ac mae'r dŵr yn dal i godi a chithe un cam ar y blaen iddo (Uwch Reolwr, Bwrdd Iechyd, Ardal 3)

- 5.16 Ystyriwyd bod enwi'r Ddeddf yn broblem hefyd, gan arwain at gamddealltwriaeth am ddyletswyddau a chyfrifoldebau sefydliadau eraill yn enwedig, iechyd.

Dydy teitl y Ddeddf ddim yn helpu chwaith, mae'n deitl anghywir oherwydd ei fod yn ei lesteirio rywsut oherwydd pan ddaw achos i fynd i'r ysbyty a phethau felly, maen nhw'n meddwl mai dyletswydd gwasanaethau cymdeithasol ydy hi (Gweithiwr Rheng Flaen, ALI, Ardal 2)

Dydw i ddim yn siŵr bod enw'r Ddeddf o gymorth yn arbennig i staff iechyd, felly, dw i'n meddwl bod pobl ar y cychwyn yn dweud, 'wel, busnes gwasanaethau cymdeithasol ydy hwn'. Felly cymerodd ychydig o amser i dderbyn y dehongliad ehangach bod 'hyn yn wirioneddol berthnasol ac yn wir gysylltiedig â rôl pobl sy'n gweithio o fewn y gwasanaethau iechyd (Uwch Reolwr, Bwrdd Iechyd, Ardal 3)

- 5.17 Teimlai rhai cyfranogwyr bod diffyg cysondeb ac eglurder yn y Ddeddf oedd wedi arwain at ei gweithredu mewn gwahanol ffyrdd: *Dw i'n meddwl y gallai'r Ddeddf fod wedi bod yn fwy rhagnodol o ran y cyfrifoldebau hynny dros iechyd ond hefyd, o ran y pethau megis ein strwythurau mewnol o fewn y cyngor (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)*

- 5.18 Er gwaethaf y pryder hyn, ystyriwyd bod y Ddeddf yn darparu pwrpas a chyfeiriad ac yn cynnig awdurdod i weithredu newid mewn ymarfer a ffordd newydd o weithio a chyfreithloni hyn:

Hwyluswyd pethau i ni allu ei defnyddio fel tystiolaeth o ran ble rydyn am gyrraedd. Felly, mae'n gyfraith ac rydyn ni wedi gallu ei defnyddio fel lifer (Uwch Reolwr, Bwrdd Iechyd, Ardal 1)

[Mae gennyh] y pwrpas a'r cyfeiriad ac mae hynny'n golygu bod gennyh fachyn i hongian popeth, i roi'r hygredd sydd ei angen i symud ymlaen ac yn sicr mae hynny'n help i'w roi yn ei gyd-destun (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 2)

- 5.19 Roedd dilysu a chyfreithloni'r Ddeddf wedi golygu mwy o hyder wrth hwyluso sgysiau â phartneriaid, cyflwyno newid a chryfhau partneriaethau: *Rhoddodd [y Ddeddf] lifer i ni o fewn y cyngor gyda byrddau iechyd er enghraifft a'n partneriaid i ddweud 'na, dyma sut byddwn yn gweithio o hyn ymlaen a dyma pam rydyn ni'n ei wneud'. Nawr, gallai hynny fod wedi bod yn fwy anodd heb awdurdod y darn sylweddol hwn o ddeddfwriaeth (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 2)*

Sgysiau ac ymglymiad gyda dinasyddion

- 5.20 Soniodd cyfranogwyr am ddiffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o weithrediad y Ddeddf. Roedd hyn yn effeithio ar yr ymdrechion i ymglymu dinasyddion a theuluoedd mewn sgysiau ar sail cryfder am ddarpariaeth eu gofal a'u cymorth)

Yna, pan fyddwch yn gofyn i bobl beth allan nhw ei wneud drostyn nhw eu hunain, chi'n gwybod, pa fath o gymorth a gawson nhw, pa adnoddau sydd ganddyn nhw, yr ateb a gewch ydy 'wel cafodd Mrs Jones lawr yr hewl bopeth, pam ydych chi'n gofyn y pethau hyn i mi'. Dw i'n meddwl mai'r rheswm dros hyn oedd oherwydd nad oedd y cyhoedd yn ymwybodol o'r newidiadau oedd yn digwydd (Gweithiwr Rheng Flaen, ALI, Ardal 2)

Rywbyrd, mae angen cynnal sgysiau da gyda'r cyhoedd am ystyr dinasyddiaeth, beth mae helpu ei gilydd yn ei olygu a'r hyn mae creu cymunedau hunan-gynhaliol wir yn ei olygu (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)

- 5.21 Ystyriodd rhai fod diffyg ymwybyddiaeth yn effeithio ar wybodaeth dinasyddion o'u hawl i asesiad a'u dealltwriaeth o'r hyn y mae'n ei olygu: *Dydy teuluoedd ddim yn gofyn amdano [asesiad] oherwydd dydyn nhw ddim yn sylweddoli mai dyna'u hawl, felly dydy teuluoedd ddim yn deall mewn gwirionedd. Fe wnân nhw lofnodi a rhoi*

caniatâd i rannu eu data a byddwn ni'n dweud sut byddwn ni'n ei wneud. Ond dydy pobl ddim yn curo ar y drws yn dweud 'Rhaid i mi gael fy nghynllun gofal a chymorth ac ar ôl i chi orffen, bydda i am weld beth sydd ynddo' neu 'Dw i isio gweithio gyda chi ac eistedd i lawr a mynd drwyddo' (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 4)

- 5.22 Priodolwyd diffyg ymwybyddiaeth y cyhoedd i negeseuon cymysg am ddyletswyddau a chyfrifoldebau gwasanaethau cymdeithasol a phrinder deunydd hyrwyddo cyn ei gweithredu.

Ni chafwyd unrhyw sôn yn y cyfryngau am Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, dim byd o gwbl. Dim am yr ethos sylfaenol y Ddeddf, dim byd am yr hyn sy'n bwysig, a dw i'n meddwl byddai cyhoeddusrwydd gwahanol, neu hyd yn oed unrhyw gyhoeddusrwydd wedi bod yn dda ac wedi bod yn haws i'r gweithwyr (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 3)

Pan ddaeth y Ddeddf i rym gyntaf, cafwyd ymgyrch yn y cyfryngau, roedd y modd y cyflwynwyd y wybodaeth yn y cyfryngau yn gwneud i bobl feddwl bod y gwasanaethau cymdeithasol yn mynd i gynorthwyo mwy o bobl (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 4)

Cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru

- 5.23 Roedd cynllunio ar gyfer gweithredu'r Ddeddf yn gofyn i bobl ystyried polisiâu a deddfwriaethau eraill oedd ag egwyddorion tebyg: *Nid dim ond yn y Ddeddf a ddaeth i rym. Chi'n gwybod, Cymru Iachach, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, roedd llawer o ddeddfwriaeth yn bodoli ar y pryd oedd yn dueddol i ffocysu ar yr un math o egwyddorion (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 2)*
- 5.24 Roedd ffocws penodol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a diffyg cysylltedd (er gwaethaf egwyddorion tebyg) rhwng y ddau yn nodwedd fynych.

Mewn gwirionedd, mae themâu cyffredin iawn rhwng y ddau ond diffyg cysylltedd a dryswch i ryw raddau [...]. Roedd elfen o ddryswch rhwng y ddau ddarn o ddeddfwriaeth a gyhoeddwyd tua'r un pryd gyda gyrwyr eitha tebyg heb fod yn union yr un fath (Uwch Reolwr, ALL, Ardal 4)

Felly, er bod ganddon ni'r Ddeddf, cyhoeddwyd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol ychydig ar ôl hynny ac roedd rhai meysydd lle na theimlid bod llawer o gydgyssylltiad ag y gallai fod ac mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol yn enghraifft dda o hynny (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Cenedlaethol)

- 5.25 I rai, ystyriwyd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn alluogydd i weithio'n fwy creadigol ac i ystyried ymyriad cynnar a gwaith ataliol: *Rydw i'n siŵr bod Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn helpu hynny o ran cael sefydliadau eraill, adrannau eraill o fewn yr awdurdod lleol, i feddwl am bethau yn fwy o safbwynt model ataliol ac ymyriad cynnar (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)*

Crynodeb

- 5.26 Mae'r bennod hon wedi ystyried nodweddion (y mae cyfranogwyr wedi cyfeirio atyn nhw) o ran gweithredu'r Ddeddf.

- 5.27 Y negeseuon allweddol ydy:

- Mae'r Ddeddf wedi galluogi dulliau newydd o weithio (yn cynnwys newid arferion a datblygu a chyfnerthu partneriaethau).
- Roedd y gwaith rhagbaratoadol a'r cynllunio i fod yn barod i roi'r Ddeddf ar waith (e.e. ail-fodelu gwasanaeth, casglu gwybodaeth, hyfforddi gweithlu a sicrhau bod popeth yn cydymffurfio â'r Ddeddf) yn gyffredinol effeithiol.
- Cynigiwyd lluo o ddisgrifiadau o'r modd y mae'r Ddeddf wedi cynorthwyo newid. Er enghraifft, cyfeiriwyd at y ffaith bod y Ddeddf yn cynnig dilysiad a chyfiawnhad, fel catalydd i arwain a chyflenwi newid ac fel galluogydd.
- Mae gweithredu a newid i ddull newydd o weithio yn broses barhaus gan gydnabod mai taith ydy gweithrediad.
- Ystyriwyd bod enwi'r Ddeddf yn broblem, yn arwain at gamddealltwriaeth am ddyletswyddau a chyfrifoldebau sefydliadau eraill, yn enwedig iechyd,
- Mae diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r Ddeddf wedi creu sialensiau i'r dull ar sail asedau o fynd ati i weithio (e.e. defnyddiwr

gwasanaeth, rheoli disgwyliadau gofalwr, diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth
o'r hyn y mae'n ei olygu)

6. Canfyddiadau – Swyddogaethau Awdurdodau Lleol a Gwasanaethau Cymdeithasol

- 6.1 Mae'r bennod ganlynol yn ffocysu ar swyddogaethau awdurdod lleol a gwasanaethau cymdeithasol a gweithrediad y Ddeddf fel y'i trafodwyd gan gyfranogwyr gyda chymorth gan gyfres o is-themâu a ddeilliodd o ddadansoddiad.

Asesiadau

- 6.2 Roedd dull cyffredinol o fynd ati a ddisgrifiwyd gan nifer oedd yn ymgorffori'r pwyslais newydd ar asesu yn seiliedig ar gryfderau ac asedau o dan y Ddeddf i ddeall angen cymwys pobl am lesiant ac adfyfrio gonest bod pryderon (yn ddi-sail yn y pen draw) ar adeg gweithredu'r ddeddf y byddai hyn yn arwain at agor 'y llifddorau'.

...mae cynnal y sgysiau seiliedig ar gryfderau gyda nhw [dinasyddion] bron fel plannu hadau, dw i'n meddwl, a hynny'n caniatáu i'r unigolion hynny ystyried yr hyn a ddywedoch chi a beth ydy'r effaith arnyn nhw a hybu ymddiriedaeth a hyder Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)

Roedd pryder, dw i'n meddwl, fel sydd gyda phob agwedd o unrhyw newid, am 'beth mae'n mynd i olygu i mi?' Ydyn ni'n mynd i agor y llifddorau a llwythi o bethau yn dod i mewn drwy'r drws ffrynt oherwydd bydd pawb yn mynd i ofyn am asesiad ac mae rhaid iddyn nhw gael un [...] Nid dyna ddigwyddodd mewn realiti (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 4)

- 6.3 Nododd cyfranogwyr bwysigrwydd aelodau teulu a rhwydwaith o bobl o gwmpas yr unigolyn sy'n cael ei asesu a sicrhau bod ganddyn nhw ddigon o wybodaeth: *Rydych chi'n edrych ar gryfderau'r teulu, nid o anghenraid yr unigolion ond rydych chi'n edrych ar o ble gall y cymorth ddod (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)*

- 6.4 Gan ystyried popeth, barn cyfranogwyr oedd bod asesiadau o dan y Ddeddf yn gweithio'n dda:

Rydyn ni wedi gweld rhai o'n pecynnau a'n costau yn gostwng ac oherwydd y sgysiau seiliedig ar gryfderau y buon ni'n eu cynnal ac asesiadau seiliedig ar gryfderau, rydw i'n credu, o mhrofiad i, wedi bod yn wirioneddol llwyddiannus ac yn wir bwerus. (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Cenedlaethol)

Mae pethau Rhan 3 a Rhan 4 yn ymwneud ag asesu a chynllunio gofal sef hanfodion sylfaenol gwaith cymdeithasol yn ymddangos yn gweithio'n dda. Rydwi'n credu mai'r hyn rydwi'n ei weld nawr ydy'r syniadau hynny yn treiddio fwy i ochr y bwrdd iechyd (Rheolwr Gweithredol, Rhanbarthol, Ardal)

- 6.5 Fodd bynnag, cafwyd sylwadau am natur llafurus a hir y broses, yn enwedig yn ystod cyfnodau cynnar y gweithrediad:

Mae rhai o'n ffurflenni yn anferth. Rydyn ni wedi bod yn ymdrechu i'w lleihau a phan fyddwn ni'n ceisio gwneud hynny yr ymateb a gawn ydy 'wel, mae yn y Ddeddf, mae angen i chi ofyn y cwestiwn hwnnw oherwydd ei fod yn y Ddeddf'. Wrth i ni ddatblygu'n fwy hyderus gyda'r Ddeddf, y gobaith ydy y gallwn leihau ychydig ar y swmp (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)

Rydw i'n meddwl oherwydd y canlyniadau ar sail cryfderau a nawr y cyfathrebu cydweithredol, mae disgwyl i chi gynnal mwy o sgysiau gyda phobl. Mae hynny'n cymryd mwy o amser i fod yn onest, a gyda'r pwysau cyfredol ar y tîm, dydw i ddim yn credu bod ganddon ni'r amser i wneud hynny (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)

- 6.6 Teimlai eraill nad oedd y newidiadau wedi cyflawni llawer, mai cyfyng oedd eu heffaith ar arferion ac ar y rhai sy'n cael eu hasesu, a weithiau gallai olygu dibyniaeth yr oedd y dull newydd o fynd ati yn ceisio'i osgoi:

.... mewn gwirionedd, y diwrnod cyn i'r Ddeddf ddod i rym a'r diwrnod canlynol, wnes i ddim, doeddwn i ddim yn delio â phobl yn wahanol o gwbl . [...]. dw i'n meddwl os ydych chi'n dweud yn bendant 'rydyn ni'n gweithio i fodel yn seiliedig ar gryfder', dylech wneud hynny yn naturiol. Mae fy ngwaith i yn bersonol yn seiliedig ar gryfder beth bynnag, felly doedd e ddim yn chwyldroadol (Gweithiwr Rheng Flaen, ALI, Ardal 4)

Roedden i'n meddwl, 'mae hyn yn mynd fod yn ardderchog, mae ganddon ni ein cydlynwyr cymunedol newydd, mae ganddon ni ddull newydd o fynd ati, gadewch i ni dargedu'r grŵp o bobl a mynd i gynnal gwahanol fath o sgwrs gyda nhw a chynnig cyfleoedd iddyn nhw ar gyfer cysylltiad a chyfraniad'. Yr hyn a ddysgon ni o hynny ydy y funud yr ydych yn creu dibyniaeth, mae'r unigolyn hwnnw yn eich system (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 3)

- 6.7 Roedd sôn nad oedd gofalwyr yn cyrchu asesiadau gofalwyr ac mae'r gwasanaethau ataliol neu'r dulliau o fynd ati sydd ar gael iddyn nhw yn 'dameidiog ac yn dibynnu ar gyllid byr dymor': [] *Does dim llawer o ofalwyr yn cyrchu gwybodaeth, cyngor neu gymorth a dydyn nhw ddim yn cael eu hasesu, felly mae cyfle yn cael ei gollu i gyflawni uchelgeisiau ataliad ac ymyriadau cynnar y Ddeddf. Ceir ychydig o dystiolaeth o'r wybodaeth a gawson ni gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol bod ymdrechion i gynnal gweithgareddau ar gyfer gofalwyr i gynorthwyo ataliad ac ymyriad cynnar. Fodd bynnag, mae'r rhain yn dameidiog ac yn dibynnu ar gyllid byr-dymor (Ymateb Arolwg Gweithlu)*
- 6.8 Er mwyn gwella arferion, roedd teimlad bod angen dull cyffredin o fynd ati i asesu, bod gweithlu rheng flaen yn gallu gwneud cyfraniad pwysig i'r broses asesu modelau a'i bod yn hanfodol i ystyried y math hwn o asesiad ochr yn ochr â modelau eraill sy'n seiliedig ar gryfder sy'n ategu'r Ddeddf:
- Pan fyddwn ni'n ystyried ein cynllun gofal a'n cymorth, ar 'yr hyn sy'n bwysig' a'r set data greiddiol, y tri maes allweddol, yr hyn rydyn ni'n dymuno ei wneud ydy cael y tair ffurf hynny neu'r tair tasg ar un system o dan un atgyfeiriad (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 1)*
- Rydyn ni'n ysgrifennu proffiliau bob dydd sy'n cael eu cofnodi yn ddyddiol sef yr hyn mae unigolyn wedi'i wneud lawr i'r pethau lleiaf, fel y gallan nhw [gweithwyr cymdeithasol] gael syniad (Gweithiwr Rheng Flaen, ALI, Ardal 2)*
- Yr hyn oedd y digwydd yn flaenorol os oeddech yn gweithio gyda theulu lle roedd risgiau, gallech fod yn ystyried diogelu plentyn, mynd i'r llys, Amlinelliad o'r Ddeddf Gyhoeddus a rhai o'r pethau. Byddai gweithwyr cymdeithasol ychydig yn ofnus o weithio gyda'r teuluoedd hynny os oedd risg yn gweithio gyda phlant gartref, tra [nawr] fy ngwaith ydy diogelu'r teulu er mwyn i ni allu rheoli'r risg hwnnw yn eu cartref (Gweithiwr Rheng Flaen, ALI, Ardal 4)*
- 6.9 Wrth ystyried natur asesiadau yn seiliedig ar gryfderau, soniodd ymatebwyr yn helaeth am y modd y mae'r dull hwn o fynd ati yn darparu ar gyfer ymarfer sy'n fwy person-ganolog:

Dw i'n meddwl bod y newid yn y Ddeddf wedi gwneud i ni roi'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw ar ben y rhestr yn hytrach nag yn is i lawr (Uwch Reolwr, Bwrdd Iechyd, Ardal 3)

[Cyn y Ddeddf] dim ond yr hyn oedd wedi'i ysgrifennu yn eu cynllun gofal roedden ni'n gallu ei wneud. Doedden ni ddim yn gallu mynd a chael trafodaeth gyda'r unigolyn a dweud, 'Sut ydych chi am i mi ei wneud?' Yn llythrennol 'rydych yn mynd i mewn am 30 munud i roi cawod i Mrs Jones a dyna'i gyd' (Rheolwr Gweithredol, Sefydliad sy'n Darparu, Ardal 2)

Risg a sgysiau anodd

- 6.10 Ystyriodd cyfranogwyr ddull newydd o fynd ati i ddelo â risg wrth drafod prosesau asesu; roedd y Ddeddf wedi hwyluso dull o ddelio â risg sy'n llai gelyniaethus yn eu gwaith: *Byddwn i'n dweud rydyn ni, fel awdurdod yn sicr yn delio â risg yn fwy synhwyrol, yn hytrach na bod yn elyniaethus iddo ac mae ein trothwyon wedi newid (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)*
- 6.11 O feddwl am natur risg mewn asesu, amlygwyd gwahaniaethau yn hinsawdd gwahanol weithluoedd, yn enwedig rhwng cydweithwyr gwasanaeth cymdeithasol a maes iechyd: *[] Rydyn ni ym maes iechyd, weithiau yn hoffi gor-amddiffyn ac yn eitha gelyniaethus tuag at risg. Dw i'n meddwl bod y Ddeddf efallai'n eich gwthio i fod yn llai gelyniaethus tuag at risg er mwyn galluogi pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunan a dw i'n credu bod 'na waith i'w wneud i'n gwneud ni'n llai gelyniaethus tuag at risg (Rheolwr Gweithredol, Bwrdd Iechyd, Ardal 1)*
- 6.12 Awgrymwyd bod y Ddeddf ar ei gorau wrth hwyluso mwy o hyder i reoli risg ac ar yr un pryd sicrhau rheolaeth a goruchwyliaeth dda: *Dw i'n credu mai'r hyn sydd o gymorth nawr ydy gweld eu canlyniadau personol yn cael eu cyflawni a gweld canlyniadau positif ar gyfer plant a'ch bod wedi llwyddo i'w cadw nhw yn eu cartrefi gyda'u teuluoedd ac mae hynny yn rhoi'r hyder i chi wedyn i reoli'r risg (Gweithiwr Rheng Flaen, ALI, Ardal 4)*
- 6.13 Fodd bynnag, nodwyd cyfres o wrthdrawiadau a heriau cynhenid yn y broses asesu. Yn bennaf roedd hyn yn ymwneud â thensiynau o gwmpas y modd y gweithredir llais a rheolaeth, o gofio bod y system, yn llawer rhy aml, yn gweithio yn erbyn yr

hyn sy'n bwysig i bobl a hynny yn ei dro yn arwain at wrthdaro gyda theuluoedd ac at gyfres o sgysiau heriol lle byddai angen i ddisgwyliadau gael eu rheoli.

Mae sgwrs wirioneddol dda ar sail gwerth ac asedau weithiau yn gofyn am sgysiau anodd. Rydyn ni wedi cynnal y sgwrs honno am deuluoedd sydd ddim am beth o'r dull hwn o fynd ati (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)

Rydyn ni'n dal i dderbyn ambell gynllun gofal a chymorth neu atgyfeiriadau lle mae gweithwyr cymdeithasol yn dweud wrth yr unigolyn, 'gallwch gael un wyth o'r gloch', ac eto maen hynny'n afrealistig. Dydyn ni ddim yn gallu addo'r alwad benodol honno i rywun oherwydd bod rhaid i ni ystyried yr holl fwrdeistref ac nid pawb all dderbyn yr alwad honno am wyth o'r gloch (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)

- 6.14 Arweiniodd hyn at ystyried y datgysylltiad rhwng rhethreg ddeddfwriaethol a realiti gweithredol, yn enwedig yn wyneb y tensiynau rhwng hyblygrwydd a dehongliad lleol a rheolaeth ganoliedig: *Dylen ni fod yn gwneud penderfyniadau am bobl yn eu cartrefi eu hunain. Yn anffodus, yn rhy aml ac yn dal yn wir, gwneir penderfyniadau am ddyfodol pobl mewn ysbytai ac mewn gwirionedd, dydy hynny ddim yn beth da ac mae'n groes i'r hyn y dylai'r Ddeddf fod yn ei gyflawni. A dweud y gwir, mae'n anodd cynnal sgwrs, yn seiliedig ar werth ac asedau, mewn ward gyda chwe unigolyn arall yn eistedd o'ch cwmpas (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)*
- 6.15 Cafwyd sylwadau hefyd ar ddiffyg cludadwyedd mewn asesiadau: *Bydd gan bob awdurdod wahanol waith papur a dydy ffurflenni'r system ei hun ddim yn rhai safonedig, bydd y wybodaeth ynddyn nhw yn eistedd rhywle, heb fod yn gyffredin i bawb, felly rydyn ni'n gorfod dyblygu ffurflenni. Yn hytrach na dyblygu, bydd pobl yn ail-ofyn i chi yn hytrach na mynd i wneud hynny, oherwydd ei fod yn gyflymach ac yn haws. Byddai'n fwy naturiol i mi ddweud, dyna beth wnawn ni, felly, heblaw eich bod yn dweud 'dyma gynllun ffurflenni, dyma sut byddwn ni'n ei gyfleu' a beth fydd y system fel y gallwn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol mewn man cyffredin i bawb er mwyn i holl hanes y teulu fod mewn un man (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 4)*

Sgyrsiau am 'yr hyn sy'n bwysig'

- 6.16 Ystyriai cyfranogwyr bod rhan newydd o'r broses asesu – y cyfeirir yn aml ati fel sgyrsiau am 'yr hyn sy'n bwysig', yn gyffredinol bositif, fel dychwelyd i arferion da a modd o newid y 'stori' i ffocysu ar ganlyniadau:

Rydyn ni'n ffocysu mwy wrth ofyn 'beth mae'r unigolyn hwn eisiau' a 'beth sy'n bwysig i'r unigolyn hwn' (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 1)

Mae sgwrs ar 'yr hyn sy'n bwysig' yn ystyried hierarchaeth cymorth, a thrwy hynny yn sicrhau eich bod yn dod i wybod beth ydy cryfderau unigolyn cyn symud i fod angen cymorth gwasanaethau cymdeithasol [...] Cafodd sgyrsiau ar 'yr hyn sy'n bwysig' effaith enfawr oherwydd bod pobl yn cael sgyrsiau gwahanol nawr (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 3)

- 6.17 Er mwyn cynnal sgyrsiau fel hyn yn 'briodol', sylweddolwyd yn gyffredinol eu bod yn cymryd amser i'w cwblhau: *Un cwestiwn y byddwn ni'n ei ofyn ydy, 'Beth mae bywyd da yn ei olygu i chi?', a dw i ddim yn meddwl na ofynnwyd y cwestiwn hwnnw i lawer o bobl [...] fel arfer fyddai gwasanaethau ddim yn mynd i mewn a gofyn y math hwnnw o gwestiwn, fel dwedes, bydden nhw'n mynd i mewn a gofyn, 'Beth sy'n bod arnoch chi?' A 'oes gwasanaeth gyda ni lle mae cyllid ar ei gyfer, ac a ydych chi'n gymwys yn ôl y meini prawf?' Ein cwestiwn ydy, 'Beth sy'n gwneud bywyd da a sut gallwn ni eich helpu i gyflawni hynny' (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)*

- 6.18 Yn ogystal, awgrymwyd er mwyn iddyn nhw fod yn effeithiol, mae angen ymglymu unigolion yn y rhwydwaith cymorth cyfan, gan gynnwys sefydliadau sy'n darparu cymorth ar gyfer yr unigolyn dan sylw. *Mae'r 'hyn sy'n bwysig [] hefyd yn ymwneud â'r modd a pha lefel o bwysoli a roddir ar wahanol bethau a helpu pobl i ddeall y pwysoliad hwnnw. Felly nôl â ni eto i ystyried ein gwasanaethau statudol, wel efallai bod 'yr hyn sy'n bwysig' i chi yn un peth penodol iawn ac mae rhaid ni rhoi'r sylw a'r pwysoliad teg a dyladwy i hynny, a chael ymarferwyr i wir ddeall bod hynny yn bwysig (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 4)*

- 6.19 Ystyriwyd bod gweithio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn heriol o gofio bod y pwysau yn y system yn rhwystro'r unigolyn rhag cael sgyrsiau ystyrllon am 'yr hyn sy'n bwysig' mewn cyd-destunau arbennig: *Bydd gan ein partneriaid ym maes gofal*

aciwt daith hir o'u blaen o ran cynnal sgysiau am 'yr hyn sy'n bwysig' a darganfod cryfderau'r unigolyn. Mae holl broblemau y pwysau sydd arnyn nhw - mae'n ymwneud â'r hyn sy'n bwysig i'r system yn hytrach na'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn (Gweithiwr Rheng Flaen, ALI, Ardal 2)

- 6.20 O ddatblygu hyn, cafwyd enghreifftiau o ble roedd sgysiau am 'yr hyn sy'n bwysig' wedi croesi hinsawdd gweithluoedd yn effeithiol a lle nad oedden nhw wedi gwneud hynny:

[] Mae meddygon, yn enwedig meddygon ifanc yn dilyn mwy ar fodel cymdeithasol gofal. Ron i wir yn meddwl bod ieithwedd y modd hynny o weithio yn treiddio drwyddo (Rheolwr Gweithredol, Rhanbarthol, Ardal 3)

Roedd ganddon ni ar y cychwyn cyntaf broses i sicrhau bod sgysiau am 'yr hyn sy'n bwysig' ym maes iechyd ac yn eu gwaith papur [...] Yr hyn rydyn ni'n ei weld hyd yn oed nawr ydy nad ydy unigolion sy'n mynd i mewn i'r ysbyty neu'n cael eu gweld gan weithwyr iechyd proffesiynol yn cael sgysiau ystyrlon iawn am 'yr hyn sy'n bwysig' (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 1)

Cynlluniau gofal a chymorth, ac adolygiadau o achosion

- 6.21 Yn dilyn asesiad a sgwrs am 'yr hyn sy'n bwysig', ystyriwyd bod datblygu a llunio cynllun gofal a chymorth wedi'i ganoli ar yr unigolyn o dan y Ddeddf yn allweddol i gynorthwyo newid yn yr hinsawdd: *Rydyn ni'n gweld mwy o gynlluniau sy'n ffocysu mwy ar ganlyniadau ac ar yr unigolyn ond mae angen gwneud rhagor o welliannau o hyd [...] Mae gynnoch chi gynrychiolaeth o dimau rhwydwaith gwaith cymdeithasol, mae gynnoch chi gynrychiolaeth o'r tîm comisiynu ac mae gynnoch chi gynrychiolwyr eraill sy'n ffocysu ar newid yr hinsawdd o safbwynt broffesiynol a hefyd o safbwynt strategol (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)*
- 6.22 Fodd bynnag, ymhlith y problemau a gafwyd wrth lunio cynlluniau gofal a chymorth, roedd gwybodaeth ar goll, diffyg safoni, a weithiau synnwyr cyffredinol o ddiffyg ansawdd yn y ddogfennaeth: *Fy safbwynt i ydy nad ydy ansawdd cynlluniau gofal a chymorth yn ddigon da beth bynnag. Dw i'n credu bod sail sylfaenol nad oes gan gynlluniau gofal a chymorth y dilysrwydd angenrheidiol (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 4)*

- 6.23 Ystyriwyd bod cynlluniau gofal a chymorth yn ffynhonnell o dystiolaeth o weithgaredd, yn enwedig ar gyfer teulu a ffrindiau:

Mae gynnoch chi'ch cofnodion o'ch blaen, rydych chi'n edrych yn ôl a dweud 'ie, mae hynny'n bwysig 100% ' ac nid yn unig i ni ferched, ond os daw aelod o'r teulu i mewn a gofyn 'wel, pryd gafodd fy mam fath?' 'pryd eilliodd fy nhad neu pryd golchwyd ei draed?' Gallwn bob amser ddangos tystiolaeth yn ein dogfennau (Gweithiwr Rheng, ALI, Ardal 2)

- 6.24 Wrth gynnal adolygiadau, un o'r egwyddorion allweddol oedd yr awydd i sicrhau bod yr holl leisiau yn cael eu clywed yn ystod y broses. Nododd ymatebwr y sialensiau pan fydd adolygwyr wedi newid eu safbwynt o ran lleihau pecynnau gofal a chymorth a gwneud llai dros bobl:

Rydyn ni'n sicrhau bod barn pawb yn cael ei chlywed ac rydyn ni'n gwneud ein gorau glas i geisio helpu'r unigolyn hwnnw i ddatrys yr heriau hynny. [...]. Yna, drwy'r broses adolygu rydyn ni'n sicrhau bod y darparwr yn rhan o'r broses adolygu honno, felly mae pawb yn cael lleisio'u barn ar sut maen nhw'n meddwl bod y pecyn yn gweithio, ac yn amlwg, rhoi'r unigolyn ynghanol hynny (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)

Dydy hi ddim wedi bod yn hawdd, mynd allan at rywun sydd wedi derbyn pecyn cymorth ers blynyddoedd ac yn sydyn mae rhywun wrth y drws yn dweud 'Reit, Mrs Jones, gadewch i weld beth allwch chi ei wneud drosoch chi eich hun' a 'sut ma pethau wedi bod?' Wel, efallai y dull o fynd ati fyddai gofyn 'Mrs Jones, ydych chi'n hapus gyda phethau, ydych chi'n hoffi'r gofalwyr?', mae'r ffocws yn wahanol iawn, mae'r sgyrsiau yn wahanol iawn (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)

Cyrchu gwasanaethau ataliol

- 6.25 Nodwyd llu o sialensiau i gynnig gwasanaethau a mentrau ataliol; gallai meini prawf ar gyfer cyrchu gwasanaethau statudol lesteirio ymyriad cynnar, diffyg cyllid uniongyrchol ar gyfer ymyriad, rhwystrau rhag ymglymiad y trydydd sector, ymwybyddiaeth y cyhoedd a'r gymuned o wasanaethau ataliol a sut i fanteisio arnyn nhw, a datblygiad gwasanaethau ataliol sy'n ymateb i faterion strwythurol cymhleth y mae cymunedau yn eu hwynebu.

- 6.26 Mae angen i bobl fod yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael i gynorthwyo ataliad a'r gallu i gyrchu gwasanaethau neu fentrau ar yr adeg briodol ar gyfer ymyriad cynnar, nid yn unig pan fydd argyfwng: [] *Mae'n hanfodol sicrhau'r adnoddau priodol a sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r hyn y mae ganddyn hawl iddo. Yn anffodus, oherwydd y galwadau ar wasanaethau lleol, gallai fod oedi yn eu weithredu nes iddyn fod mewn sefyllfaoedd o argyfwng (Ymateb Arolwg Gweithle)*
- 6.27 Roedd rhai o'r farn bod gogwydd gwasanaethau statudol yn 'adweithiol' a 'phan fetho popeth arall' ac nid tuag at ymyriad cynnar. Ail-adroddwyd thema'r angen am system iechyd a gofal cymdeithasol integredig drwy ymatebion cyfweiliadau: *Mae mwyafrif y cleientiaid yn dweud bod gwasanaethau statudol yn dal yn adweithiol a gwneir defnydd o wasanaethau statudol pan fetho popeth arall, ni ystyrir eu bod yn gallu cynnig ataliad nac ymyriad cynnar gan fod y trothwy ar gyfer cymorth yn rhy uchel. h.y. mae'r angen yn isel nawr, felly mae rhaid i'r cleient aros nes bod anghenion yn uwch neu mewn argyfwng cyn gallu cyrchu cymorth uniongyrchol. [..]. Dydy hi ddim yn amlwg bod Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gydnaws â'i gilydd ac yn ddi-dor (Ymateb Arolwg Gweithlu)*
- Cydgysylltu'r Ardal*
- 6.28 Mae Cydgysylltu'r Ardal (LAC) yn fodel o ddatblygiad cymunedol ataliol a fabwysiadwyd mewn nifer o ardaloedd. Mae LAC yn delio â gwaith ochr yn ochr â phrosesau'r trydydd sector a'r gymuned i wella a chadw sgiliau a gweithio i newid pethau yn yr hirdymor. Ar yr ochr bositif, roedd cymorth gwleidyddol ar gyfer y model LAC o fewn rhai o'r Awdurdodau Lleol: [] *Sylweddolwyd bod rhaid i ni wneud rhywbeth sy'n ataliol a bod angen i ni newid yr hyn rydyn ni'n ei wneud. Dw i'n deall bod rhai o staff gwasanaethau cymdeithasol wedi bod mewn cynhadledd lle roedd cydgysylltiad lleol yn cael ei drafod a'r hyn a ddaeth allan oedd, 'Dyma rywbeth y gallwn drio'. Felly, ymchwiliwyd hyn a'i dderbyn yn y pen draw. Dydw i ddim yn gwybod ai o ganlyniadau i'r Ddeddf yn benodol oedd e, ond dw i'n meddwl yn sicr bod gan y Ddeddf rywbeth i'w wneud ag e (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 4)*
- Ailalluogi*
- 6.29 Dull arall cyffredin o fynd ati yng ngwaith ataliol ydy gwahanol ffurfiau o ailalluogi a gwasanaethau byr dymor. Fodd bynnag, nodwyd bod bylchau yn y sector gofal yn broblem i fodel ail alluogi'n ymarferol: *Mae ein staff gofal cartref sef ein gweithwyr*

ailalluogi yn cwrdd â'r therapyddion yn wythnosol ac yn cynnal trafodaethau am y targedau i'r unigolyn hwn, sut ydyn ni'n symud ymlaen? Felly, dydyn ni ddim yn cadw pobl ar ein llyfrau, rydyn ni'n symud pobl cystal ag y medrwn. Mae ychydig o broblem gyda symud pobl ymlaen oherwydd y sector gofal, mae'r modd y gallwch symud pobl ymlaen os nad oes gennych sector gofal cadarn yn broblem (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 3)

6.30 Yn ymarferol, gall lluo o weithwyr proffesiynol o fewn y sefydliadau hwyluso ailalluogi:

Mae'n ymwneud â phwy orau all gynorthwyo hynny o fewn ein timau. Pwy sydd yn gwneud y gwaith ymarferol, pwy ydy'r un sy'n ymwneud ag ailalluogi cam i fyny neu gam i lawr? Wel, cynorthwywyr gofal sy'n gwneud y gwaith ymarferol sy'n gweithio gyda Mrs Jones bob dydd i gyflawni ei chanlyniadau. Nhw, a'r staff o'u cwmpas a'u cymheiriaid fydd ar waith, ac felly mae'n ymwneud â'r modd yr ydyn ni'n gwneud hynny drwy'r system. Mae bron ar bob lefel, ar lefel cynorthwyo Mrs Jones ac yna'r lefel pwy sy'n goruchwylio a chwblhau'r asesiad fel bod pawb yn deall beth ydy'r canlyniad y mae Mrs Jones am ei gyflawni (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)

Canlyniadau

6.31 Y sialens i'r gweithlu oedd bod y canlyniadau yn oddrychol ac yn ddadleuol, heb fod yn sefydlog neu wedi'u safoni o ran y modd y maen nhw'n cael eu hasesu neu'n cael eu casglu. Mae her mewn arddangos effaith canlyniadau fel mae'r cysyniad wedi bod yn iteru ac esblygu ers iddo gael ei gyflwyno.

6.32 Yr hyn oedd yn allweddol i waith sy'n ffocysu ar ganlyniadau oedd barn ymarferwyr oedd yn her o ran cysylltu canlyniadau i angen cymwys: [] *Mae rhaid i staff gynnal sgyrsiau anghyfforddus a dw i'n meddwl er mwyn i staff allu gwneud hynny'n dda, mae angen cymorth da arnyn nhw, mae angen iddyn nhw fod yn hyderus yn eu gallu ac yn glir am y disgwyliadau arnyn nhw. (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)*

6.33 Roedd teimlad cyffredinol bod symud at ganlyniadau yn 'waith ar y gweill' gyda phryderon yn cael eu mynegi am y pwysau ar amser a chapasiti y mae'r dull hwn o weithio yn ei olygu, y tensiwn rhwng mesur canlyniadau personol a rhagweld tueddiadau'r boblogaeth, a'r angen i ymglymu pob darparwr.

Daeth y sialens go wir wrth geisio datblygu canlyniadau personol yn rhyw fath o fesur cenedlaethol. Dwi'n credu y bu'n wir her a brwydr ac yn broblem dw i ddim yn meddwl ein bod wedi ei datrys (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Cenedlaethol)

Comisiynu

- 6.34 O ran comisiynu, amlygwyd perthynas gref partneriaethau rhwng gwahanol gomisiynwyr a yrrir yn rhannol gan rwydweithiau sydd eisoes yn bodoli er mwyn i ddarparwyr ysbrydoli'r broses:

Roedd [ymgysylltu a chydgynhyrchu] gyda'n darparwyr gwasanaeth yn gwbl hanfodol o ran datblygu dull ar y cyd. Mae'n ddigon hawdd i gomisiynwyr feddwl am rywbeth ond os na all darparwyr ei gyflawni maen nhw'n gwastraffu eu hamser (Rheolwr Gweithredol, Rhanbarthol, Ardal 3)

[] Yn ddyddiol rydyn ni'n cael lawer o alwadau gan ein darparwyr yn dweud 'Rydyn ni ychydig yn bryderus am Mrs Jones, ac fe awn i weld sut allwn ni helpu'. O gofio nad ydy'r llais, y dewis a'r rheolaeth hwnnw ddim gennym ni'n unig, ond hefyd gyda'n darparwyr, mae'n golygu cadw'r cylch cyfathrebu hwnnw i fynd (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)

- 6.35 Gyrrir y comisiynwyr sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda'i gilydd gan y gweithio rhanbarthol ac arferion rhanbarthol a chomisiynu cenedlaethol: *Dwedon nhw ei fod yn un o'u camau gweithredol allweddol i'w ddatblygu fel bwrdd a phopeth roedd angen arny'n nhw fel Uned Gomisiynu Ranbarthol. Felly, yn amlwg rydyn ni'n sefydlu pethau o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth a sefydlodd y Bwrdd yn y lle cyntaf yn 2014 ac fel rhan o gynllun ardal a ddatblygon nhw ar ôl cynnal eu Hasesiad o Anghenion y boblogaeth er mwyn symud peth o hyn yn ei flaen. Roedden nhw'n chwilio am gapasiti i gomisiynu (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 2)*

- 6.36 Nodwyd cyfres o bethau cadarnhaol am gyd-gomisiynu: *Cynigion nhw hyn [gwasanaethau eiriolaeth a ail-gomisiynwyd] fel cyd-contract sy'n rhyfeddol achos dydy awdurdodau lleol byth yn gweithio gyda'i gilydd [...] un o'r pethau a wnaethon ni gynnwys yn y cynnig hwnnw oedd y bydden ni, yn ystod y 3 mis cyntaf, yn mynd o gwmpas i hyfforddi'r holl dimau ar yr hyn ydy eiriolaeth a'r hyn roedd yn ei olygu o dan y Ddeddf ac ati. (Rheolwr Gweithredol, Sefydliad sy'n Darparu, Ardal 1)*

- 6.37 Hefyd, roedd cysylltiad eglur rhwng gwaith y canolfannau comisiynu a dolenni cyswllt â chyflenwi gwasanaeth a chyllid: [] *Yr hyn sy'n digwydd ar ein lefel rheoli ni ydy ein bod yn eistedd i mewn gyda'r ganolfan gomisiynu, gyda'r bobl sy'n gwneud y comisiynu, fel y gallwn ni sicrhau ei fod yn dal yn gysylltiedig â'n darpariaeth weithredol a sut mae rhai o'r partneriaethau hyn yn gweithio (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)*
- 6.38 Ar yr ochr bositif, roedd teimlad bod arferion wedi datblygu i'r graddau bod comisiynu ar gyfer egwyddorion a chanlyniadau'r Ddeddf wedi'i wireddu. Fodd bynnag, teimlad y mwyafrif o gyfranogwyr oedd bod y broses hon o gomisiynu ar gyfer y Ddeddf yn 'waith ar y gweill': *Rydyn ni'n symud tuag benderfynu mai sail i ganlyniadau ar gyfer unigolion fyddai comisiynu gwasanaethau. Mae hyn i gyd yn cymryd amser. Dw i'n meddwl bod ychydig o dystiolaeth o wahaniaethau ar gyfer unigolion ond pe tasen ni'n gallu cael tystiolaeth bod gwahaniaeth ar raddfa eang drwy'r rhanbarth i fywydau unigolion, mae'n ddyddiau cynnar o hyd i allu tystio i hyn ar y foment (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 1)*
- 6.39 Yn olaf, awgrymwyd bod comisiynu, seiliedig ar berthynas a lle, yn un o'r dulliau allweddol o wneud ymarfer yn gydnaws ag egwyddorion y Ddeddf:
- Felly ein blaenoriaethau nesaf ydy gweithio ar gynlluniau cyfan. Chi'n gwybod, symud i ddull o weithio yn seiliedig ar berthynas yn hytrach na dull rhyngweithredol o weithio [...]. Felly byddwn yn comisiynu mewn dull person ganolog, felly pysgod a sglodion i Mr Jones ar Ddydd Gwener, mynd â Mrs Jones i'r llyfrgell, mynd i wylïo rygbi gyda Mr. hwn a'r llall. Bydd eu cynlluniau gofal a chymorth yn ffocysu mwy ar lesiant felly dyna'r peth mawr y byddwn ni'n ei wneud dros y flwyddyn nesaf (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 3)*
- 6.40 Ond nodwyd cyfres o wendidau gan gyfranogwyr am yr arfer o gomisiynu. Nodwyd dau rwystr, sef diffyg eglurder wrth gomisiynu cynnig y gwasanaeth a diffyg capasiti cyffredinol o ran comisiynu swyddogion.
- Ond dydy'r Ddeddf ddim yn sôn llawer am gomisiynu, nag yw, nac am yr ystod o wasanaethau na'r hyn ddylen ni fod yn ei ddarparu yn benodol. Mae hynny'n agor y ffordd i'r modd yr ydyn ni'n creu'r cynnig. Dydw i ddim yn*

meddwl ei fod yn ddefnyddiol o ran y modd yr ydyn ni'n rheoli'r galw, sut i ddod yn gynaliadwy? (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 4)

- 6.41 Ond yn fwy penodol, y brif broblem gyda chomisiynu a nodwyd yn ystod gweithredu'r Ddeddf oedd diffyg cydlynid rhwng awdurdodau yn arwain at dulliau penodol a gwahanol o wneud pethau, a beirniadwyd diffyg effaith y dulliau rhanbarthol o fynd ati, yn croesddweud pwyntiau a wnaed mewn mannau eraill: *Mae gennym ni 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ac i fod yn onest maen nhw'n gallu gwneud beth a fynnon nhw o ran comisiynu. Mae'n teimlo fel tasen ni mewn rhyw fath o gystadleuaeth. Dw i byth yn gwybod beth ydy'r wobr gyntaf a sut ydych chi'n profi eich bod wedi ei hennill. Mae reswm bob amser pam mae'n wahanol 'yma' (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Cenedlaethol)*
- 6.42 Tri mater pellach; amlygwyd gan gyfranogwyr, sef colli llais unigolion yn y broses gomisiynu, bod yn agored a thryloyw yn yr ymarfer comisiynu, a'r angen am ddull mwy person canolog o fynd ati i gomisiynu.

Diogelu

- 6.43 O ran diogelu, ystyriwyd bod y Ddeddf wedi cyflwyno newidiadau defnyddiol mewn ieithwedd: *Dw i'n credu bod y cysyniad o oedolyn mewn perygl yn hytrach nag oedolyn agored i niwed fel roedd ganddon ni yn flaenorol yn ddefnyddiol, oherwydd ei bod yn gwneud i bobl feddwl mewn ffordd wahanol ac efallai'n fwy cydnaws â'r ymarfer. Rydwi'n meddwl o fewn gwasanaethau plant a theuluoedd, dw i'n bersonol yn meddwl i hynny fod yn ddefnyddiol iawn (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 1)*
- 6.44 Mae'r trefniadau gweithio'n amlasiantaethol a sefydlwyd ers gweithredu'r Ddeddf wedi lliniaru'r risgiau cynhenid yn yr atgyfeiriadau diogelu.

Mae'n ddull o fynd ati sy'n cynnwys y teulu, felly MASH ydy [multi-agency safeguarding hub] gyda swyddogion diogelu oedolion a phlant, y swyddogion perthnasol hynny a all ddelio gydag amrediad eang o faterion, wyddoch chi, cam-drin sylweddau, tai, presenoldeb cryf yr heddlu, swyddogion addysg, swyddogion iechyd. Felly, ethos gwaith aml-asiantaethol y Ddeddf yn ceisio sicrhau bod y gwasanaethau priodol yn cael eu cynnig. (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)

6.45 Daeth Gweithdrefnau Diogelu newydd Cymru i rym ym mis Tachwedd 2019. Nododd ymatebwyr eu bod yn darparu sialensiau positif i ddulliau sefydledig o weithio ac eglurder a dilynant. Ystyrir bod y rhain yn dal yn 'waith ar y gweill': *Dw i'n meddwl bod cryn ffordd i fynd o fewn ymarfer diogelu i sicrhau bod nodau'r Ddeddf o ran diogelu yn cael eu cyflawni. Yn sicr dylai gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan fod wedi bod yn nes o bosibl at gyfnod lansio'r Ddeddf [...] Nhw ydy'r lifer oherwydd dwi'n credu bod sefydliadau sydd hyd yn oed wedi darllen Rhan 7 o'r Ddeddf yn dal i lynu at Weithdrefnau Plant Cymru Gyfan 2008 a Gweithdrefn Cymru Gyfan 2013. Nawr eu bod nhw'n weithredol, bydd rhai o'r materion hyn yn dod yn fwy amlwg mewn ymarfer, felly byddwn, o bosibl mewn sefyllfa wahanol dros y blynyddoedd nesaf (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 1)*

6.46 Wrth sôn am ymarfer diogelu yn fwy cyffredinol, awgrymwyd, er gwaethaf y manteision a nodwyd, bod lle i wella wrth weithio'n aml-asiantaethol, yn enwedig mewn meysydd newydd o dan y Ddeddf, megis carchardai.

Dw i'n meddwl ei fod yn dal yn waith ar y gweill [...]. Mae hynny yr un mor berthnasol i garchardai oherwydd, mae'n amlwg, er bod gan garchardai gyfrifoldeb eu hunain i ddiogelu carcharorion, rydyn ni'n derbyn rhai atgyfeiriadau o garchar, yn bennaf oherwydd sefyllfaoedd nad ydyn nhw wedi delio â nhw o'r blaen, er enghraifft, carcharorion gyda dementia (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 2)

6.1 Ym marn cyfranogwyr, roedd gwaith Byrddau Diogelu Cenedlaethol a Rhanbarthol yn gadarnhaol, gyda'r cafeat bod rhaid i'r byrddau hyn ddatblygu eu rôl o ran gweithredu'r Gweithdrefnau newydd: *Gwelwyd meysydd o ran sefydlu gwahanol drefniadau i atgyfnerthu partneriaethau yn enwedig yn y bwrdd. Dyletswydd o fewn y Bwrdd i fod yn ddidwyll o ran asiantaethau yn rhannu gwybodaeth neu dynnu sylw at asiantaeth arbennig sy'n cael problemau o fewn y Bwrdd, er mwyn cael trafodaeth agored a gonest (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 1)*

6.2 Nododd ymatebwyr bod gwaith i'w wneud o hyd, gan fynegi pryderon am y capasiti sy'n bodoli i ddiwallu eu cyfrifoldebau o ran diogelu.

Mae llawer o'r gwaith ym maes diogelu oedolion wedi newid a bydd yn ddiddorol dros y 12 i'r 18 mis nesaf i weld sut bydd pethau'n trawsnewid ac

os bydd pethau'n trawsnewid, gan y gall diogelu oedolion fod yn set o amgylchiadau llawer cliriach nawr nag oedd o'r blaen (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 4)

Eiriolaeth

- 6.3 Cafwyd sylwadau yn beirniadu'r modd y mae eiriolaeth yn gweithio, ar gyfer pwy ac i ba berwyl a'r angen i ddangos diben a gwerth eiriolaeth. Nodwyd y gwahaniaethau wrth weithredu eiriolaeth ar draws Cymru, yn ogystal â bod y cyflenwi'n 'dameidiog':

Dw i'n meddwl bod amgen ystyried yn fwy critigol lle mae eiriolaeth yn ffitio i mewn i Ddeddf Llesiant [...]. Mae wir angen eiriolaeth, eiriolaeth ydy'r peth gorau yn y byd ac mae pobl yn sefyll i fyny a dweud hyn a dwi wedi dweud erioed bod eiriolaeth yn dda am yr un rheswm. Dydy hynny ddim yn ddigon, mae rhaid i chi ei arddangos a'i ddangos a rhaid i bobl ddeall pam mae'n rhan hanfodol neu, fel arall, rydych chi naill ai'n ymglymu pobl sydd ddim wir angen eiriolwr neu eich bod yn methu pobl sydd wedi cael eu gadael ar ôl (Rheolwr Gweithredol, Sefydliad sy'n Darparu, Ardal 1)

Mae gwahaniaethau rhwng ardaloedd a hynny ledled Cymru os dwi'n onest gyda chi. Dydy rhai mannau ddim wedi sefydlu gwasanaeth eiriolaeth eto, ac ardaloedd eraill heb hysbysebu gwasanaeth eiriolaeth proffesiynol annibynnol fel gwasanaeth ar wahân ac wedi ei atodi wrth gyllid gwasanaethau eiriolaeth gan ddweud pethau fel 'wel, rydyn ni'n cynnig IPA - Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol' (Rheolwr Gweithredol, Sefydliad sy'n Darparu, Ardal 2)

- 6.4 Ystyriwyd bod y 'galwadau statudol' ar rai sefydliadau sy'n darparu menter cymdeithasol yn peri risg o broffesiynoli'r rôl a phylu'r ffiniau rhwng rôl eiriolaeth wir annibynnol: *Po fwyaf o alwadau sydd ar alwadau statudol, mwya' proffesiynol bydd y rôl. Rydyn ni eto wedi symud ymhellach o fod mewn cyswllt â phobl. Dydw i ddim am i ni fod yn gangen neu'n is-gangen o wasanaethau cymdeithasol gan mai holl bwynt eiriolaeth ydy ein bod yn annibynnol ac nid yn rhan arall o'ch tîm aml-ddisgyblaethol (Rheolwr Gweithredol, Sefydliad a Gomisiynwyd, Ardal 1)*

Crynodeb

- 6.5 Mae'r bennod hon wedi cyflwyno agweddau perthnasol i swyddogaethau awdurdod lleol a gwasanaethau cymdeithasol a gweithredu'r Ddeddf.
- 6.6 Y negeseuon allweddol ydy:
- Roedd dulliau newydd o fynd ati oedd yn ymgorffori'r pwyslais ar asesu yn seiliedig ar gryfderau ac asedau o dan y Ddeddf wrth geisio deall anghenion cymwys pobl o ran llesiant yn amlwg.
 - Nododd y cyfranogwyr y datgysylltiad rhwng rethreg ddeddfwriaethol a realiti gweithredol, yn enwedig yn wyneb y tensiynau rhwng hyblygrwydd a dehongliad lleol a rheolaeth ganoledig.
 - Ystyriwyd bod sgysiau ar 'yr hyn sy'n bwysig' gan gyfranogwyr yn bositif gan fwyaf, gan ystyried bod hyn yn dychwelyd at arfer da.
 - Y sialens i'r gweithlu ydy bod canlyniadau yn oddrychol ac yn ddadleuol a'r modd y maen nhw'n cael eu hasesu neu eu casglu heb fod yn sefydlog nac yn safonedig.
 - Roedd teimlad cyffredinol bod y symud tuag at ganlyniadau yn 'waith ar y gweill'.
 - Mynegwyd y teimlad bod arferion wedi datblygu i'r graddau bod comisiynu ar gyfer egwyddorion a chanlyniadau'r Ddeddf wedi'i wireddu, ond bod angen cynnydd sylweddol o hyd.
 - Y brif broblem o ran comisiynu a nodwyd yn ystod gweithredu'r Ddeddf oedd diffyg cyd-gysylltiad rhwng awdurdodau wrth weithredu'r Ddeddf a hynny'n arwain at 22 o ddulliau nodedig a gwahanol o wneud pethau.
 - O ran diogelu, ystyriwyd bod y Ddeddf wedi ysgogi newidiadau defnyddiol.
 - Nododd ymatebwyr fod Gweithdrefnau Diogelu newydd Cymru yn darparu, hyd yn hyn, sialensiau positif i ddulliau sefydledig o weithio a'r eglurder a'r parhad angenrheidiol.

7. Canfyddiadau – Perthynas gyda Phartneriaid: Gweithredol a Strategol

Perthynas Weithredol gyda phartneriaid

- 7.1 Gan ddefnyddio is-themâu a ddatblygwyd o'r dadansoddiad, mae rhan gyntaf y bennod hon yn cyflwyno detholiad o ddyfyniadau i gefnogi'r nodweddion allweddol y cyfeiriwyd atyn nhw gan gyfranogwyr o ran perthynas weithredol gyda phartneriaid.

Y sector annibynnol

- 7.2 Mae perthynas sydd wedi'i sefydlu ers amser rhwng yr Awdurdodau Lleol a'r sector annibynnol wedi cynorthwyo'r gwaith a wnaed i dystio bod gofynion y Ddeddf wedi cael eu cyflawni: *Mae ein perthynas â'r Cyngor yn mynd yn ôl yn bell iawn [...]* Rydyn ni'n cyfnewid syniadau am adroddiadau ar fonitro a chyflwyno tystiolaeth am bethau fel canlyniadau a'r ystadegau sy'n eu helpu i dystio eu bod yn cyflawni'r Ddeddf hefyd. Mae'r berthynas honno yn sicr wedi bod yn hanfodol (Rheolwr Gweithredol, Sefydliad sy'n Darparu, Ardal 2)
- 7.3 Croesawodd y sector annibynnol y chwistrelliad o arian oedd wedi galluogi gwaith i ddiweddarau contractau a gomisiynwyd i fod yn gydnaws a'r Ddeddf a chynnig 'gwasanaeth gwahanol iawn': *Penderfynodd y cyngor roi miliwn o bunnoedd gros arall i mewn i ofal cymdeithasol a nid ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, dydy e ddim yn arbennig ar gyfer unrhywbeth sy'n seiliedig ar alw. Mae ar gyfer ein galluogi i baratoi y cysyniad cyfundrefnol gwahanol hwn. Os ydw i'n defnyddio gofal cartref fel enghraifft, yr ieithwedd yr ydyn ni'n ei defnyddio gyda darparwyr ydy 'edrychwch, fe wnawn i godi'r gyfradd fesul awr, fe wnawn ni symud o 17 neu 19 neu beth bynnag, ond yr hyn rydyn ni'n ddisgwyl yn ôl gennych chi ydy cynnig o wasanaeth gwahanol iawn'. Rydyn ni'n derbyn ymateb positif iawn i hynny (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 3)*
- 7.4 Roedd newid yn nisgwyliaid cynnig gwasanaeth a chymorth gan y sector annibynnol i fod yn gydnaws â'r Ddeddf yn dod yn ei flaen, er yn 'arafach':
Rydyn ni'n dweud beth rydyn ni angen ganddyn nhw, yr ymweliadau gofal [cartref], nad ydy hyn yn ymarfer ticio bocs ond yn hytrach 'mae angen i chi fynd at Mrs Jones i wneud X Y a Z'. Rydyn ni'n ceisio cynnwys mewn contractau newydd elfen o welliant, o alluogi o fewn hynny. Mae'n arafach

nag a fu, i ni yn fewnol, ond i newid yn raddol y ffordd y maen nhw'n gwneud eu gwaith yn ogystal â'r modd yr ydyn ni'n gwerthuso'r dull y maen nhw'n gwneud eu gwaith ac yn amlwg, i bwy yr ydyn ni'n rhoi contract . (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 4)

Y Sector gwirfoddol

- 7.5 Ystyriwyd bod adnoddau ac asedau cymunedol yn adnodd gwerthfawr, fodd bynnag, roedd diffyg cyllid yn golygu bod pryderon am eu cynaliadwyedd: *Mae'n hyfryd clywed llawer o'r pethau sy'n mynd ymlaen, ond sut mae parhau hyn o gofio faint o bwysau sydd ar gyllid? [...] Mae'r pethau hynny i gyd mor werthfawr i gymunedau ac mae toreth o bobl allan fanna yn gweithio ar bethau yr ydyn ni'n ei defnyddio'n rheolaidd a rhaid eu canmol i'r cymylau. Sut ydyn ni'n cadw hynny i fynd? (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)*
- 7.6 Roedd y mater o gynnal asedau cymunedol yn amlygu effaith posibl ar unigolion pan fydd gwasanaethau gwirfoddol yn cael eu terfynu drwy ddiffyg cyllid.
- 7.7 Ymhlith y nodweddion pwysig partneriaethau rhwng Awdurdodau Lleol a'r sector annibynnol roedd perthynas gilyddol a 'pharodrwydd i ddatblygu a chydweithio: *Rhaid bod yn onest a theg, mae parodrwydd i ddatblygu ac mae pobl y trydydd sector yn awyddus i weithio gyda ni ac o'n cwmpas ni i geisio dod hyd i atebion i ddiwallu anghenion pobl (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 3)*
- 7.8 Ar ben hynny, ystyriwyd bod y Ddeddf yn galluogi gweithio mewn partneriaeth gyda'r trydydd sector: *Ers y Ddeddf a gweithrediad y Ddeddf, rydyn ni wedi sylwi ar weithio'n agosach gyda'r trydydd sector i adeiladu a chyfnerthu y berthynas honno. Dw i'n gallu gweld gwahaniaeth mawr yn hyn o beth o sut oedd pethau 10 mlynedd yn ôl (Rheolwr Gweithredol, Bwrdd Iechyd, Ardal 2)*
- 7.9 Fodd bynnag, mae problemau parhaus o ran adnoddau a chyllid yn tynnu sylw o fynd i'r afael â bylchau ac angen y gymuned. Er enghraifft, defnyddio cyllid grant i 'arbed' swyddi'r gweithlu: *Pan gawson ni sgysiau gyda'n sefydliadau gwasanaeth a rhai o'r grwpiau cymunedol mwy am y rheswm pam roedden nhw'n mynd am gyllid grant neu a allen nhw gomisiynu gyda'i gilydd neu beth oedd y bylchau. Eu rhesymau oedd i arbed swyddi yn hytrach na meddwl am anghenion y gymuned (Rheolwr Gweithredol, Sefydliadau sy'n Darparu, Ardal 1)*

- 7.10 Roedd sialensiau y cyllido a'r adnoddau oedd yn wynebu'r sector gwirfoddol hefyd yn effeithio ar gynaliadwyedd, ar gapasiti, y gallu i gydweithio, darpar gynllunio ac aliniad i egwyddorion y Ddeddf:

Rydyn ni'n ddibynnol iawn arnyn nhw [y trydydd sector] am lawer o bethau. Dw i'n meddwl bod ganddon ni broblem capasiti a gweithio'n strategol. Maen nhw'n gweithio fesul dydd ond dydw i ddim yn siŵr am waith capasiti a lefel strategol (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)

Mae'r ymyriad cynnar angen llawer mwy o fewnbwn gan y trydydd sector neu'r gymuned ond dw i'n meddwl y bydd pryderon am gynaliadwyedd, am gymunedau i allu gwneud hynny (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 4)

- 7.11 Gwnaed cymariaethau rhwng grwpiau cymunedol llai a darparwyr gwirfoddol sefydledig mwy. Er gwaethaf gwerth y grwpiau cymunedol llai, mae eu maint yn effeithio ar benderfyniadau comisiynu.

Symud ataliad yn ei flaen – rôl y trydydd sector

- 7.12 Gwelwyd thema fynych am werth a rôl y trydydd sector o ran cynnig cymorth ar gyfer ataliad. Hefyd, sylweddolwyd yr angen am gyllid 'amserol' a llai cyfyngedig er mwyn i'r trydydd sector fod yn fwy actif mewn gwaith ataliol:

[] Gallai sefydliadau'r trydydd sector fewnbynnu mwy petai'r cyllid yn cael ei basio i lawr yn amserol, yn fwy uniongyrchol a heb rwystrau (Ymateb Arolwg Gweithlu)

- 7.13 Roedd nod strategol hefyd i Awdurdodau Lleol ymglymu mewn partneriaethau gyda'r trydydd sector, o gofio bod cyfyngiadau ariannol ar wasanaethau statudol ar adegau o gyni: *Os byddwch un symud i mewn i ataliad hefyd, dyna'r peth cyntaf i fynd ynte? Yn ystod adeg o gyni, rydych chi bob amser yn ceisio atal pethau fel 'na. Ond, drwy ddod â'n partneriaid i mewn, cydlynwyr ein hasedau lleol, rydyn ni wedi gallu ail-gyfeirio cleifion neu ddinasyddion i wasanaethau eraill yn hytrach na'ch gwasanaeth statudol neu orfodol (Uwch Reolwr, Bwrdd Iechyd, Ardal 1)*

Mewnol i'r Awdurdod Lleol

- 7.14 Roed rhai o'r farn bod gofyn am fwy o gydweithio gyda phartneriaid mewnol megis tai ac addysg, fel roedd angen dealltwriaeth well o'r Ddeddf a'u dyletswyddau o dan

y Ddeddf: *Galla i feddwl am broblemau cyfredol addysg, yr heddlu a iechyd, lle byddai dull cydweithredol o fynd ati yn fwy buddiol. [...]. Dw i'n meddwl mai'r ymateb cyntaf fyddai 'faint mae hyn yn mynd i gostio i ni?' tra mewn gwirionedd byddai gwaith cydweithredol yn y pen draw yn fwy economaidd (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)*

- 7.15 Roedd gwahaniaethau am lefel ymglymiad tai mewn dau o'r pedair ardal, oedd yn berthnasol i unrhyw berthynas fewnol:

Dwi'n meddwl bod gan yr adran dai rôl bwysicach i'w chwarae nawr nag yn flaenorol. Yn benodol, o ran ei fod yn ffocysu mwy ar lesiant pobl [...] Dydy e ddim yn berffaith o bell ffordd ond dwi'n meddwl bod mwy o ryngweithio rhwng tai a gofal chymdeithasol a iechyd (Rheolwr Gweithredol, Sefydliad sy'n Darparu, Ardal 2)

Pan roedden ni'n seiliedig ar ardal, byddai ganddoch chi fwy o gysylltiad gyda'r adran dai oherwydd, yn amlwg, byddai'n ymwneud mwy â'r ardal. Ond oherwydd ein bod yn delio â [yr Awdurdod Lleol], does dim llawer o gysylltiad, maen nhw'n dod i gynadleddau pan fyddan nhw'n cael gwahoddiad, ond ar wahân i hynny, does ganddon ni ddim y math o berthynas efallai y dylen ni gael (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)

Y GIG

- 7.16 Cyfeiriodd rhai ardaloedd lleol at berthynas sefydledig gyda iechyd, oedd yn galluogi gweithio'n bositif yn enwedig ym maes gofal oedolion bregus neu hŷn: *Mae ein perthynas â iechyd yn wirioneddol gadarn. Mae ganddon ni ddegawd neu fwy o hanes o integreiddio go wir, yn sicr ym maes oedolion bregus a hŷn. Mae gennym dimau integredig ac wedi'u cyd-leoli ers i mi fod yma (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 3)*
- 7.17 Cynorthwyodd y Ddeddf i ysgogi datblygiad perthynas waith gyda iechyd:
- Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth gyda'n cydweithwyr ym maes iechyd, mae'r timau hynny gyda'i gilydd, mae'r berthynas wedi datblygu gydag amser (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)*
- 7.18 Cychwynnodd partneriaethau gyda iechyd cyn gweithredu'r Ddeddf, yn trafod sut i ddod i gytundeb a chydweithio, Treuliwyd amser i nodi, datblygu a gweithio gyda

gwasanaethau gofal cymunedol oedd yn cynnwys ymgynghori a gweithio'n agos gyda'r gymuned. Hwylusodd mapio gwasanaethau ataliol cymunedol wybodaeth drylwyr o'r ddarpariaeth sydd eisoes yn bodoli: *Sefydlon ni ofal cymunedol tua chwe neu saith mlynedd yn ôl ac rydyn ni wedi gweithio llawer gyda'r gymuned i ddatblygu adnoddau, yn edrych ar ba adnoddau sydd eisoes yn y gymuned i gyfeirio pobl atyn nhw, edrych ar ba adnoddau sydd angen cymorth ac angen eu datblygu. [...]. Yr enw rydyn ni'n roi arno ydy 'frog spawn', felly mae ganddon ni fap 'grifft broga' o bopeth o safbwynt ataliol ac yna rydyn ni'n gweithio'n agos ochr yn ochr â'n nyrsys, ein timau ayb. (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 3)*

Rhwystrau rhag gweithio integredig

- 7.19 Fodd bynnag, mae'r sialensiau yn parhau o ran y gwahaniaethau mewn athroniaeth a'r hinsoddau gwahanol iawn rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ac o fewn iechyd. Er enghraifft, disgrifiwyd gwasanaeth cymunedol a gwasanaethau aciwt fel 'dau wersyll':

Byddwn i'n dweud bod ein perthynas yn [yr Awdurdod Lleol] gyda'n cydweithwyr iechyd yn gadarn ond ddim byd tebyg i'r hyn y bydden ni'n ei ddymuno oherwydd bod hinsawdd y ddau sefydliad yn wahanol iawn (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)

Ym maes iechyd, mae gennych chi ddau wersyll o hyd. Ar yr un llaw mae gennych chi wasanaethau sylfaenol a chymunedol ac ar y llaw arall y sector aciwt. O gael gaeaf tebyg i'r un rydyn ni'n ei gael ar hyn o bryd, mae'n 'hawdd colli hyder yn yr hyn rydych chi'n ei wneud yn y gymuned a thywallt yr holl arian i mewn i'r sector aciwt (Rheolwr Gweithredol, Bwrdd Iechyd, Ardal 2)

- 7.20 O ran y sialensiau i integreiddio, nodwyd y datgysylltiad ymhlith lleoliadau gofal aciwt a gofal cymdeithasol, er enghraifft, blaenoriaethau sy'n anghyson â'i gilydd a'r ffocws ar ganlyniadau. Mae'r enghreifftiau isod yn cyfeirio at ryddhau o'r ysbyty:

Dw i'n credu bod ganddon ni ffordd bell i fynd o ran staff ysbyty. Dw i'n meddwl mai'r oll maen nhw'n ei weld ydy gwely ac mae hynny'n faes anodd achos gwn neu bod dan bwysau mawr i ryddhau capasiti drwyddi draw. Mae wedi bod yn eitha anodd. [...]. Maen nhw'n ein hystyried ni yn rhwystro oherwydd os ydy Mrs Jones yn feddygol ffit heddiw maen nhw am iddi gael ei

rhyddhau o'r ysbyty doed a ddelo p'un ai bod gan Mrs Jones y capasiti ai peidio o ac yn eu tyb nhw, nid eu busnes nhw ydy hynny. Rydyn ni'n ystyried os gall Mrs Jones fynd adre, efallai does ganddi mo'r capasiti ond mae'r teulu yn dymuno iddi fynd. Mae 'na risgiau yn hynny o beth ond yr hyn nad ydyn nhw'n sylweddoli ydy bod rhaid i ni edrych ar gynlluniau wrth gefn ar gyfer Mrs Jones os ydy'n ni'n darparu ymyriad er mwyn iddi allu aros yn ei chartref. Dydy'n nhw ddim yn gweld hynny, dim ond gofyn maen nhw pam na all hi fynd adref? Dyna'n anhawster ni. Mae syniad yn bodoli ein bod yn arafu a gohirio pethau a rhwystro rhag rhyddhau'r claf (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)

[] Mae cyfyngiadau i'r fframweithiau yr ydyn ni'n gweithio o'u mewn. Er enghraifft, o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty a'r gofal cymdeithasol, petai llawer rhagor o arian o gwmpas hynny, ac mae angen ychydig mwy o waith oherwydd yn amlwg i ni, hwn ydy un o'r meysydd sydd o dan bwysau (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)

7.21 Hefyd, trafododd cyfranogwyr yr anhawster o newid hinsawdd ym maes iechyd er mwyn defnyddio dull newydd o weithio tra'n cydnabod blaenoriaethau anghyson pwysau dyddiol eraill y mae maes iechyd yn eu hwynebu: *Ar un llaw mae disgwyl i'r hinsawdd newid ac ar y llaw arall y galw dyddiol am faint o welyau sydd ganddoch chi, faint o oedi wrth drosglwyddo gofal sydd yna. Mae'n sefyllfa gymhleth iawn, dw i'n credu mai dyna un o'r ffaeleddau sydd ganddon ni wrth symud ymlaen (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 3)*

7.22 I rai, roedd graddau'r dealltwriaeth a'r ymglymiadau gyda'r Ddeddf yn ddibynnol ar ba mor uchel ydy swydd gweithwyr proffesiynol maes iechyd.

Rydyn ni'n gweld timau rheng flaen yn aml yn gweithio mewn dull integredig ond ucha'n byd yr ewch i fyny'r strwythurau o fewn y gwasanaeth iechyd, pella'n byd ydych chi o ddeall gofal cymdeithasol (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Cenedlaethol)

Mae rhannu eraill o'r bwrdd iechyd sydd, weithiau ddim yn deall egwyddorion y Ddeddf neu wedi cael eu haddysgu amdany'n nhw mewn ffyrdd gwahanol, chi'n gwybod, dydy uwch ymgynghorwyr yn yr ysbyty er enghraifft ddim yn gweithredu yn ôl egwyddorion y Ddeddf (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 2)

7.23 Roedd materion cyfathrebu (sy'n cael eu llesteirio gan newid yn rolau uwch swyddogion maes iechyd) a chytundeb am gyfrifoldebau a chyfraniadau hefyd yn heriau i sicrhau gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth gyda'r maes iechyd: *Unwaith maen nhw [dinasyddion] mewn ysbyty ni sy'n talu'r costau yn y lle cyntaf gan mai ni sy'n darparu'r gwasanaeth ac yna mae'r bwrdd iechyd fod i wneud eu cyfraniad nhw. Nawr, mae eu cael i gytuno ar eu cyfraniad yn anodd, mae eu cael i dalu'r bil a anfonon ni atyn nhw hyd yn oed yn fwy anodd (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)*

Galluogwyr gweithio integredig

7.24 Ymhlith y galluogwyr i weithio integredig gyda iechyd roedd dull cydweithredol 'rhanbarthol' o fynd ati i baratoi ar gyfer gweithredu. Cyfeiriodd hwyluswyr eraill at yr ymrwymiad a'r 'mewnbrynant' gan arweinwyr ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Roedd dull cadarn rhanbarthol o fynd ati, roedd yn ddull pur gydweithredol o fynd ati. Roedd adrannau dysgu a threfnu ar gyfer gofal cymdeithasol ar gyfer pob un o'r tri awdurdod lleol ac roedd yr adran ddysgu a datblygu ar gyfer iechyd yn gweithio ar weithredu pecynnau hyfforddi (Rheolwr Gweithredol, Bwrdd Iechyd, Ardal 2)

[Yr hyn] a fu o gymorth oedd ymrwymiad uwch swyddogion y bwrdd iechyd a'r awdurdodau lleol. [...]. Bydd ein cyfarwyddwr yn cwrdd â phrif weithredwr y bwrdd iechyd os nad yn wythnosol, yn sicr sawl gwaith y mis (Rheolwr Gweithredol, Rhanbarthol, Ardal 3)

7.25 Ymhlith pethau eraill oedd yn galluogi roedd darparu man integredig oedd wedi annog gwaith aml-asiantaethol, tra roedd ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd wedi helpu i sicrhau negeseuon cyson gan y ddau sefydliad: *Arweiniodd hyn [yr integreiddio], y pethau meddalach, at yr ymddiriedaeth ein bod yn deall ein gilydd, ein bod yn gwneud rhywbeth mewn gwirionedd . Ac yna, gallwn ni fynd yn ôl a gall pobl fel y darparwyr gael yr un neges gan yr adran ag y maen nhw'n ei gael gan faes gofal cymdeithasol. [...] Roedden ni ar ein hennill bob ffordd oherwydd ei fod wedi'n helpu o ran oedi wrth drosglwyddo rhai oedd angen gofal o'r ysbytai (Uwch Reolwr, Bwrdd Iechyd, Ardal 1)*

Gwasanaethau Iechyd Meddwl

- 7.26 Trafodwyd y berthynas gyda iechyd meddwl yn bennaf yng nghyd-destun Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Roedd profiadau negyddol rhai teuluoedd a atgyfeiriwyd i CAMHS wedi effeithio ar weithio mewn partneriaeth. Er bod y rhan fwyaf o hyn yn ymwneud â chyllido, cafwyd anawsterau o ran ymglymiad CAMHS â phlant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.

Dw i wedi gweld teuluoedd yn cael eu siomi'n ddirfawr gan wasanaethau iechyd meddwl drwy'r amser. [Yn wir] maen nhw'n cael eu llesteirio gan yr un math o gwynion am adnoddau ag sydd gen i am fy ngwasanaeth i. [...].

Dydyn nhw ddim yn celcio'r arian na'i gadw oddi wrth y plentyn, dydyn nhw ddim yn gallu ei gael ac mae hynny'n rhwystredig ond dydy hynny ddim byd i wneud â'r Ddeddf (Gweithiwr Rheng Flaen, ALI, Ardal 4)

Dyna rai o'n hanawsterau ninnau hefyd ac mae'n ymddangos yn fwy anodd i'n pobl ifanc, mae CAMHS wedyn yn ei chael hi'n anodd i ragweithio gyda nhw ac mae hynny'n ddealladwy (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)

- 7.27 Gall diffyg adnoddau sy'n arwain at rhestrau aros hir am wasanaethau CAMHS olygu cynnydd yn llwyth achosion y gwasanaethau cymdeithasol sy'n 'dal' a chynorthwyo plant a phobl ifanc sy'n aros i gyrchu CAMHS: *Os oes rhestr aros gan CAMHS, mae'n hatgyfeiriadau yn cynyddu ac rydyn ni fel rhwyd diogelu. Fedra i ddim dal i ysgwyddo cyfrifoldebau iechyd drwy gynyddu ein llwyth achosion, gan ddal gafael yn y plant hynny nes iddyn allu cael gwasanaeth. Ond byddai'n well gen i wneud hynny nag i'r plant fod mewn argyfwng ac yna gorfod cael eu rhoi mewn gofal. Ond dwi'n meddwl wrth wneud hynny y bydd ein cydweithwyr ym maes iechyd, sydd ychydig yn blasé yn cilio i'r cefndir, a dweud bod 'na rhestr aros mewn gwirionedd ond i beidio â phoeni gan eu bod wedi'u hatgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol tra byddan nhw'n aros (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)*

- 7.28 Amlygodd gwahaniaethau rhwng gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft ymarferion oedd yn gydnaws â 'model meddygol' yn hytrach nag â 'model cymdeithasol', a iechyd meddwl cymunedol yn cyfeirio at unigolion sy'n cyrchu gofal a chymorth fel cleifion': *[Iechyd meddwl] Mae'n dal i weithredu yn ôl model meddygol yn hytrach nag yn ôl model cymdeithasol. Felly,*

byddwn yn dal i ryddhau pobl o'r ysbyty heb gynnal sgwrs ar 'yr hyn sy'n bwysig' gyda nhw. Mae iechyd meddwl yn dal yn fodel meddygol ar y cyfan, sonnir am bobl fel cleifion hyd yn oed yn y gymuned (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Cenedlaethol)

Crynodeb: perthynas weithredol gyda phartneriaid

7.29 Mae'r bennod hon wedi ystyried y nodweddion allweddol (fel y cyfeiriwyd atyn nhw gan gyfranogwyr) o ran perthynas weithredol gyda phartneriaid a gweithrediad y Ddeddf

7.30 Y negeseuon allweddol:

- Mae pwysigrwydd arweinyddiaeth i gychwyn a chynnal newid yn glir
- Mae gwerth mawr yn cael ei roi ar berthynas waith bositif a chyfatebol gyda phartneriaid.
- Mae'r Ddeddf yn yrrwr ac yn ysgogiad ar gyfer datblygu partneriaethau â maes iechyd.
- Mae'r Ddeddf, i raddau, wedi galluogi i ofal cymdeithasol a iechyd gael eu hintegreiddio er mwyn datblygu dulliau cydweithrediadol rhanbarthol o fynd ati, ymrwymiad a chyfraniad arweinwyr, manau gweithio integredig, cyd-barch a chyd-ymddiriedaeth, a negeseuon cyson i'r ddau sefydliad.
- Mae angen amser ac adnoddau i sefydlu a datblygu partneriaethau
- Mae'r sector gwirfoddol yn bartner rhagorol ar y cyfan, ond mae pryderon am gapasiti, cyllid a chynaliadwyedd yn dal i fodoli.
- Mae angen i 'hinsoddau' sy'n anghyson â'i gilydd y gwahanol sefydliadau – yn enwedig gofal cymdeithasol a iechyd– gysoni ymhellach â'i gilydd.

Perthynas strategol gyda phartneriaid

7.31 Mae ail ran y bennod hon yn cyflwyno agweddau allweddol y cyfeiriodd cyfranogwyr atyn nhw o ran perthynas strategol gyda phartneriaid a gweithrediad y Ddeddf.

Strwythurau a threfniadaeth ranbarthol

- 7.32 Gwelwyd strwythurau effeithiol y gwahanol fyrddau partneriaeth fel agwedd allweddol a alluogodd ffurfioli a chryfhau partneriaethau rhwng gofal cymdeithasol, iechyd ac asiantaethau eraill:

O'r blaen, roedd ganddon ni gyfarfod cryf eithaf da gydag un awdurdod lleol ond doedd ganddon ni dim byd mor ffurfiol gydag un arall. Nawr mae gennym ni un bwrdd cyflenwi lleol sydd â'r ddau awdurdod lleol, ni, yr heddlu a'r gwasanaeth tân ac mae hynny wedi cryfhau pethau (Rheolwr Gweithredol, BI/HB, Ardal 1)

Rwy'n credu, oherwydd bod strwythurau penodol ar waith, bod yna gyfleoedd i yrru rhai negeseuon ymlaen, i gael sgysiau a all fod yn rhai defnyddiol [...]. Dydy strwythurau ddim yn newid pethau, pobl a pherthynas sy'n gwneud hynny, ond mae'n ymwneud â phersonoliaethau a dod at eich gilydd a datblygu perthynas (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 3)

- 7.33 Fodd bynnag, er iddo gydnabod pwysigrwydd byrddau partneriaeth, cyfeiriodd un cyfranogwr at yr hyn yr oedden nhw'n ei ystyried yn 'haen arall o reoli ac arwain': *Mi wn fod partneriaeth ac integreiddio yn bwysig ond rwy'n cael trafferth â hynny a'r byrddau partneriaeth hyn. Mae newydd gyflwyno haen arall o reolaeth ac arweinyddiaeth ac mae wedi tynnu oddi wrth ymarfer rheng flaen (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)*

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs)

- 7.34 Cydnabuwyd y posibilrwydd o ddyblygu gwaith rhwng y PSBs a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPBs):

Yr argraff rydw i'n gael ydy nad ydyn ni wedi dod o hyd i'r cyfan o'r cyfleoedd sydd yna ar gyfer y PSB oherwydd fy mod i'n credu eu bod yn llai diriaethol mewn rhai ffyrdd na rhai'r RPB. [...] Yn y PSB, [...], mae gennym ffrwd waith sy'n cynnwys plant a phobl ifanc. Ond yna mae gennym hefyd ffrwd waith o fewn yr RPB sy'n cynnwys plant a phobl ifanc ac un o'r pethau rydw i'n pendroni amdany'n nhw ar hyn o bryd ydy a ydyn ni'n dyblygu gwaith? (Uwch Reolwr, BI/HB, Ardal 4)

Mae gennym y ddau ddarn hyn o ddeddfwriaeth ac mae gennyh chi'r byrddau hyn, mae'n anodd iawn osgoi dyblygu ac efallai y bydd rhai pethau y mae'r PSB yn gweithio arny'n nhw sy'n fwy na thebyg yn fwy addas ar gyfer yr RPB (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 2)

- 7.35 Amlygwyd gwahaniaethau yn y cyllido sydd rhwng y PSB a'r RPB a ddisgrifir fel 'cenfigen ariannol' a allai effeithio ar y berthynas rhwng y ddau fwrdd :

Mae yna sawl hergwd penelin allai fodoli o ran y berthynas rhwng y PSB a'r RPBs. [...]... Dydy e ddim yn drychineb di-ben-draw ond dydy hi ddim bob amser yn hawdd unioni pethau ac yn enwedig oherwydd bod yr RPB wedi dod â rhywfaint o arian i'w ganlyn a doedd y PSB heb ddod â dim (Rheolwr Gweithredol, Rhanbarthol, Ardal 3)

Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB's) yn edrych ar draws y ffiniau ac yn dweud 'wel, arhoswch funud, edrychwch ar yr holl arian maen nhw'n ei gael' ac maen nhw wedi creu ychydig o stŵr yn y system. Bosib mai ychydig bach o eiddigedd ariannol ydy hyn ac ychydig o'r ego o ran pwy sy'n rheoli'r cyllidebau. [...]... Fodd bynnag, credaf fod hynny'n newid cyn belled ag y byddwn yn symud ymlaen oherwydd y cysylltiadau rhwng y PSB's a'r RPBs (Rheolwr Gweithredol, Rhanbarthol, Ardal 3)

- 7.36 Priodolwyd gwahaniaethau rhanbarthol i densiynau rhwng y PSB ac RPB yn ogystal â chymhlethdodau logistaidd rheoli a chydlynu cynrychiolaeth gymesur ac ymglymiad ystyrion gan ei aelodau: *Bydd anawsterau oherwydd os oes gennyh chi'r RPB a'r PSB fel petai nhw'r un peth o ran ôl troed rhanbarthol, felly mae'n mynd yn anhylaw yn tydi. Beth wnewch chi â phum Prif Weithredwr, beth ydyh chi'n mynd i'w wneud, sut ydyh chi'n mynd i gael cynrychiolaeth ddigonol a phriodol o'r aelodau a pha aelodau? (Rheolwr Gweithredol, Rhanbarthol, Ardal 3)*
- 7.37 Ystyriwyd bod manteision nodedig o gael grwpiau dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth, trwy eu cyfranogiad gweithredol a'u cynnwys yn y PSB, yn nodweddiadol bwysig. Roedd symud o gyfranogiad 'tocynistaidd' hefyd wedi arwain at fuddion i'r PSB, gan eu galluogi i wneud 'penderfyniadau gwell': *Rydyn ni bellach wedi cynnal cyfarfodydd ar y cyd ddwywaith rhwng [sefydliad] sydd, wyddoch chi, yn gymysgedd rhyfeddol eclecticig o bobl ifanc gan gynnwys pobl ifanc brofiadol o ofalu a phobl ifanc*

anabl ac maen nhw bob amser wrth eu boddau ac maen nhw bob amser yn cael llawer iawn allan o hyn. Maen nhw'n edrych ymlaen yn fawr nawr gyda'u penderfyniad i gynnwys pobl ifanc ar y PSB oherwydd eu bod nhw'n sylweddoli eu bod nhw'n gwneud penderfyniadau gwell gyda rhain yno yn hytrach na dim ond derbyn adroddiadau ganddyn nhw bob hyn a hyn (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Cenedlaethol)

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPBs)

- 7.38 *Ystyriwyd bod yr RPBs yn bositif a chyfeiriwyd atyn nhw fel rhai a esblygodd o fod yn 'un cyfarfod arall' i'r 'ffordd ymlaen': Rydym ar drobwynt nawr bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi'u cydnabod fel cerbydau er daioni ac yn gerbydau ar gyfer newid ac mae pobl eisiau bod yn rhan ohonyn nhw, ond i ddechrau teimlwyd mai dim ond un cyfarfod arall oedd hwn (Uwch Reolwr, BI/HB, Ardal 4)*
- 7.39 *Gwelwyd bod yna diffyg cydnabyddiaeth gynnar o'r Ddeddf gan faes iechyd ar lefel swyddogion uwch a gwnaed cymariaethau rhwng dealltwriaeth ac ymgysylltiad gweithwyr proffesiynol gweithredol ac uwch. Fodd bynnag, roedd ffurfioli a chyfarfodydd rheolaidd yr RPB yn cynorthwyo dealltwriaeth o bwysigrwydd a pherthnasedd y Ddeddf i uwch weithwyr iechyd proffesiynol: Cymerodd fwy o amser i gael cydnabyddiaeth ar lefel uwch swyddogion ei bod yn effeithio ar y gwasanaeth iechyd yn y ffordd y gwnaeth [...]. Unwaith i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ddechrau ffurfio ac i'r cyswllt rheolaidd ffurfioli rhwng yr uwch reolwyr iechyd ac uwch reolwyr yr awdurdod lleol, rwy'n credu bod hynny wedi gwneud gwahaniaeth mawr (Uwch Reolwr, BI/HB, Ardal 3)*
- 7.40 *Roedd y gwaith oedd ei angen i ddatblygu'r RPB yn cynnwys gwella'r berthynas rhwng yr RPB a'r PSB, a gwell dealltwriaeth o rolau a swyddogaethau'r PSB a'i alinio â gwaith yr RPB: Rwy'n credu bod mwy o waith i'w wneud o ran y berthynas rhwng yr RPB a'r PSB. I mi, yn y PSB a'r hyn rydwi'n tybio ydy fy rôl ynddo, rydw i'n aml heb fod yn rhy siŵr beth ddylai fynd i'r PSB. Maen nhw'n teimlo ychydig yn fwy pell a gyda llai o gysylltiad, tra mod i'n ymwneud yn fawr gydag agenda'r RPB (Uwch Reolwr, BI/HB, Ardal 3)*
- 7.41 *Roedd maint yr RPB yn cyflwyno heriau i drafodaethau manwl am iechyd a gofal cymdeithasol: O ran cael trafodaethau brwd iawn am siâp iechyd a gofal*

cymdeithasol yn y dyfodol, nid wyf yn siŵr ei fod [yr RPB] wedi llwyddo i gyflawni hynny eto, a rydw i'n credu fod hynny'n anodd iawn oherwydd ei fod yn enfawr (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)

7.42 Roedd pwnc maint a chwmpas yr RPB yn deimlad a adleisiwyd gan eraill: *O ran cynrychiolaeth yn y RPBs rwy'n deall rhesymeg hyn i gyd yn llwyr ond ar ddiwedd y dydd mewn rhanbarth mawr fel [rhanbarth] wyddoch chi, mae gennych chi fwy na charfan a rhai wrth gefn o fewn yr ystafell, onid oes. Mae rhywun yn pendroni ble ry'ch chi'n mynd i stopio (Rheolwr Gweithredol, Rhanbarthol, Ardal 3)*

7.43 Cyfeiriwyd hefyd, wrth drafod y gwaith o ddatblygu Bwrdd Diogelu Rhanbarthol (RPB), at ei strwythur a pha uwch swyddogion oedd yn ei fynychu:

Mae fel unrhyw beth arall, mae e angen sylw cyson uwch swyddogion, yr hyn rydych chi'n tueddu i'w ganfod ydy unwaith y bydd systemau'n cael eu sefydlu, yn gynyddol mai is-swyddogion sy'n dod i gyfarfodydd, sefyllfa digon anodd. Hwyrach bod rhai swyddogion allweddol yn brin (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 4)

Rwy'n credu o ran y bwrdd RPB bod y rheithgor yn heb ddychwelyd. Rwy'n credu bod y rhan fwyaf o'r arweinwyr gwleidyddol, os nad pob un ohonyn nhw, yn dechrau gofyn cwestiynau am yr RPB, a oes ganddo'r cyfreithlondeb demograffig y dylai fod ganddo, p'un a ydy'r cydbwysedd yn iawn o ran y grym, y gair pŵer yna, ynte? P'un a ydy cydbwysedd y pŵer yn iawn rhwng iechyd a'r cynghorau, a chredaf mai'r farn gyffredinol sy'n ffurfio ydy nad ydy hynny'n wir, yn sicr yn [y rhanbarth] (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 3)

7.44 Wrth gyfeirio at yr heriau i bartneriaethau RPB soniwyd am ddiffyg 'ymgysylltu strategol' gyda'r sector gwirfoddol, effaith a arweiniodd i bartneriaid y trydydd sector deimlo nad oedd neb yn gwrando arnyn nhw ac nad oedden nhw gallu cymryd rhan. Gwelwyd bod gwerth y sector gwirfoddol yn rhoi cyfleoedd i 'wneud gwaith arloesol' ar raddfa fawr: *Rwy'n credu ei bod yn glir nad oes gan y fforymau gwerth cymdeithasol, sydd i fod yn gyfochrog, ddim yr ymgysylltiad strategol â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Gyda sawl un ohonyn nhw, os siaradwch â'r sector gwirfoddol, dydyn nhw ddim yn teimlo eu bod yn arbennig o bwysig na bod neb wedi gwrando arnyn nhw neu eu bod wrth y bwrdd mewn unrhyw ystyr gyda'r un*

llais ag eraill. [...]... Dylid gwrandawriad iddyn nhw a dylai'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod yn meddwl yn weithredol am sut rydyn ni'n gwneud pethau i ymgysylltu ag adeiladu ar y busnesau nid er elw fel y gallwn wneud pethau arloesol ar raddfa fwy mewn gwirionedd (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Cenedlaethol)

7.45 Mewn cyferbyniad, disgrifiodd eraill y sector gwirfoddol fel un gyda 'chynrychiolaeth gref' a rhannu gwybodaeth, yn cael ei gynnwys, a bod â 'llais': *Byddwn i'n dweud cynrychiolaeth gref iawn [o'r trydydd sector] ar y byrddau hynny ac o'r adborth a gawsom wrth i'r wybodaeth raeadru i lawr ac mae'n eithaf da oherwydd bod y wybodaeth fel arfer yn cael ei rhaeadru i lawr ac mae hynny'n galonogol. Yn aml iawn, dydy'r gynrychiolaeth o'r trydydd sector ond 'tic yn y blwch' a byddwch yn cael y cyfarfodydd strategol uchel ond dydy'r wybodaeth ddim bob amser yn cael ei rhaeadru i lawr. Yn bersonol, rydwi wedi canfod ein bod yn cael mynediad, rydyn ni'n rhan o'r broses honno ac mae gennym lais (Rheolwr Gweithredol, Sefydliad Darparwyr, Ardal 2)*

7.46 Yn yr un modd, cyfeiriwyd at ymgynghoriadau â phartneriaid ac am eu cynnwys, er enghraifft, y sector gwirfoddol a dinasyddion o ran gwneud penderfyniadau:

Cawsom sgwrs yn RPB yr wythnos diwethaf, rwy'n credu mai'r cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol ddwedodd, oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi dod i mewn a cheisio gofyn i ni 'stampio' pethau a dywedodd hwn 'Dydyn ni byth yn rhoi stamp rwber yn ein RPB, fel mae rhai rhanbarthau eraill wedi ei wneud. Rydyn ni naill ai'n ei gynnig yn y maes partneriaeth ac rydyn ni'n ei wneud yn iawn, sy'n golygu y bydd gennym ni ofalwyr y trydydd sector a dinasyddion a'r holl bartneriaid o amgylch y bwrdd i benderfynu sut rydyn ni'n mynd i wario'r arian hwn neu dydyn ni ddim yn gwneud (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 4)

Byrddau Diogelu Rhanbarthol

7.47 Gwelwyd bod y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn ddatblygiadau positif oedd yn galluogi gweithio'n rhanbarthol, â chysondeb, rhoi ffocws clir a 'chyfreithlondeb': *Rwy'n credu bod Bwrdd Diogelu wedi bod ddatblygiad da. O ran atebolrwydd i'r bwrdd hwnnw, rwy'n credu bod pob awdurdod lleol wedi gwneud gwaith*

rhagorol, oherwydd yr hyn y mae wedi'i ddatblygu ydy llawer o bolisi wrth weithio ar y cyd, ledled y rhanbarth. [...]. Mae hefyd yn rhoi ffocws clir iawn inni ar gyfer yr adolygiadau ymarfer oedolion a phlant (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)

Rwy'n gefnogwr o'r ochr Diogelu Rhanbarthol o bethau. Rwy'n credu bod hynny wedi rhoi lledaeniad a dilysrwydd i'r gwaith hwnnw a oedd ar goll. Mae diogelu yn faes unig a chredaf fod budd a chysondeb gwirioneddol wedi'i gynhyrchu gan yr agwedd benodol honno (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 3)

- 7.48 Priodolwyd y 'trosglwyddiad esmwyth' i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol oherwydd bod yna fwrdd plant lleol sydd eisoes wedi'i hen sefydlu a bod y Ddeddf yn darparu amddiffyniad oedolion ar yr un fframwaith cyfreithiol â diogelu plant: *Rwy'n credu ein bod yn ffodus bod gwaith wedi digwydd o fewn y bwrdd plant felly roedd y trosglwyddiad i fwrdd yr oedolion yn gymharol esmwyth. Rwy'n credu ei fod yn rhannol oherwydd bod y Ddeddf hefyd wedi cyflwyno, wedi rhoi diogelu oedolion ar yr un fframwaith cyfreithiol â diogelu plant [...]* (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 1)
- 7.49 Ac eto, er gwaethaf y galluogwyr y cyfeiriwyd atyn nhw uchod, cydnabuwyd bod yna heriau a'r gwaith oedd angen ei wneud i weithredu'r gweithdrefnau diogelu newydd: *Mae rhain [y gweithdrefnau diogelu newydd] yn trethu cryn dipyn arnon ni wrth feddwl amdany'n nhw. [...]* Tra'n bod ni'n ceisio creu eglurder, yr heriau ydy pan rydyn ni'n eistedd o amgylch yr ystafell ac yn trafod sut olwg fydd ar hwnna a pha feini prawf rydyn ni'n mynd i fod yn eu defnyddio a sut rydyn ni'n mynd i'w gweithredu. Gall hynny fod yn eithaf dryslyd (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 4)

Pwrpas a chyfeiriad strategol ar draws y rhanbarth

- 7.50 Er mwyn cefnogi pwrpas a chyfeiriad strategol partneriaethau ar draws rhanbarthau, cyfeiriwyd at yr angen am gydberchnogaeth, cytuno ar gynlluniau ar gyfer strategaethau ar y cyd, a phwysigrwydd cydnabod y bydd blaenoriaethau gwahanol ymhlith y sefydliadau:

Mae'n ymwneud â deall beth ydy ein blaenoriaethau a'n gwelliannau, ond unwaith eto, mae'n rhaid iddo fod yn gydberchnogaeth. Nid amdanon ni'n unig mae hyn, mae'n ymwneud â'n partneriaid a ninnau ac asiantaethau trydydd parti, rydyn ni wir angen cael cynllun gweithredu o beth ydy ein

blaenoriaethau tra'n symud ymlaen oherwydd bydd gan bob sefydliad flaenoriaethau gwahanol (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)

Mae'n ymwneud â defnyddio'r cronfeydd arian hynny a datblygu'r strategaethau ar y cyd hynny pan fydd gennych wasanaethau sydd wedi'u strwythuro'n wahanol iawn yn fewnol, ac ar wahanol bwysau o ran eich perthynas ac o ran anghenion y boblogaeth (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 4)

- 7.51 Helpodd egwyddorion y Ddeddf i osod cyfeiriad strategol partneriaethau a bu trafodaeth ynghylch sicrhau bod strategaethau'n cael eu trosi'n ymarfer: *Mae'r egwyddorion wedi dylanwadu'n llwyr ar ein cyfeiriad strategol [...]. Ond o ran rhoi'r unigolyn yn y canol yn wirioneddol a dweud "Beth ydy eich nodau a sut gallwn ni gydweithio?" mae gennym ni gryn ffordd i fynd gyda hynny dwi'n meddwl (Uwch Reolwr, BI/HB, Ardal 3)*

Heriau a phroblemau mewn gweithio'n rhanbarthol

- 7.52 Ystyriwyd bod defnyddio dull rhanbarthol 'un maint i bopeth' yn broblemus ar gyfer ymateb i faterion isranbarthol ac ardal: *Byddwn i'n awgrymu bod angen patrymau gwahanol ar gyfer gwahanol broblemau. Efallai bod gennych chi weledigaeth neu flaenoriaethau rhanbarthol yna gallwch weithio efallai'n isranbarthol neu hyd yn oed ar sail ardal cyn belled â'i fod yn mynd i'r afael â'r bwlch sy'n real ac yn gallu mynd i'r afael â hynny. [...] Dydy 'un maint i bopeth' ddim yn gweithio mewn unrhyw faes, addysg, bwrdd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol. Dydy 'un maint i bopeth' ddim yn gweithio. (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)*
- 7.53 Amlygwyd tensiynau yn ymwneud â chydweithio a gweithredu, ynghyd â 'diffyg cysylltiad' gydag ymwneud y rheolwyr canol â'r rhaglen ranbarthol: *Nid oedd rheolwyr yr haen ganol yn ymwneud i raddau â'n gwaith, yn y bôn roedd yna naill ai ymgysylltu gan gyfarwyddwr neu bennaeth ar lefel gwasanaeth ac roedd yna ymgysylltu gan ambell i haen ganol, ond ar y cyfan fe'u cadwyd nhw allan o'r rhaglen ranbarthol. Roedd yna ychydig o ddiffyg cysylltiad bob amser (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 4)*
- 7.54 Cyfeiriodd materion eraill at benderfyniadau ynghylch sut mae arian yn cael ei wario, gan gyfeirio at anghysondebau ar draws rhanbarthau. Fodd bynnag,

disgrifiwyd sefyllfa 'esblygol' gyda phartneriaethau cryfach oedd yn galluogi gwneud penderfyniadau ar y cyd:

Mae gennym enghreifftiau o flynyddoedd blaenorol yn ymwneud â phwysau gaeaf, lle mae arian wedi'i ryddhau ac mae dan adain gweithio rhanbarthol. Ond mae wedi cael ei ryddhau i faes iechyd ac mae iechyd wedi gwneud penderfyniadau ac mewn gwahanol ranbarthau fe fu sgysiau gwahanol. Mewn rhai, mae wedi bod yn fath o benderfyniad iechyd unochrog ac mewn rhai mae wedi bod yn benderfyniad partneriaeth briodol. Mae honno'n sefyllfa sy'n esblygu [...] Rwy'n credu ein bod mewn gwell sefyllfa nawr nag yr oedden ni 4 neu 5 mlynedd yn ôl pan oedd y berthynas honno newydd ddechrau ffurfio (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Cenedlaethol)

- 7.55 Roedd pryderon eraill yn canolbwyntio ar 'ailddyfeisio'r olwyn' a chydabod sut olwg sydd ar newid trawsnewidiol: *Fel erioed, mae yna 22 ffordd wahanol o wneud hyn yng Nghymru ac yna mae'r ffyrdd rhanbarthol o'i wneud ac rwy'n teimlo bod rhywfaint o hynny'n rhwystredig iawn oherwydd ein bod yn ailddyfeisio'r olwyn yn barhaus. Un o fy rhwystredigaethau ydy ei bod yn ymddangos bod gan bob awdurdod lleol Fwrdd Trawsnewid ar waith o ran y Ddeddf ond pan holwch chi 'I beth ydych chi'n trawsnewid iddo, sut ydych chi'n gwybod bod chi wedi cyrraedd?' All neb ateb y cwestiwn hwnnw sydd, yn fy marn i, yn ddiddorol iawn ynddo'i hun gan na allwch chi drawsnewid os nad ydych chi'n gwybod beth rydych chi'n trawsnewid iddo, na allwch chi? (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Cenedlaethol)*

Crynodeb: perthynas strategol gyda phartneriaid

- 7.56 Mae ail ran y bennod hon wedi ystyried y nodweddion allweddol y cyfeiriwyd atyn nhw gan gyfranogwyr mewn perthynas â chysylltiadau strategol â phartneriaid a gweithrediad y Ddeddf.
- 7.57 Dyma'r negeseuon allweddol:
- Mae byrddau a strwythurau wedi bod yn agwedd allweddol sy'n galluogi ffurfioli a chryfhau partneriaethau rhwng gofal cymdeithasol, iechyd ac asiantaethau eraill

- Roedd Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn cael eu hystyried yn arbennig fel datblygiadau cadarnhaol i alluogi gweithio rhanbarthol
- Mae angen gwaith i barhau i ddatblygu strwythur RPBs, ac i wella'r berthynas rhwng yr RPB a'r BGC
- Mae maint y rhanbarth yn cyflwyno heriau i drafodaethau manwl am integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol
- Mae cymhwyso dull rhanbarthol 'un maint i bopeth' yn broblemus wrth ymateb i faterion isranbarthol ac ardal

8. Canfyddiadau – Y Gweithlu

- 8.1 Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar y gweithlu a gweithrediad y Ddeddf ac fe'i cefnogir gan bum is-thema

Llwyth achosion, capasiti a phwysau'r galw

- 8.2 Mae cyfuniad o'r galw cynyddol am wasanaethau ac achosion cymhleth wedi arwain at anawsterau o ran adnoddau a phwysau ar y gweithlu:

Mae'n rhaid i ni neilltuo pob ceiniog sydd gennym ni a, mwy i'r pwynt, ei bod yn cwestiynu cynaliadwyedd ein sefydliad i ddelio â'r galw dybryd, gormodol, a niferoedd y galw o fewn y system. Dydy hyn ddim oherwydd nad oes gennyn ni drefn ataliol cryf iawn, dydy hyn ddim oherwydd nad ydyn ni mewn trefn cydgynhyrchu, dydy hyn ddim oherwydd nad ydyn ni'n cadw llygaid ar yr unigolion a theuluoedd y credwn ni allai fod yn cerdded tuag aton ni oni bai ein bod yn gwneud rhywbeth am y sefyllfa. Mae'r holl bethau hynny yn eu lle, fe allen nhw fod yn well, rwy'n siŵr, ond maen nhw yn eu lle ac mae'r cyfanswm yn dal i rollo a rholio a rholio ac y mae hynny, rwy'n ei weld o flaen fy llygaid, yn gwario rhai o'r bobl orau un (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 3)

- 8.3 I rai, roedd ymwybyddiaeth gynyddol (a groesawyd) am ddiogelu oedolion ac am y risg i oedolion wedi arwain at fwy o waith a phwysau: *Bellach, yn naturiol, mae mwy o ymwybyddiaeth o ran ymarfer risg oedolion, ac mae'n beth da. Mae pobl mewn gwirionedd yn riportio oedolion sydd mewn perygl ond bu pwysau ar y drysau ffrynt o ran gorfod delio â mwy o adroddiadau diogelu, mae gorfod mynd trwy'r llwyth gwaith hwnnw'n rhoi pwysau cynyddol (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 1)*

- 8.4 Mae pwysau sydd ar y gweithlu, rhai fel cyfyngiadau amser a llwyth achosion uchel yn effeithio ar waith o ansawdd 'ystyrlon' gyda theuluoedd, i ysgogi newid dull o ddarparu gofal a chymorth:

Rydw i newydd fod ar hyfforddiant am y tridiau diwethaf ac mae gen i'r holl syniadau hyn ac rwy'n meddwl 'Rydw i'n ysu am fynd i siarad gyda'r gweithwyr cymdeithasol i geisio gwneud hyn gyda'r teuluoedd'. Ond pryd ydyn ni'n mynd i gael yr amser i fynd i wneud y rhan hwn o'r gwaith a allai fod yn wirioneddol ystyrlon? (Gweithiwr Rheng Flaen, ALI, Ardal 4)

Mae cynnal sgwrs dda seiliedig ar werthoedd ac asedau weithiau'n gofyn am drafodaeth a allai fod yn anodd. Felly rydyn ni wedi cael y sgwrs honno am deuluoedd sydd ddim o reidrwydd eisiau rhywfaint o'r dull hwn o fynd ati. Hwyrach y bydd angen buddsoddiad sylweddol o ran amser a gall hynny fod yn anodd pan ydych chi'n rheoli llwyth achosion uchel (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)

- 8.5 Priodolwyd y diffyg gweithlu i feysydd megis llwyth achosion uchel, y capasiti a phwysau'r galw, i raddau helaeth. Arweiniodd materion adnoddau at ansicrwydd a fyddai swyddi staff yn cael eu llanw pe bydden nhw'n gadael: *Un pryder enfawr sydd gen i ydy, pe bai un o fy staff yn gadael nawr, a fyddai'r swydd honno'n cael ei diddymu ai peidio? Oherwydd mae osgoi gorwario ar y fantolen yn amhosibl, yn ymarferol. Gadawodd un o'r staff gweinyddol yn ddiweddar a dydych chi ddim yn llenwi'r rôl honno, wyddoch chi, felly dyna un person yn llai [...]. Fy rheolwr llinell, mae wedi gadael yn ddiweddar a dydyn nhw ddim yn ail-lenwi ei swydd, felly rydw i'n etifeddu'r 10 person ychwanegol yna (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 1)*
- 8.6 Roedd prinder gweithlu hefyd yn gysylltiedig ag anawsterau cadw a briodolir i ofal cymdeithasol fod yn sector â chyflog isel, gyda chystadleuaeth gan sectorau fel manwerthu: *Mewn gofal cartref, her enfawr i ni fel sector ydy'r elfen manwerthu sy'n gystadleuydd mawr. Os siaradwch ag unrhyw ddarparwr gofal, yn y bôn, recriwtio a chadw sy'n her fawr iddyn nhw. Yr hyn maen nhw'n ei ddweud ydy, yn y pen draw, diwedd y gân yw'r geiniog, mae'n dod yn ôl at ba mor dda maen nhw'n talu i'w staff (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 2)*
- 8.7 Cododd staff rheng flaen y mater o aelodau staff newydd ddim yn deall yn llawn rôl gweithiwr gofal ac hefyd effaith swyddi gwag ar barhad y gofal a ddarperir. Ymhlith y ffactorau eraill a oedd yn effeithio ar recriwtio roedd cyflog, a phrinder pobl yn dod i'r sector gofal cymdeithasol (gan arwain at gronfa lai i recriwtio ohoni) ac effaith cael llwyth achosion uchel a phwysau gwaith:
- Rydyn ni wedi cyflogi staff, dim ond diwrnod maen nhw wedi para ac yna'n penderfynu nad oedden dymuno gwneud hyn. Rydyn ni wedi cael llawer o weithwyr asiantaeth i mewn, a phan fydd gennych chi eich tîm staffio eich*

hun rydych chi'n cael cysondeb, rydyn ni'n gweithio fel tîm (Gweithiwr Rheng Flaen, ALI, Ardal 2)

Rydyn ni wedi gweld nifer o bobl yn gadael. Nid am nad ydyn nhw eisiau gweithio yn [LA], ond am y rheswm fod awdurdod lleol arall gerllaw yn talu mwy, yn sylweddol fwy neu am amrywiaeth o resymau personol neu iechyd [...] mae'r gronfa o staff cymwys lle mae'r awdurdodau i gyd yn recriwtio ohoni yn llai ac mae llawer o weithwyr cymdeithasol yn dewis gweithio mewn maes lle mae llai o straen, sef gwasanaethau oedolion yn hytrach na phlant ac yn sicr maes diogelu plant. Mae gennym nifer o bobl i ffwrdd â phryder a strès sy'n gysylltiedig â gwaith, oherwydd y llwyth achosion maen nhw'n eu trafod ac oherwydd y pwysau maen nhw'n ei deimlo (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)

- 8.8 Roedd cyllido drwy grantiau tymor byr yn arwain at gontractau cyflogaeth tymor byr ac ansefydlogrwydd swyddi yn rhesymau eraill a briodolwyd i faterion cadw pobl yn eu swyddi gyda cholli neu drosiant 'staff da iawn' yn gadael am gontractau parhaol yn rhywle arall: *Mae'r cyllido drwy grantiau fesul blwyddyn yn problem gan na allu i gael staff parhaol da iawn oherwydd y funud mae swydd barhaol ar gael, maen nhw'n mynd am y swydd barhaol. Mae gen i bobl yn dipio i mewn ac allan, mae staff da iawn yn dipio i mewn ac allan o'r gwasanaeth hwn oherwydd na allai gynnig dim ond sicrwydd o gontract 12 mis iddyn nhw. (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)*
- 8.9 Roedd cyfyngiadau cyllid yn llesteirio'r amser oedd gan staff i wneud gwaith ystyrllon o'i gymharu â'r adeg pan oedd adnoddau ar gael i wneud hynny: *Rwyf yn sicr wedi gorfod cyfyngu ar ein hadnodd staffio y flwyddyn ariannol hon sy'n golygu bod y siawns y caiff pobl yr amser i gwblhau darn da o waith, wyddoch chi, nid mod i'n dweud fod hynny'n gwbl amhosibl, ond byddai hyn yn ei gwneud hi'n anodd iawn. Tra bellach, rhaid dweud 'na, na, na'. Byddaf yn llacio'r cyfyngiadau ar ein hadnodd staffio ond rydwi angen sicrwydd ein bod yn mynd i ddefnyddio'r adnodd hwnnw i wneud pethau da (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 4)*

Newid

- 8.10 Mae newid yr hinsawdd a'r gweithlu yn broses barhaus, gyda chyfranogwyr yn cydnabod anawsterau i symud i ddull newydd o weithio ac i ymgorffori'r newid:

I rai o'r gweithwyr cymdeithasol newydd sy'n dod drwodd nawr mae'r [newid hinsawdd gwaith] yn haws oherwydd maen nhw wedi cael eu hyfforddi gyda'r Ddeddf newydd yn unig a does ganddyn nhw ddim unrhyw ffordd flaenorol o wneud rhywbeth (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 1)

Mae rhai staff yn ei ddeall ar unwaith ond dydy'r mwyafrif o staff ddim yn ei ddeall ar unwaith ac mae rhai staff na fyddan nhw byth yn ei ddeall, felly mae hynny'n waith go fawr (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 4)

8.11 Roedd heriau ychwanegol yn cynnwys ceisio rheoli gofynion cystadleuol wrth ysgogi newidiadau yn yr ymarfer: *Rydyn ni mewn byd dan bwysau mawr o fewn y gwasanaethau plant o ran nifer o ofynion yn cystadlu â'i gilydd, pwysau cyllidebol, felly mae ceisio, o fewn hynny, i gael yr hinsawdd ymarfer i newid hyd at ymylon eithaf eich sefydliad yn dipyn o her, ond byddwn i'n dweud ein bod ar y trywydd iawn gyda hynny (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 3)*

8.12 Un galluogydd i hwyluso newid o fewn y gweithlu oedd cynnwys y staff mewn trafodaethau mewn sefyllfaoedd cefnogol (e.e. goruchwyliaeth, cyfarfodydd):

Wnes i weithio gyda'r tîm o ran yr hyn yr oedden nhw am ei gyflawni, beth oedd yn eu gyrru? Beth oedd y pethau oedd yn bwysig iddyn nhw? (Rheolwr Gweithrediadau, ALI, Ardal 3)

Mae cyfarfodydd misol parhaus yn digwydd sy'n herio ac yn newid dulliau ac ymarfer. Mae'r rhaglen newid yn cael ei harwain gan ymarferwyr (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 2)

8.13 Ystyriwyd bod arweinyddiaeth gref a chyson yn ganolog i newid y gweithlu a diwylliant trwy ddarparu cyfarwydddeb glir ar y newid i'r dull o weithio, yn seiliedig ar ganlyniadau ac asedau:

Mae'r cyfarwyddwr wedi siarad llawer am ostwng disgwyliadau pobl o ba wasanaeth y bydd y cyngor yn ei ddarparu. [...]. Mae angen i'r meddylfryd hwnnw barhau (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)

Rwy'n credu bod arweinyddiaeth yn bwysig iawn ac rwy'n credu bod hynny'n bwysig iawn ar lefel wleidyddol hefyd. Felly mae [LA] wedi cael [enw] i'w

hyrwyddo'n wirioneddol, yn gryf iawn ac mae hynny wedi gwneud gwahaniaeth enfawr (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Cenedlaethol)

- 8.14 Fe wnaeth newid i ddull o weithio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a ysgogwyd gan arweinwyr 'nifer o flynyddoedd yn ôl', helpu i ymgorffori newid tymor hir: *Rydyn ni wedi cael gosod cyfeiriad nawr ar gyfer tua 6, 7, 8, 9 mlynedd. Fe allwn i fynd â chi yn ôl at gychwyn y peth, rwy'n gwybod lle dechreuodd hyn ac mae pobl wedi bod yn gweithio gyda chysondeb, gydag arweinyddiaeth gyson, gyda set o egwyddorion ac ethos, sy'n ymwneud yn wirioneddol â dull person-ganolog. [...] Yn ein ffordd ein hunain fe osodon ni'n canllawiau i ni'n hunain nifer o flynyddoedd yn ôl ac rwy'n credu ein bod ni wedi cael arweinyddiaeth gofal cymdeithasol o lefel uchel sydd wedi ceisio gweithredu hynny (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 3)*
- 8.15 Amlygwyd gwerth arweinyddiaeth gyson ymhellach, gan gyfeirio at gymhellion a chyflymder y newid yn cael ei rwystro gan drosiant uchel ymhlith y swyddi arweiniol ar draws awdurdodau: *Dwi'n credu mod i wedi cael pedwar gwahanol bennaeth gwasanaeth oherwydd y gwahanol brosesau ailstrwythuro ers 2016, felly mae'r cyfan yn cael effaith. Ond hefyd wedyn yn y sefydliad yn ehangach, gyda chyfarwyddwyr yn newid, penaethiaid gwasanaeth yn newid, rwy'n credu bod ein hadran addysg wedi cael pedwar neu bump o rai gwahanol, rhai oedd yn brif swyddogion ar y pryd ac yna'r cyfarwyddwr, ond pedwar neu bump o rai gwahanol hefyd o fewn cyfnod o bedair neu bum mlynedd. Gall y math yna o newid hefyd wirioneddol effeithio ar gyflymder ac ar ysgogiad gwahanol bobl a sut maen nhw'n gweld pethau (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)*
- 8.16 Roedd newid mewn arferion recriwtio yn rhoi pwyslais ar ymddygiad ac agwedd yn hytrach na chymwysterau i recriwtio staff sydd â gwerthoedd cyffredin ar gyfer gweithio'n wahanol:
- Rhaid i mi ddweud wrth ein haelodau etholedig, ein prif weithredwr a'n holl brif swyddogion, rydyn ni wedi gwneud cryn dipyn o waith ar arloesi, a recriwtio ar sail ymddygiad ac agwedd yn hytrach na chymwysterau. Oherwydd mae'n rhaid i chi gael y bobl iawn. Os ydyn nhw wedi'u hysgogi a'u bod nhw'n driw i'r hyn rydych chi'n ceisio'i wneud, yna fe fyddan nhw'n mynd trwy'r boen (Rheolwr Gweithrediadau, ALI, Ardal 3)*

Effaith ar y gweithlu

- 8.17 Er gwaethaf rhai heriau o ran newid diwylliant a gweithlu, cafodd y newid i ffordd o weithio yn seiliedig ar asedau effeithiau cadarnhaol ar y staff. Ymhlith y manteision roedd y cyffro o weithio'n wahanol, boddhad mewn swydd a chymhelliant, a gwerth gweithio gydag unigolion i sicrhau canlyniadau:

Mae'n gyffrous dod i'r gwaith ac mae hynny'n swnio'n dipyn o beth od i'w ddweud. Rwy'n caru fy swydd ac rwyf wrth fy modd â straeon rwy'n eu clywed gan y staff am y pethau gwych maen nhw wedi'u gwneud wrth gefnogi pobl sydd wedi dod allan o ofal wedi'i reoli ac wrth edrych ar opsiynau eraill. Rwy'n dyfalu, ar ran y tîm, y byddwn i'n dweud eu bod yn teimlo'r un peth, yn ôl pob tebyg (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)

Nawr mae'n bendant yn fwy ystyrllon ac rwy'n gweithio ar achosion nawr ac rwy'n teimlo'n eithaf balch o'r hyn rydw i wedi'i gyflawni ac wedi helpu'r teulu yna i'w gyflawni yn hytrach na bod y 'gweithiwr cymdeithasol mawr drwg' (Gweithiwr Rheng Flaen, ALI, Ardal 4)

- 8.18 Roedd staff yn fwy bodlon trwy gael 'rhyddid' i weithio gyda dinasyddion a theuluoedd a threulio mwy o amser yn y gymuned a llai o amser yn y swyddfa. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod yna rwystrau (e.e. llwyth achosion, pwysau amser):

Mae staff wedi nodi eu bod yn teimlo'n fwy bodlon yn y gwaith maen nhw'n ei wneud ac yn ceisio gweithio fel hyn [...]. Mae'r Ddeddf yn rhoi rhyddid i bobl weithio yn y ffordd sy'n fwy unol â gwaith cymdeithasol ond mae pethau eraill yn y ffordd, rhwystrau eraill megis bod yn rhy brysur ac ati. (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 4)

Mae staff goruchwylio a rheoli yn treulio mwy o amser yn cynllunio ac yn adolygu cleientiaid yn y gymuned ac yn treulio llai o amser yn y swyddfa (Ymateb i'r Arolwg, Y Gweithlu)

- 8.19 Er bod yr effeithiau cadarnhaol ar y gweithlu wedi'u trafod, disgrifiwyd addasu i'r newid fel 'pontio' sy'n gofyn am addasu a dysgu parhaus: *Mae'n rhaid i mi addasu i hyn nawr, gan fynd i mewn i dai pobl eraill a gwrando ar yr hyn maen nhw'n mynd i'w ddweud wrtha i, yn hytrach nag i mi wneud penderfyniad dros rywun arall (Gweithiwr Rheng Flaen, ALI, Ardal 2)*

Ymarfer

- 8.20 Ar y cyfan, roedd goblygiadau ymarfer yn cael eu hystyried yn bositif; roedd gweithio gyda dinasyddion a theuluoedd, a'u grymuso, yn cael ei ystyried yn shifft i'w groesawu: *Rwy'n cofio'r adeg pan oeddw'n i'n arfer mynd allan gyda chontract disgwyliaid ar gyfer amddiffyn plant a byddai'n rhestr o bethau, roedden ni'n rhoi hynny i'r teulu gan ddweud 'Mae angen i chi wneud hwnna'. Nid oedd unrhyw ymwneud, ond nawr rydyn ni'n eistedd gyda theuluoedd ac yn dweud 'lawn, beth sy'n mynd i weithio i chi'?* (Gweithiwr Rheng Flaen, ALI, Ardal 4)
- 8.21 Roedd enghreifftiau eraill yn cynnwys y rhyddid i weithio y tu hwnt i 'gyfres ragnodedig o ymatebion', a gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill i archwilio opsiynau gofal a chymorth: *Mae wedi dileu'r teimlad hwnnw o gael cyfres ragnodedig o ymatebion ar gyfer cyfres ragnodedig o anghenion. Rwy'n credu mai'r hyn y mae wedi ei wneud ydy mynegi egwyddorion arferion da ac wedi ymgorffori'r rheini yn y Ddeddf ond roedd yr egwyddorion arferion da hynny mewn pocedi, ond nawr mae wedi ei gadarnhau mai dyma'r ffordd y dylai pobl fod yn gweithio* (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)
- 8.22 Ystyriwyd bod darparu amgylchedd galluogi sy'n cefnogi gwerthoedd gwaith cymdeithasol 'traddodiadol' yn bwysig er mwyn hwyluso newid mewn ymarfer: *Mae fel troi'r llong rownd ychydig bach er mwyn sicrhau bod gennyn ni'r holl rannau hynny sy'n galluogi ein cydweithwyr i weithio yn y modd rydyn ni'r gyd yn ei ddymuno* (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)
- 8.23 Fodd bynnag, roedd heriau ymarferol, er enghraifft, ceisio llenwi ffurflenni oedd â 'chysyniadau anodd' yn heriol wrth weithio gydag unigolion ag anableddau dysgu, neu unigolion ag anghenion dysgu ychwanegol: *Y gwaith papur y mae Cynulliad Cymru neu'r rhanbarth wedi'i gynhyrchu, dydyn ni ddim yn ei ganmol. [...] Fe'u cynlluniwyd ar gyfer pobl a allai ddarllen, ysgrifennu, a deall gwahanol gysyniadau. Chafodd e ddim ei wneud ar gyfer pobl ag anableddau dysgu o gwbl ac felly roedden ni'n ei chael hi'n anodd fel tîm gwaith cymdeithasol i lenwi'r ffurflenni hyn* (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 1)
- 8.24 Roedd cefnogaeth barhaus gan reolwyr, ynghyd â ffocws ar barhau i ddatblygu gweithwyr cymdeithasol yn agweddau pwysig i gynnal y newidiadau yn yr ymarfer:

Rwy'n cofio pan ddaeth y Ddeddf i fodolaeth, roedd rhai pobl newydd wedi ei derbyn ac roedd rhai'n cael trafferth â hi. Ond mae'n ymwneud â sut ydych chi'n cefnogi pobl a dyna rôl y rheolwyr gwasanaeth, ac mae rheolwyr tîm yn bwysig iawn fel y gallan nhw weld pwy sydd wedi ei derbyn a'u defnyddio fel sbardun ar gyfer newid i'r rhai na fyddai efallai wedi derbyn yr egwyddorion ar un ystyr (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)

Hyfforddiant

- 8.25 Cafwyd cryn hyfforddiant (yn fewnol ac yn allanol i'r ALI'au) mewn perthynas â'r Ddeddf, er enghraifft, egwyddorion y Ddeddf a'r codau ymarfer:

Golygai gyfarfod yn grwpiau ac yn edrych ar y cod ymarfer ac yna roedd y cyflwyniadau papur allan. Fe wnaethon ni eistedd i lawr ac edrych ar hynny, cael rhywfaint o fewnbwn gan Gofal Cymdeithasol Cymru am beth oedd y disgwyliadau, yr amserlenni, beth ddylai fod yn digwydd ac yna fe wnaethon ni fynychu hyfforddiant am ddeuddydd (Rheolwr Gweithredol, BI/HB, Ardal 4)

I fod yn deg, roedd ein hadran hyfforddi yn wych. Fe wnaethon nhw lawer ar 'yr hyn sy'n bwysig', sgysiau cydweithredol, wyddoch chi, sut mae gweithwyr cymdeithasol yn rhyngweithio â theuluoedd a gofalwyr, ac roedd yn orfodol, neb i osgoi, ac fe aeth pawb (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)

- 8.26 Fodd bynnag, amlygwyd diffyg cynhwysiant a chyfleoedd i fynychu hyfforddiant pawb y mae'r Ddeddf yn berthnasol iddyn nhw: *Cawsom nifer o sesiynau ond efallai nad oedd y sesiynau hynny o reidrwydd yn cynnwys yr holl asiantaethau partner ac efallai y bu cyfleoedd eithaf cyfyngedig i asiantaethau partner i fynychu. Efallai i'r cyfleoedd hynny fynd i uwch reolwyr ond doedd eich swyddogion rheng flaen, sy'n delio â materion diogelu, ddim efallai wedi cael cyfle i fynd ar rai o'r gweithdai dysgu hynny (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 1)*
- 8.27 Priodolwyd camddealltwriaeth o'r Ddeddf i ddiffyg ymgysylltiad gan asiantaethau partner i fynychu'r cyfleoedd hyfforddi a gynigwyd: *Fe wnaethom ni gynnal rhai sesiynau hyfforddi generig ar gyfer staff ac fe wnaethon ni wahodd y gwasanaethau 'golau glas' i fynychu rhain i gael y trosolwg hwnnw. A dweud y gwir, roedd y nifer o sefydliadau allanol fanteisiodd yn eithaf isel. Cawsom ein siomi gyda'r nifer a gymerodd ran mewn perthynas â hynny, ond unwaith eto credaf fod hynny efallai'n*

adlewyrchu dealltwriaeth pobl o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 1)

- 8.28 Ystyriwyd bod hyfforddiant am y Ddeddf yn gofyn am ddatblygiad ac adolygiad parhaus i sicrhau bod y 'gwerthoedd a'r ethos' yn parhau i alinio â rhaglenni hyfforddi, a bod y gweithlu'n parhau i ddatblygu eu dealltwriaeth: *Mae angen hyfforddiant o hyd o ran y Ddeddf fel rhan o bopeth, dyma'r edefyn drwy bopeth a wnawn. [...] Felly gwirio ein hunain, wyddoch chi, weithiau gallwch chi ddarparu hyfforddiant, fe allech chi fod yn cyflwyno hyfforddiant ar unrhyw beth, ond mae'n rhaid i ni sicrhau y gwerthoedd a'r ethos a sut rydyn ni'n gweithio a'r iaith rydyn ni'n ei defnyddio i fod yn cyd-fynd â'r hyfforddiant (Uwch Rheolwr, Rhanbarthol, Ardal 4)*
- 8.29 Cydnabuwyd bod gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso, sydd wedi'u hyfforddi yn y dull newydd o weithio, yn ei ymgorffori yn eu hymarfer: *Mae gennych gorff cynyddol o weithwyr cymdeithasol newydd yn dod drwodd sy'n cael eu hyfforddi yn y dull newydd hwn, wyddoch chi, mewn gwirionedd, yn dod o'r coleg ac yn dod i'w swyddi wedi eu trochi'n dda yn y dull newydd hwnnw (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)*
- 8.30 Fodd bynnag, nid oedd yr holl gyfranogwyr yn rhannu'r persbectif hwn:
- Fy arsylwad o staff newydd gymhwyso, ac mae gennyn ni nifer yma, ydy nad ydw i'n synhwyro eu bod yn cael eu hyfforddi'n dda yn y Ddeddf. [...]. Mae'n rhaid i chi feddwl, wel mae'r bobl sydd fwy na thebyg yn eu hyfforddi, y darlithwyr a'r bobl nad oedden nhw'n ymarfer o dan y Ddeddf newydd, ond dan yr hen ddeddfwriaeth, a ydyn nhw wedi gallu symud ymlaen yn ddigonol, a ydyn nhw wedi gallu deall beth mae'n olygu, mewn gwirionedd, o ddydd i ddydd i weithio'n wahanol? (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)*
- 8.31 Roedd yr anghenion hyfforddi parhaus a nodwyd yn cynnwys meysydd a oedd yn canolbwyntio ar ddarparu ymarfer. Ymhlith yr enghreifftiau a ddarparwyd roedd Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol ac egwyddorion y Ddeddf: *Mae yna o hyd feysydd o amwysedd, dryswch, anghytundeb ar draws gwahanol awdurdodau mewn perthynas â gwahanol sefyllfaoedd, carfannau o bobl, sut mae darparwyr yn ei ddeall, a sut mae ymarferwyr gwaith cymdeithasol yn ymwybodol ac yn ei ddeall a sut i'w weithredu (Rheolwr Gweithredol, Sefydliad Darparwyr, Ardal 3)*

8.32 Ystyriwyd bod hyfforddiant ar ddeall y Ddeddf, mewn perthynas â rolau staff unigol ac wrth gyfleu'r ddealltwriaeth honno'n glir i'r unigolyn y maen nhw'n ei gefnogi, yn galw am waith pellach.

Crynodeb

8.33 Mae'r bennod hon wedi ystyried nodweddion allweddol (y cyfeiriwyd atyn nhw gan gyfranogwyr) mewn perthynas â'r gweithlu a gweithredu'r Ddeddf.

8.34 Dyma'r negeseuon allweddol:

- Mae rheoli a datblygu gweithwyr cymdeithasol yn broses barhaus
- Mae darparu cefnogaeth gan arweinwyr, rheolwyr gwasanaeth a thîm yn hanfodol wrth roi'r Ddeddf ar waith ymhellach
- Mae'r newid i ffordd o weithio sy'n seiliedig ar asedau wedi cael effaith gadarnhaol ar y gweithlu. Ymhlith y buddion roedd cyfle i weithio'n wahanol, boddhad swydd a chymhelliant, a gwerth gweithio gydag unigolion i sicrhau canlyniadau.
- Mae'r llwyth achosion cynyddol, y capasiti gostyngol a'r pwysau galw yn ffactorau sy'n cyfyngu ar y gyfradd ar y 'siwrnai' barhaus o weithredu, gan effeithio ar y gallu a'r graddau y gall y gweithlu gychwyn a chynnal newid, yn benodol mewn perthynas â'r canlynol:
 - Y galw cynyddol a chymhlethdod
 - Gwaethygir gallu'r gweithlu gan faterion recriwtio a chadw

9. Canfyddiadau – Data

- 9.1 Mae'r data a gyflwynir yn y bennod hon yn cyflwyno detholiad o ddarnau i gefnogi nodweddion allweddol y cyfeiriwyd atyn nhw gan gyfranogwyr mewn perthynas â data a goblygiadau gweithredu'r Ddeddf. Cyflwynir y canfyddiadau gan ddefnyddio cyfres o is-themâu a ddatblygwyd drwy ddadansoddiad.

Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau

- 9.2 Cafwyd cyfleoedd amrywiol i gasglu adborth oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaeth. I rai, roedd y ffurflenni adborth yn canolbwyntio ar y gwasanaeth a dderbyniwyd 'yn fwy na'r unigolyn'. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod angen gwella'r adborth oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaeth:

Maen nhw'n gwestiynau sylfaenol iawn ac weithiau dydyn ni ddim yn cael cyfle i gasglu'r wybodaeth ar ddiwedd gwasanaeth. Rydyn ni'n cynnal gwerthusiad ac adborth ar hap, ond mae'n ymwneud mwy am y gwasanaeth maen nhw'n ei dderbyn yn hytrach nag am yr unigolyn (Ymateb i'r Arolwg, Y Gweithlu)

Yn fy maes gwaith i, rhywbeth fel, 'Sut oedd hyn yn teimlo i chi? A wnaethoch chi gyflawni eich nodau? Pa effeithiau y mae hynny wedi'u cael ar y berthynas?' Rydyn ni'n tueddu i gael hynny trwy adborth. Rydwi'n teimlo, fel adroddiad diwedd tymor, y byddai'n sylw fel 'yn dal i ddatblygu, mae lle i wella' (Rheolwr Gweithredol, BI/HB, Ardal 2)

- 9.3 Gan gydnabod y gall casglu adborth defnyddwyr gwasanaeth gymryd amser ac ymdrech, disgrifiodd un cyfranogwr ddull 'o'r gwraidd i'r brig' a ffurflenni adborth ar y cyd, ond roedd casglu adborth defnyddwyr gwasanaeth yn gyfle i ddysgu.

Mae'n cymryd ymdrech ac mae ein pobl yn cael eu cymell yn fawr i geisio gwneud i hynny ddigwydd, ac mae'r bobl yn dweud 'Dydw i ddim yn llenwi ffurflenni, wedi rhoi'r gorau i'w llenwi'. [...]. Rydyn ni wedi newid rhywfaint o hynny ac wedi gwneud llawer ohono o'r newydd ac fe wnaethon nhw drefnu profion a chael y bobl i edrych arnyn nhw a rhoi sylwadau arnyn nhw (Rheolwr Gweithredol, BI/HB, Ardal 2)

Gofalwyr a chynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth, rhieni a gofalwyr a theuluoedd yr unigolion, maen nhw wedi rhoi adborth i ni sydd, ar y pryd, yn dweud, 'O, mae hynna braidd yn llym', ond mewn gwirionedd mae'n ddefnyddiol iawn fel gallwn ni sicrhau bod y prosiect yn datblygu'n briodol ac mae'n eu cynnwys nhw (Rheolwyr Gweithredol, Rhanbarthol, Ardal 4)

Mesur

9.4 Priodolwyd gwell gweithio integredig gyda phartneriaid i welliant yn yr adroddiadau Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA/KPI): *Rydyn ni'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, yn canolbwyntio ar integreiddio gwasanaethau, rydyn ni'n cyfuno'n well gyda'n gilydd, rydyn ni'n gweithio'n well gydag addysg. Mae hynny i gyd wedi cyfrannu at lefelau uwch o DPA'au ac mae'r rheini'n tueddu i fod yn ffigurau y mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn amdanyn nhw. (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)*

9.5 Roedd fframweithiau ac archwiliadau sicrhau ansawdd yn rhoi sicrwydd ynghylch casglu canlyniadau ac yn cefnogi ymarfer myfyriol. Fodd bynnag, gwelwyd bod dangosyddion perfformiad Llywodraeth Cymru yn groes i gyfeiriad y Ddeddf a'i ffocws ar ganlyniadau.

Rydyn ni'n dal i gyfrif dangosyddion perfformiad ar gyfer Llywodraeth Cymru, ond dydyn ni ddim bob amser yn cefnogi'r mathau hynny o fesurau canlyniadau anodd. Dydyn nhw ddim yn eu tanategu, gadewch i ni ei roi felly. Weithiau mae'n teimlo fel bod y Ddeddf yn dweud wrthyn ni am weithio un ffordd, ac eto rydyn ni'n dal i gyfrif mewnbynnau ac allbynnau yn hytrach na chyrraedd y gwir o gael tystiolaeth o beth mae canlyniadau'n ei wir olygu, gan ei fynegi, ei gyfathrebu mewn ffordd ystyrion (Rheolwr Gweithredol, BI/HB, Ardal 2)

9.6 Ystyriwyd bod diffyg arweiniad clir gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn ddi-fudd yn hyn o beth: *Dwi'n credu y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi bod yn feiddgar ac wedi gallu dweud 'Rydych chi'n mynd i weithio gyda'r offer hyn yn y system, yn y model hwn', yna fe allech chi fod wedi ei fesur drwyddo draw oherwydd byddai gennych feincnod i bawb. Ond ddigwyddodd hynny ddim. Fe ddwedon nhw 'Chi ydy'r awdurdodau lleol, ewch ymlaen i weithredu'r model hwn.' Wnaethon nhw jyst*

newid enw yr un timau. Doedd hynny o ddim help, doedd o ddim yn ddefnyddiol o gwbl (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)

Data ansoddol – ffurfiau newydd o naratif a stori

- 9.7 Roedd casglu canlyniadau ansoddol ‘meddalach’ fel tystiolaeth o ganlyniadau yn symudiad i’w groesawu a chefnu ar y ffocws traddodiadol o gasglu a mesur data meintiol:

O’r holl fyrddau yr ydw i’n eistedd arnyn nhw, yma mae’r cyfeiriad yn glir iawn, iawn ein bod am i’r data ansoddol hwnnw ddod yn ôl. Rydyn ni am barhau i adolygu a gwerthuso a’r cwestiwn a ofynnir bob amser, ‘Beth ydy’r effaith a beth ydy’r dystiolaeth o’r effaith hwnnw?’ Felly, oddi wrth beth ydyn ni’n ceisio symud, o ran y dangosyddion perfformiad (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)

Mae aelodau ein cabinet wrth eu boddau, wyddoch chi, oherwydd mae’n dod ag ystyr i’r gwaith iddyn nhw, yn tydi, yn hytrach na chael rhifau maen nhw’n cael ymdeimlad o’r gwaith rydyn ni’n ei wneud a’r effaith ar ein cymunedau a’n teuluoedd (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 4)

- 9.8 Er gwaethaf cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith, cyfeiriwyd at y Ddeddf fel un sy’n helpu i flaenoriaethu’r ffocws ar ganlyniadau unigol: *Mae hi [y Ddeddf] wedi ein galluogi i wthio am y data perfformiad o amgylch canlyniadau personol ac ati. Dydyn ni ddim, yn sicr, wedi ei meistrolï hi ac mae lle i wella bob amser, ond byddai llawer o’r adroddiadau a gyflwynwyd gennyn ni, tua pum neu ddeng mlynedd yn ôl, efallai wedi cael eu gyrru gan ddata (Rheolwr Gweithredol, Rhanbarthol, Ardal 3)*

- 9.9 Roedd enghreifftiau o adrodd ar ganlyniadau ansoddol yn cynnwys defnyddio astudiaethau achos, a straeon ysgrifenedig a rhai ar fideo. Ac eto, er gwaethaf y newid a groesawyd i gasglu canlyniadau ansoddol, fe gafwyd wedyn brofiadau o ‘ffocws ar gyfrif’:

Rydw i’n dal i feddwl bod mwy o ffocws ar gyfrif, a beth rydyn ni wedi’i wneud a faint rydyn ni wedi’i wneud ac a ydyn ni wedi gwneud y pethau hynny i’r amserlen, yn hytrach na pha wahaniaeth ydych chi wedi’i wneud (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)

Y broblem sydd gennyn ni ydy bod Llywodraeth Cymru yn dal i ofyn am oedi wrth drosglwyddo gofal a hynny'n golygu nifer y cleifion, nifer y diwrnodau, maen nhw'n gweithio yn ôl hyd cyfartaledd yr arhosiad, [...]. Mewn ffordd, rydyn ni hefyd wedi ein llesteirio gan ofynion Llywodraeth Cymru, onid ydyn ni? (Uwch Reolwr, BI/HB, Ardal 1)

- 9.10 Roedd yr heriau i ddal a chael tystiolaeth am ddata ansoddol yn cynnwys yr ansicrwydd ynghylch y ffordd orau i wneud hynny, sut y diffinnir 'deallusrwydd meddal', a sut i orau i'w riportio:

Mae angen i ni sicrhau ein bod yn casglu gwybodaeth mewn ffordd sy'n adlewyrchu ethos y Ddeddf. [...]. Mae'n hawdd casglu gwybodaeth am stwff meintiol ond yn ansoddol mae'r pethau'n fwy anodd ac mae angen i ni wneud rhywfaint o waith ar hynny (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 4)

Dydwi ddim yn credu mai ni ydy'r unig awdurdod lleol, ond rydyn ni'n ei chael hi'n anodd weithiau i feddwl faint o bethau sydd angen i ni eu riportio a'u casglu a beth ydy data mewn gwirionedd a beth ydy deallusrwydd meddal a hwyrach meddwl am sut mae astudiaethau achos a phethau felly'n ffitio i mewn (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)

- 9.11 Codwyd pryderon ynghylch y capasiti i gasglu tystiolaeth ansoddol a'r newid sy'n ofynnol yn y gweithlu i gefnu ar y ffyrdd 'hanesyddol' o weithio:

Hoffwn pe bai gennym fynediad at rai pobl a rhywfaint o feddalwedd a allai ddadansoddi rhai o'n straeon a dadlennu rhywfaint o'r arbedion cost, ond hefyd rhywfaint o'r arbediadau ansoddol ac eraill wrth osgoi a'r manteision sy'n deillio o hynny (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)

Rydyn ni'n ceisio canolbwyntio mwy ar ganlyniadau sydd ynghlwm wrth y Ddeddf ac mae hynny'n eithaf heriol mewn sawl ffordd, oherwydd mae'n wahanol iawn i'r ffordd hanesyddol rydyn ni'n gweithio ac mae'n newid y diwylliannau hynny (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 1)

Mesur canlyniadau

- 9.12 Mae anawsterau wrth briodoli canlyniadau cadarnhaol i ymyrraeth benodol neu'r math o gefnogaeth a ddarperir:

Mae'n anodd iawn, iawn, oherwydd mae'r hyn rydych chi'n gobeithio cael tystiolaeth ohono yn rhywbeth sy'n wrth-ffeithiol. Yr unig ffordd y gallwch chi wneud hynny ydy trwy ragweld beth fyddai wedi digwydd i unigolyn, yn draddodiadol, a beth sydd wedi digwydd. Ond mae cymaint o ffactorau sy'n dod o fewn hynny, oherwydd allwch chi ddim ei briodoli i un peth penodol (Rheolwr Gweithrediadau, ALI, Ardal 3)

Efallai y byddwn yn dweud ein bod wedi gwneud yr ymyrraeth hon a dyma'r canlyniad ac yna gallai awdurdod lleol ddweud 'ie, ond roedd hyn ac arall yn digwydd hefyd' ac efallai eu bod wedi effeithio ar y canlyniad felly efallai mai nid eich rhan chi a wnaeth y gwahaniaeth (Rheolwr Gweithredol, BI/HB, Ardal 1)

- 9.13 Er mwyn symud i ffwrdd o'r defnydd o 'restr wirio' gydag unigolion er mwyn i staff deimlo'n hyderus i ofyn cwestiynau ystyrlon, gwahanol a chofnodi mesurau canlyniadau, roedd angen cefnogaeth ac eglurder ynghylch iaith ac ystyr: *Roedd hynny'n dipyn o newid i'w esbonio i bobl, bod ni ar y diwedd yn dibynnu ar restr wirio a throi at yr hyn y mae'n ei olygu mewn gwirionedd. Felly pan fyddwch chi'n cael sgwrs, dydych chi ddim yn eu llenwi, achos allwch chi ddim, ond fe fyddwch chi'n helpu iddo ddigwydd. [...]. Cofiwch, ar y pryd, yn aml bydden ni'n gorffen gyda phethau a fyddai naill ai'n wag lle neu na fyddai pobl yn holi. Felly, nid mod i'n credu ei bod yn fwy tebygol eu bod yn cael trafferth i'w wneud, ond yn anghofio gofyn a doeddech chi ddim am iddo fod yn ymddangos yn docynistaidd (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 4)*

Y Fframwaith Perfformiad a Gwella

- 9.14 Roedd y dangosyddion perfformiad newydd yn cefnogi rheoli achosion a riportio ar ganlyniadau mwy ataliol, er bod angen parhau i wella: *Rwy'n credu, o ran y dangosyddion perfformiad newydd, neu'r metrigau, fel y'i gelwir gan Lywodraeth Cymru, rydyn ni'n dechrau adrodd yn amlach yng nghyfarfodydd y tîm rheoli o ran yr ochr ataliol. [...] Rwy'n credu ein bod ni'n cryfhau hynny i gyd ond rwy'n credu ei fod yn rhywbeth y mae angen i ni ei wella (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)*
- 9.15 Roedd pryderon ynghylch diffyg arweiniad gan Lywodraeth Cymru ynghylch y fframwaith perfformiad a gwella newydd cyn ei gyflwyno, ynghyd â chapasiti

cyfyngedig y staff: *Er eu bod nhw [Llywodraeth Cymru] wedi cytuno ar y metrigau, yr hyn fyddwn ni'n ei fesur, does yna hyd yma ddim manyleb dechnegol. O gofio, mai dim ond chwe wythnos sydd i fynd, mae'n mynd i fod yn her ofnadwy i'w gweithredu i ni yn ogystal â gwneud ystadegau diwedd y flwyddyn, oherwydd mae'r mwyafrif ohonom ni'n dimau bach iawn [...] Mae'n wir, wir, sialens o ran gweithlu i gefnogi'r pethau hyn (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 1)*

- 9.16 Gwelwyd bod cyflwyno'r fframwaith perfformiad a gwella yn groes i gyflwyno'r Ddeddf. Nododd eraill fod gwaith a wnaed gyda Llywodraeth Cymru, wedi helpu All'au i ddeall y gofynion.

[dylai hyn] fod wedi cael ei wneud yn llawer cynt oherwydd ein bod wedi cael Deddf uchelgeisiol sy'n gweddu'n well i'r fframwaith newydd ar berfformiad a gwella,, ond dim ond nawr rydyn ni'n dod â hynny i mewn. [...] rydyn ni wedi colli ychydig o fomentwm, dwy flynedd o fomentwm trwy beidio â chael y fframwaith gwerthuso hwnnw yn y fframwaith perfformiad flynyddoedd yn ôl (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Cenedlaethol)

Rwy'n credu eu bod nhw [Llywodraeth Cymru] yn gweithio'n dda gyda ni i ddeall beth ydy'r gofynion felly rwy'n credu bod hynny'n eithaf cadarnhaol yn hynny o beth (Rheolwr Gweithrediadau, ALI, Ardal 4)

Ansawdd

- 9.17 Roedd ansawdd a chysondeb y data a gasglwyd yn dibynnu ar nifer o newidynnau. Er enghraifft, bod yn ymwybodol o, a mesur rhyngweithio defnyddiwr gwasanaeth gydag asiantaethau'r sector gwirfoddol, a'r gwahaniaethau rhwng strwythur a threfn 'drysau ffrynt' yr ALI'au i'r gwasanaethau: *mae'n mynd i fod yn anodd mesur y nifer o weithiau rydyn ni'n cyfeirio pobl at wybodaeth berthnasol gyda'u problem. Gallwn fesur nifer y galwadau a wnaeth yr unigolyn i'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd ond beth am y sgwrs sy'n digwydd yn y gymuned ar lefel y trydydd sector? [...] ... mewn rhai drysau ffrynt bydd gennych efallai blant ac oedolion ynghyd â phartneriaid yn y trydydd sector felly yn amlwg mae nifer y galwadau'n cynyddu gan fod mwy o bobl yn aros wrth y drws ffrynt hwnnw sydd wedi cael eu dargyfeirio i'r rhif hwnnw. [...] Y cysondeb ar y lefel hwnnw gan nad ydy holl ddrysau ffrynt gwasanaethau*

cymdeithasol yr awdurdodau lleol ddim yr un fath, felly gallwch chi gynhyrchu data ond sut gallwch chi ei gymharu (Rheolwr Gweithredol, Rhanbarthol, Ardal 3)

- 9.18 Cyfeiriodd ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar ansawdd at wahaniaethau rhwng systemau cofnodi perfformiad mewn gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion: *O safbwynt gwasanaeth, mae'r plentyn a'r teulu, ac oedolion mewn mannau gwahanol. Pan ddois i mewn, roedd gan yr adran plentyn a'r teulu system cofnodi perfformiad aeddfed iawn, ond doedd yr un i oedolion ddim eto wedi'u ffurfio. [...]. Rydyn ni wedi dod ymhell o ran casglu ein data ond mae ganddon ni dipyn o ffordd i fynd o hyd, yn enwedig ym maes oedolion (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 4)*
- 9.19 Roedd datblygu set ddata ar y cyd rhwng gofal cymdeithasol ac iechyd yn cynnig hyder ynghylch dibynadwyedd y data a gasglwyd, er bod y gwaith wedi parhau i ddod i ddeall ac ymateb yn ystyrllon i fanylion y data: *Oherwydd bod ein gwasanaethau cyfarwyddiaeth iechyd cynnar mewn cyfarwyddiaeth ar wahân, rydyn ni wedi bod yn gweithio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ar ddatblygu set ddata ar y cyd. Ei nod ydy edrych a gwerthuso teithiau plant o iechyd cynnar a chamu 'mlaen a chamu'n ôl ayb a'r effaith y mae gwasanaethau'n ei gael. I mi, rwy'n credu nad ydy'n ymwneud cymaint â dibynadwyedd y data, mae'n ymwneud â pherthnasedd y data. Gallwn gasglu'r holl ddata yn y byd ond yna daw'r cwestiwn 'a beth wedyn?' (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 2)*

Cofnodi'r perfformiad

- 9.20 Roedd y data a gasglwyd yn helpu i lywio newidiadau i ddarparu gwasanaethau, tra bod systemau a ddatblygwyd gydag ymarferwyr yn galluogi rhannu gwybodaeth gydag ystod o weithwyr proffesiynol gan gynnwys staff asiantaeth:

Rydyn ni wedi gwneud newidiadau yn ffurf ein timau cymunedol, rydyn ni wedi nodi weithiau nad oes rhaid i ni gael galwadau allan yn y nos neu nad oes raid i ni gael eisteddwr nos. Dim ond galwad cwrtseisi sydd ei angen ar rai pobl neu dim ond angen i weld bod nhw'n iawn neu roi sicrwydd iddyn nhw ac felly mae hynny wedi bod, rydym wedi gallu gweithredu prosiectau ar sail y dystiolaeth honno (Uwch Reolwr, BI/HB, Ardal 3)

Dyluniwyd [ein system] gydag ymarferwyr rheng flaen. Bu gweithwyr Therapi Galwedigaethol (OT), gwaith cymdeithasol, gweinyddol a nyrsio i gyd yn yr

ystafell gyda dylunwyr y system gyfrifiadurol ac mae wedi cael ei sefydlu ar gyfer sut y bydden ni'n cefnogi rhywun. [...]. Yna gall y tîm gofal yn y cartref weld y canlyniadau. Mae gennym ni gwpl o asiantaethau preifat sydd â mynediad i'n system, i'w darllen yn unig, fel y gallan nhw weld y canlyniadau i'r unigolyn hefyd (Rheolwr Gweithrediadau, ALI, Ardal 3)

- 9.21 Fe wnaeth adolygu datblygiad y gwasanaethau helpu i lywio'r meysydd sydd angen eu gwella: *Mae ffocws gwirioneddol ar yr adolygiad hwnnw sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac mae gallu sicrhau bod hynny'n iawn wrth symud ymlaen yn flaenoriaeth allweddol i ni. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n ailstrwythuro'r gwaith cymdeithasol, a bydd rhan o hynny'n golygu creu tîm adolygu pwrpasol (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 4)*

System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)

- 9.22 Roedd y cyfranogwyr yn cytuno ar bwysigrwydd cael un system wybodaeth integredig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi gweithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth:

Dim ond pan fyddwn yn defnyddio un system TG, sef holl ddiben WCCIS, y bydd y Tîm Ymchwil Cymunedol yn cael ei integreiddio'n wirioneddol a, hyd yma, does yna neb yn gwneud hynny. Mae gennych chi rannau ohono mewn llawer o fannau, ond does neb yn ei wneud yn wirioneddol o ran cael eich gweithwyr, o ran eich gweithlu iechyd, therapyddion galwedigaethol, eich nyrsys ardal, sy'n amlach na pheidio'n defnyddio system papur, i'w cael i gyd wedi'u halinio, a bydd hynny'n her enfawr (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 1)

[Gyda WCCIS] Bydd yna ddychwelyd i'r dull mwy integredig hwnnw a fydd yn fuddiol ac rwy'n tybio mai dyna'r bwriad, ynte, sef cael sylfaen waith ehangach o bobl yn defnyddio system sengl gydag un cofnod ar gyfer y cleient a fydd yn ei gwneud yn well i'r cleient a'r unigolyn (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)

- 9.23 Roedd manteision system WCCIS y cyfeiriwyd atyn nhw'n cynnwys gwell mesuriad yn erbyn themâu'r Ddeddf, gan leihau nifer y systemau gweithredu, a gwell rheolaeth a chefnogaeth ar gyfer y llwyth achosion:

Disgwylir iddi [WCCIS] gael ei gweithredu ganol y flwyddyn hon a bydd yn ein helpu i leihau'n sylweddol y nifer o systemau yr ydyn ni'n eu defnyddio, er mwyn gallu gweld pethau mewn ffordd wahanol (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)

Gellir gweld llwyth achosion [y gweithiwr cymdeithasol] ar y dangosfwrdd [...]. Mae hynny'n dweud wrthyn nhw, mewn gwirionedd, pa ffurflenni sydd ganddyn nhw yn barod, beth sydd angen iddyn nhw fod yn ei wneud, os oes ganddyn nhw unrhyw hysbysiadau PDG/LAC o'u blaenau, os oes ganddyn nhw bryderon amddiffyn plant, oes achosion newydd yn dod i mewn, unrhyw waith papur sydd angen ei wneud. Yna, mae 'na amserlen, felly mae'n caniatáu iddyn nhw reoli eu gwaith yn haws. Nawr, gall ein harweinyddion ymarfer weld y rhain fel rheolwr llinell a'u cefnogi (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 1)

- 9.24 Mae cyflwyno WCCIS yn cael ei ystyried yn daith o ddysgu ac addasu. Roedd echdynnu a dadansoddi data yn effeithiol a chynhyrchu adroddiadau o'r system yn faterion oedd yn parhau i fod angen eu datrys:

Mae'r ffordd rydyn ni'n gallu dadansoddi a defnyddio'r data hwnnw'n eithaf heriol gan fod cymaint ohono ac mae hynny'n newid diwylliannol i lawer o feysydd gwasanaeth hefyd (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)

Roedd yna lawer o anawsterau gydag e [WCCIS] sydd wedi cael eu datrys dros y ddwy neu dair blynedd [...]. Mae'r wybodaeth sydd yn y system yn llawer mwy dibynadwy, ond mae'n golygu bod angen i ni geisio penderfynu'r hyn rydyn ni ei angen o'r system a pha ddata sydd ei angen arnon ni a sut i'w gael allan (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)

- 9.25 Ar ben hynny, gwelwyd nad oedd y gwaith o ddod i ddeall gwir allu'r rhaglen ddim i'w gael: *Rhan ohoni, fel rhaglen, ydy dod i ddeall gallu'r rhaglen a gomisiynwyd ac felly pan fo gwendidau cynhenid ynddi, sut ydych chi yn mynd i ddadlau yn erbyn y rhain er mwyn cefnogi'r Ddeddf? Dydw i ddim yn credu bod y gwaith hwnnw wedi'i wneud, neu os ydy e, dydw i ddim yn ymwybodol ohono (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 4)*

9.26 Roedd y rhwystredigaethau cysylltiedig â defnyddio WCCIS yn cyfeirio at ei swyddogaethau a'i allu i gludo gwybodaeth o un man i'r llall:

Gallwch chi symud rhai pethau o gwmpas, ond bob tro y bydd ffurflen yn cael ei newid, hyd yn oed gosod atalnod llawn yma ac acw, mae'r ffurflen honno'n dod i ben oherwydd na allwn ei chlonio (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 1)

Mae cludo gwybodaeth o un man i'r llall yn anodd oherwydd nad oes un pwynt canolog sy'n symud y wybodaeth honno o gwmpas gyda phobl. Er bod WCCIS yn cael ei ystyried fel achubiaeth am yr hyn y gall ei gyflawni, mae'r rheithgor allan ar hynny, felly mae'n amlwg bod awdurdodau lleol yn amharod i fod eisiau rhoi sylw i hynny beth bynnag (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Ardal 4)

9.27 Yn olaf, er bod WCCIS wedi'i amlygu fel ffordd o rannu cofnodion cleifion, roedd diffyg seilwaith i gefnogi gweithio'n symudol yn rhwystr: *Mae angen seilwaith llawer gwell arnom i ganiatáu i'n staff gael canlyniadau gweithio symudol a chanlyniadau amser real a mewnbwn i'n cefnogi. Tra bod WCCIS yn dechrau symud a'i fod yn ffordd o rannu cofnodion claf, y peth i mi ydy bod angen i'n staff gael gweithio'n symudol a mynediad at gofnod y claf yng nghartref yr unigolyn (Uwch Reolwr, BI/HB, Ardal 3)*

Crynodeb

9.28 Mae'r bennod hon wedi ystyried nodweddion allweddol (y cyfeiriwyd atyn nhw gan gyfranogwyr) mewn perthynas â data a gweithredu'r Ddeddf.

9.29 Dyma'r negeseuon allweddol:

- Mae casglu'r canlyniadau ansoddol 'meddalach' yn cael ei ystyried yn newid i'w groesawu o fod yn casglu a mesur data meintiol yn unig
- Mae'r Ddeddf wedi helpu i flaenoriaethu'r ffocws ar ganlyniadau unigol
- Mae yna fanteision, a rhwystredigaethau, wedi eu nodi, sy'n gysylltiedig ag ymarferoldeb WCCIS
- Ymhlith yr heriau i gasglu a thystio data mae'r canlynol:

- Ansicrwydd ynghylch y ffordd orau i wneud rhywbeth, sut orau i'w riportio, pwyslais parhaus ar ddata meintiol, ac amser/capasiti i'w wneud yn ystyrlon
- Anhawster priodoli canlyniadau cadarnhaol i fath penodol o gymorth neu ymyrraeth
- Dysgu defnyddio WCCIS yn effeithiol, yn enwedig o ran echdynnu, dadansoddi a riportio ar ddata

10. Canfyddiadau - Goblygiadau Ariannol ac Economaidd

- 10.1 Yn gyffredinol, roedd y goblygiadau ariannol ac economaidd yn thema bwysig y trafodaethau, o ystyried natur y gwasanaeth a arweinir gan angen, natur anrhagweladwy'r angen, a chymhlethdod cynyddol pobl â'r anghenion hynny.

Y broblem gyda'r gwasanaethau cymdeithasol ydy'r rheolaeth a'r galw. Mae'n wasanaeth lle na allwch chi ddweud 'na, dyna'ch cyllideb a dyna ni'. Mae'n llawer fwy anodd gyda'r gwasanaethau cymdeithasol ac mae'r pwysau ar y galw am wasanaethau nag ydyn nhw yn [...]. Allwn ni ddim ddweud 'wnawn ni mo hyn oherwydd ein bod wedi rhedeg allan o arian', na allwn? (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)

Yr hyn rydyn ni'n ei gael nawr ydy'r cymhlethdod a nifer y cyflyrau mae unigolion yn byw â nhw. Dydyn ni ddim yn sôn am un neu ddau o bethau, mae pobl yn byw gyda phump neu chwech o bethau gwahanol, cyflyrau meddygol na fyddem erioed wedi'u gweld hyd yn oed bum mlynedd yn ôl. Bum mlynedd yn ôl byddai'r unigolion hyn wedi bod mewn gwelyau ysbyty arhosiad hir felly mae'n anodd iawn (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 2)

Cyni a phwysau ariannol

- 10.2 Roedd cael targedau arbedion anodd yn ffactor pwysig i'r cyfranogwyr:

Mae cyni wedi golygu ein bod yn gyson yn chwilio am arbedion sylweddol iawn. Rwy'n credu pan ddechreuais i, roedd ein targed cyffredinol ar gyfer y tair blynedd yn rhywbeth fel 13 miliwn ac roedd yn her anhygoel ceisio cyflawni hynny pan mai'r cyfan oeddech chi'n ei weld oedd galw mawr a diffyg adnoddau (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)

Rwyf wedi bod yn pwyso am arbedion, arbedion, arbedion. Dyna'r cyfan rydw i wedi'i wneud mewn 4 neu 5 cyllideb. Pe bai wedi cael ei weithredu ar adeg pan oedd gennyn ni ddigon o arian i edrych ar yr hyn yr oedden ni'n ei wneud a'i weithredu mewn ffordd gadarnhaol, byddai wedi bod yn wahanol, ond roedd hi bob amser fel ceisio diffodd tân (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)

- 10.3 Roedd yna ganfyddiad bod y toriadau sy'n gysylltiedig â chyni yn golygu bod gwasanaethau bellach mor fain ag y gallan nhw fod, ac y byddai pethau wedi bod yn haws heb bwysau toriadau:

Rwy'n credu ei fod yn teimlo fel ein bod ni wedi cyrraedd pwynt lle rydyn ni mor fain ag y gallwn ni fod. [...]. Dwi'n amau bydd rhaid i rywbeth orfod rhoi yn rhywle, oni fydd. (Rheolwr Gweithrediadau, ALI, Ardal 3)

Rwy'n credu y bydden ni wedi bod yn llawer pellach ymlaen pe gallen ni, o leiaf, fod wedi aros yn ein hunfan. Pe bai'r adnoddau wedi aros fel yr oedden nhw ac na fyddai'r newidiadau demograffig wedi tyfu cymaint neu, wyddoch chi, pe byddai llai ohonyn nhw. Ond roedd y ddau beth yn digwydd ar yr un pryd, cynnydd yn y galw ac arian parod gwirioneddol yn diflannu. (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Cenedlaethol)

- 10.4 Roedd pwysau cyllidebol sy'n gysylltiedig â chyni wedi arwain at orwario o fewn y gwasanaethau cymdeithasol: *Eleni, er gwaethaf arbed arian gyda'n gilydd, rydyn ni wedi bod dan bwysau gwirioneddol o ran y gyllideb ac rydw i wedi gorwario'n sylweddol. Maen nhw wedi edrych i mewn i'r gorwariant hwnnw, pam ei fod wedi digwydd, achosion cost uchel ac ati (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)*

- 10.5 Mae cyni wedi arwain at ostyngiad yn y ddarpariaeth statudol o wasanaethau yn hytrach na rhai o'r gweithgareddau pwysig ond dewisol yn y gwasanaethau cymdeithasol: *Y realiti ydy ein bod ni wedi gorfod lleihau'r hyn rydyn ni'n ei wario. Am yr hyn rydyn ni'n ei wario ar wasanaethau a gomisiynir yn allanol, fe fu'n rhaid i ni leihau hynny, yn sicr yn y maes rydw i'n gyfrifol amdano, mae wedi'i gywasgu mewn gwirionedd i fath o ddarpariaeth statudol (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)*

Colli capasiti yn gyffredinol

- 10.6 Mae cyni wedi arwain at golli sgiliau, a chael gwared ar 'hyblygrwydd' yn gyffredinol mewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol: *Rydyn ni'n gweithio trwy ansicrwydd o flwyddyn i flwyddyn. Rydyn ni'n rhagweld y bydd yn rhaid i ni dorri nôl fwy-fwy bob blwyddyn. Maen nhw'n swyddogion nad ydyn nhw'n cael eu gweld gan y cyhoedd ond sy'n chwarae rhan fawr iawn o ran darparu gwasanaethau i'r awdurdod lleol, dydy eu swyddi ddim yn bodoli mwyach. Pobl a fyddai wedi bod â'r amser, y lle a'r capasiti i ymgysylltu lawer mwy â dinasyddion a gweithio ar brosiectau sy'n*

ymwneud â chydgyhyrchu, mae eu rolau wedi hen ddiflannu. [...]. Bydd swyddogion nawr yn cyflawni llawer o waith AD a chyllid oherwydd nad ydy'r rolau hynny'n bodoli yn yr awdurdod lleol felly mae'r pethau hynny wedi cael effaith fawr o ran capasiti swyddogion i wneud hynny (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)

- 10.7 Mae hyn wedi arwain mewn rhai mannau at broblemau recriwtio a chadw, ac felly'r costau uchel am staff asiantaeth: *Rydym yn rhagweld gorwariant enfawr a'r gwariant hwnnw mewn nifer o feysydd allweddol ac un o'r rheini ydy mewn gwaith cymdeithasol ac rydyn ni'n cael yr un broblem yn [ALI] ag sydd gennym ym mhobman arall. Mae yna drafferthion recriwtio a chadw staff. Dydyn ni ddim yn gwneud yn rhy ofnadwy o wael, ond mae'n gost fawr i ni oherwydd bod yr asiant yn codi crocbris am staff asiantaeth (Rheolwr Gweithrediadau, ALI, Ardal 3)*

Ail-flaenoriaethu ac ail-gydbwyso

- 10.8 Un o ganlyniadau cyni a phwysau ariannol fu'r angen i reoli'r galw a gostwng disgwyliadau o fewn y boblogaeth ac ymdrin â blaenoriaethau cystadleuol o fewn llywodraeth leol:

Nawr mae'r Ddeddf yn eilbeth i'r ffaith bod angen i ni wneud rhywbeth i geisio rheoli'r galw a gostwng y disgwyliad sydd gan bobl o'r gwasanaethau cymdeithasol a'r hyn maen nhw'n ei ddarparu (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)

Rydyn ni bob amser wedi dweud yn ystod cyni, neu beth bynnag wnewch chi ei alw, ein bod yn blaenoriaethu addysg a gofal cymdeithasol, ac mae hynny wedi golygu bod yr ergydion cyfatebol ar ein cyllid wedi bod yn llai nag mewn meysydd eraill o'r awdurdod (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 4)

- 10.9 Ar adegau, arweiniodd hyn at yr angen i ddad-fuddsoddi mewn rhai gwasanaethau, sicrhau cyllid yn ddychmygus, ac ailgyfeirio gwasanaethau o'r awdurdodau lleol.

Mewn cyfnod o gynt, rydych chi bob amser yn ceisio atal pethau fel yna. Fodd bynnag, trwy ddod â'n partneriaid, y trydydd sector, ein cydgysylltwyr asedau lleol sydd gennyn ni, rydyn ni wedi bod yn llwyddo i ailgyfeirio cleifion neu ddinasyddion at wasanaethau eraill yn hytrach na'r gwasanaeth statudol neu orfodol (Uwch Reolwr, BI/HB, Ardal 1)

Mae'n her, yn sialens ddyddiol, a rhaid bod yn ddychmygus iawn ynglŷn â sut rydych chi'n mynd i fforddio, sut rydych chi'n mynd i ganfod y gefnogaeth hon sydd ei hangen ar y plentyn hwn, allan o unlle. Mae'n her. [...]. Felly os ydych chi am roi'r gefnogaeth i'r plentyn hwnnw, yna mae'n golygu rhoi llai o amser i deulu arall (Gweithiwr Rheng Flaen, ALI, Ardal 4)

Canlyniadau'r trefniadau cyllido

10.10 Bu nifer o effeithiau'r cyllido tymor byr sydd wedi effeithio ar ansawdd a/neu gynaliadwyedd y comisiynu a'r her i gynaliadwyedd tymor hir oherwydd cyni a phwysau ariannol. Codwyd agweddau mwy cadarnhaol setliad 2020/21, ond gyda rhybuddion:

10.11 Mynegwyd set ddiddorol o safbwyntiau ynghylch sut yr oedd materion ynghlwm â chyni wedi'u gyrru gan y Ddeddf, neu heb gael eu gyrru gan y Ddeddf:

Mewn rhyw ffordd mae hi wedi bod yn ddefnyddiol oherwydd rydw i'n credu fod y Ddeddf wedi rhoi rheswm heblaw un ariannol i wneud rhai o'r pethau y mae angen eu gwneud, sydd wastad yn dda o ran ei fframio. [...]. Rydw i'n credu bod hynny wedi bod o gymorth i roi'r cyd-destun pam rydyn ni'n gwneud rhai o'r pethau, oherwydd mae perygl bob amser ei fod yn rhoi'r argraff ei fod bob amser yn ymwneud â'r arian a dim byd arall ac nid er mwyn gwneud pethau'n well ar gyfer pobl (Uwch Reolwyr , ALI, Ardal 4)

Dydy pobl ddim yn gweld y cysylltiad hwnnw mor glir ag yr ydyn ni, bydd rhai pobl yn dweud 'O wel, dim ond torri gwasanaethau ydych chi', dydyn nhw'n ddim yn dweud wrthyn ni 'Rydych chi'n torri gwasanaethau oherwydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant' (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 1)

10.12 Cyfeiriwyd at y sefyllfa 'niwtral o ran cost' fel y'i cynigiwyd ar adeg gweithredu'r Ddeddf: *Yr hyn sydd wedi bod yn anodd ydy'r disgwyliad na fyddai, nage, nad oedd yna unrhyw oblygiadau adnoddau, mae hynny wedi bod yn beth arwyddocaol i lywodraeth leol o fewn y cyd-destun o orfod gwneud toriadau. Mae hynny wedi bod yn anodd iawn, felly cwestiwn gwleidyddol cymwys fu, wyddoch chi, sut rydych chi'n rheoli adnoddau, sut ydych chi'n rheoli hynny a'r newidiadau rydyn ni wedi'u cyflwyno wrth gyd-fynd â'r Ddeddf? (Uwch Reolwyr, ALI, Ardal 2)*

- 10.13 Mae ariannu ataliad hefyd yn gyfyng-gyngor a nodwyd gan gyfranogwyr. Fel yr awgrymir isod, mae tensiwn rhwng sut i ryddhau neu gael gafael ar y cronfeydd ar gyfer ataliad ar adegau o lymder a bod yna alw mawr ar y gwasanaethau craidd: *Rwy'n credu, yn ymarferol hefyd, mai un o'r pethau a fyddai'n ein helpu ac a awgrymwyd i'n helpu ni ydy gwasanaethau ataliol amgen, mae hynny wedi bod yn anodd iawn. Rwy'n credu ein bod ni, yn enwedig yn fy maes gwasanaeth i, rydych chi'n gorfod holi, a ydych chi'n ei dynnu allan o adnodd rheng flaen, o ddiffyg disgrifiad arall, o'r gwasanaethau eilaidd a'i roi mewn gwasanaethau lefel is o ran gofal sylfaenol. [...] Felly mae datblygu dewis arall sy'n darparu'r gwasanaethau wedi bod yn anodd, yn sicr yn yr hinsawdd ariannol hon. Mae'n rhaid i chi gymryd oddi wrth Peter i dalu Paul a'r norm fyddai, a dweud y gwir, ar adegau ein bod ni'n cael trafferth i gwrdd â'n gofynion cyfreithiol mewn amrywiol agweddau. Felly mae'r syniad y dylid ei gymryd fwy oddi wrth y gwasanaethau craidd yn un anodd iawn (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 4)*
- 10.14 Mewn cyferbyniad â'r safbwyntiau a fynegwyd uchod, ac i adeiladu ar yr adran gynharach a nododd fodolau ataliol sy'n cael eu gweithredu, roedd rhai ymatebwyr o awdurdodau lleol o'r farn bod adnoddau'n cael eu dyrannu ar gyfer ataliad, a'i fod wedi 'gwneud gwahaniaeth':... *mewn gwirionedd yr hyn sydd wedi gwneud gwahaniaeth ydy'r defnydd cynyddol o ataliad ac mae'r ffocws ar atal o fewn y timau derbyn wedi golygu, yn y tîm rwy'n gweithio gyda nhw, bod adnoddau ychwanegol wedi cael eu cyfeirio at yr ataliad ac mae'n teimlo fel pe bai mwy yn cael ei gymryd. (Gweithiwr Rheng Flaen, ALI, Ardal 4)*

Ariannu ac adnoddau

Cyllid grantiau tymor byr

- 10.15 Teimlwyd bod rhai o'r amserlenni sy'n gysylltiedig â chyllid tymor byr yn arbennig o ddi-fudd, ac mewn gwirionedd yn fwy o broblem nag ateb i rai ac y gallai rhain arwain at danseilio egwyddorion y Ddeddf.

Heddiw rydyn ni wedi derbyn llythyr gan Lywodraeth Cymru yn dweud bod £10 miliwn yn ychwanegol i'w wario erbyn diwedd mis Mawrth ar gyfer pwysau'r gaeaf. Wel, allwn ni ddim recriwtio unrhyw un mewn wyth wythnos i wneud hynny, felly er ein bod yn ddiolchgar bod Llywodraeth Cymru yn rhoi

£10 miliwn arall inni, bydd yn heriol gwneud unrhyw beth a fydd yn cael unrhyw effaith (Rheolwr Gweithredol, BI/HB, Ardal 1)

Rydyn ni'n cael llythyrau gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr yn dweud ein bod nhw am i chi wario'r arian hwn ar rywbeth newydd erbyn mis Mawrth. Ac mae'n anodd, gan na allwch chi wneud unrhyw beth gwych gyda'r arian hwnnw pan nad oes gennych yr hysbysiad o'i gwmpas. [...]. Rwy'n credu y byddai fuddiol iawn cael rhywbeth felly am grantiau Llywodraeth Cymru, yr arian ychwanegol a chael dull llawer mwy mawreddog a thymor hwy ar eu cyfer (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 4)

- 10.16 Mae yna ddiffyg sefydlogrwydd a chynaliadwyedd cynhenid a chysylltiedig mewn trefniadau tymor byr, y teimlir eu bod yn broblemus, gan gynnwys y 'costau cyfle' o wasanaethu grantiau o'r fath, a'r amser a gollir wrth reoli contractau staff.

Mae sgysiau brys yn digwydd am beth ydy'r strategaeth ymadael ar gyfer hynny ac o ble rydyn ni'n dod o hyd i'r arian. [...] O fy safbwynt i, rwy'n weddol optimistaidd, oherwydd yr hyn rydyn ni'n ei wneud ydy cael effaith gadarnhaol, rwy'n weddol optimistaidd y bydd yr arian yn cael ei ddarganfod o rywle, ond fyddwn i ddim eisiau bod mewn sefyllfa lle rydyn ni'n gwneud cais am grantiau chwech neu 12 mis o fan hyn a fan draw, oherwydd mae hynny'n cymryd amser rhywun, yn tydi? (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)

Dydy e ddim yn rhoi sefydlogrwydd, mae yna lawer o bryder o ran staffio, rydych chi'n cael pobl sy'n staff da a fydd yn gadael oherwydd na allwch chi warantu ble maen nhw'n mynd i fod am y flwyddyn nesaf. [...]. Byddai'n well gen i gael mwy o sicrwydd o ran y busnes craidd a phe bydden ni'n gwneud hynny, byddai yna ddigon o arian o fewn y gyllideb graidd honno i fod yn hyblyg a bod yn arloesol (Rheolwyr Gweithredol, ALI, Ardal 2)

- 10.17 Hefyd, gwelwyd bod ansawdd comisiynu a gwasanaeth yn cael effaith negyddol: Os ydych chi'n bwriadu comisiynu gwasanaethau allwch chi ddim comisiynu contract mewn gwirionedd, yn enwedig hefyd gyda rheoliadau contractio cyhoeddus, lle mae'n rhaid i chi arwain o ran telerau caffael. Mae'n rhaid i chi ddelio â thendr o fewn chwe mis. Felly, yn aml erbyn iddyn nhw fod yn eu lle, rydych chi wedi gwneud

y tendr a does gennyich chi ond ychydig fisoedd ar ôl i fynd tu draw iddo (Uwch Reolwyr, ALI, Ardal 2)

- 10.18 Yn dilyn yr holl ffactorau uchod, codwyd cwestiynau ynghylch effeithiolrwydd cyffredinol trefniadau cyllido tymor byr o'r fath sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf, a'r ffyrdd y daethpwyd i ddibynnu ar gyllid tymor byr fel cyllid 'craidd': *Oherwydd y blynyddoedd o gyllid tymor byr rydyn ni wedi'i dderbyn, mae'n debyg ein bod ni, nid trwy fwriad, eisoes wedi ymgorffori hynny yn ein gwasanaethau craidd a'n cyllideb yn y ffordd yr ydyn ni'n cyflenwi (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)*

Cyllidebau wedi'u cyfuno

- 10.19 Roedd gan gyllidebau cyfun le penodol yn y ddeialog ynghylch goblygiadau ariannol ac economaidd y Ddeddf o ystyried eu bod wedi cael eu gorfodi gan Lywodraeth Cymru mewn rhai amgylchiadau. Nodwyd er mwyn iddyn nhw fod yn effeithiol, mae angen arweinyddiaeth o ddifrif ar draws a rhwng sefydliadau: *Rwy'n credu y gallai weithio, ond byddai'n rhaid i chi gael pawb wedi ymrwymo i hynny mewn gwirionedd a byddai'n rhaid i chi gael arweinwyr ar y brig sy'n gyfrifol am y gyllideb honno a feddai ar ddealltwriaeth wirioneddol o iechyd a gofal cymdeithasol ac nid un. Byddai angen i chi gael ymrwymiad go iawn (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)*

- 10.20 I nifer o gyfranogwyr, roedd cyllidebau cyfun yn fodd i bethau weithio i raddau helaeth ond nid yn ateb terfynol, ond bod eu gwneud yn ofyniad wedi cael yr effaith o wyrdroi eu pwrpas rhywfaint: *Rwy'n credu bod gorfodi partneriaeth yn gysyniad od. Mae'n ocsimoron a dweud y gwir. Sut allwch chi orfodi pobl i weithio mewn partneriaeth? Mae yna frwydrau bob amser. Ers pryd rydyn ni wedi bod yn siarad am Gronni Cyllidebau? 15, 20 mlynedd? Faint nes ydyn ni? Dydw i ddim yn credu ein bod ddim nes nag yr oedden ni 15, 20 mlynedd yn ôl pan oedden ni'n siarad am gyfuno cyllidebau. [...]. Rwy'n credu y byddai'r gost sy'n gysylltiedig â gwneud yr holl foddelu ariannol a datod, yr holl bethau hynny yn golygu nad ydy'n werth yr ymdrech, a dweud y gwir (Rheolwyr Gweithredol, ALI, Ardal 3)*

- 10.21 I eraill, mae yna, ar y gorau, gryn wahaniaeth rhwng y rhethreg a realiti cyllidebau cyfun a chyllidebau eraill, ac ar ei waethaf, mae yna negyddiaeth llwyr ynghylch y rôl y maen nhw'n ei chwarae ac y gallan nhw ei chwarae er mwyn meithrin partneriaeth effeithiol fel y rhagwelwyd yn Rhan 9 o'r Ddeddf: *Ar hyn o bryd, rydyn*

ni'n anfon arian at un awdurdod, fe wnaethon ni ei anfon nos Fawrth ac erbyn prynhawn Mercher maen nhw wedi'i anfon yn ôl aton ni, ac mae honno'n gyllideb gyfun? Nac ydy. Oni bai eu bod yn newid y comisiynu a sut mae'r awdurdodau ac iechyd yn dod ynghyd ledled y rhanbarth a'u bod yn comisiynu ar y cyd a bod yna gorff sy'n rhedeg y cyllid ac yn prynu'n briodol mewn gwirionedd, fydd hyn ddim yn gwneud unrhyw wahaniaeth o gwbl (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)

Y Gronfa Gofal Integredig (ICF)

- 10.22 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod yr ICF wedi hwyluso gwaith yn unol ag egwyddorion y Ddeddf:

Rwy'n credu ei fod yn gadarnhaol iawn oherwydd ein bod wedi gallu defnyddio'r cyllid hwnnw i allu datblygu'r gwasanaethau i fodloni gofynion y Ddeddf a heb yr arian hwnnw fydden ni ddim wedi gallu buddsoddi fel roedd angen i ni wneud, er mwyn i ni allu datblygu'r gwasanaethau hyn (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 2)

Mae'r Ddeddf wedi caniatáu, yn enwedig o ran y partneriaethau ICF yr ydyn ni wedi'u datblygu gyda [bwrdd iechyd] ac wrth gwrs gyda'r gwasanaethau cymdeithasol a thai yn [ALI], rydyn ni wedi gallu ymestyn ein gwasanaethau mewn gwirionedd. Felly rydyn ni'n darparu rôl ataliol enfawr o ran cwmpadau, damweiniau yn y cartref, gwasanaethau cymorth tai i atal pobl rhag gorfod mynd i ofal preswyl (Rheolwr Gweithredol, Darparwr a Sefydliad a Gomisiynwyd, Ardal 2)

- 10.23 Canfuwyd hefyd bod arian ICF wedi galluogi ac adeiladu capasiti mewn gweithio rhanbarthol fel elfen allweddol o'r broses weithredu: *O ran y ffordd y mae arian yr ICF yn cael ei drafod a'i wario, mae'n broses hollol agored a thryloyw a dydw i ddim yn credu bod yna unrhyw anghydweld y dyddiau hyn ynglŷn â phwy sydd â beth ac ati gan ei fod wedi'i wneud yn gwbl agored (Rheolwr Gweithredol, Rhanbarthol, Ardal 3)*
- 10.24 Fodd bynnag, mynegwyd cyfres o bryderon ynghylch cynaliadwyedd a'r llinellau amser, yn enwedig ar gyfer y trydydd sector: *Yr hyn rydyn ni wedi ceisio ei wneud trwy rywfaint o arian yr ICF ydy cael mwy o gyfranogiad gan y trydydd sector sy'n ceisio cefnogi pobl i'w cadw'n eu cymdogaethau am ragor o amser cyn iddyn nhw*

orfod pwyso ar y gwasanaethau statudol. [...] Weithiau, mae'n anodd iawn cael strategaethau ymadael, ar ôl i chi brofi bod rhywbeth yn gweithio, mae darganfod hynny'n greiddiol yn dasg heriol iawn (Rheolwr Gweithredol, BI/HB, Ardal 1)

- 10.25 Yn gyffredinol, gwelwyd effeithiau cadarnhaol a negyddol am weithio mewn partneriaeth, gan gynnwys bod cyfle i golli ffrydiau cyllido tymor byr o'r fath: *Pe byddech chi'n gwybod, bum mlynedd yn ôl, eich bod chi'n cael pum mlynedd o arian ICF, fe allech chi weithio allan beth oedd maint y gronfa, cynllunio sut i weithredu cynlluniau dros y cyfnod hwnnw o bum mlynedd, ac efallai y deuai prosiectau mwy, ac efallai byddai gwell prosiectau'n dod (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)*

Y Gronfa Trawsnewid

- 10.26 Ystyriwyd bod y Grant Trawsnewid gwerth £100m ledled Cymru yn swm sylweddol o arian sy'n galluogi newid, neu o bosibl yn galluogi newid, fel llif cyllid grant:

Yr arian trawsnewid, mae hynny'n arian sylweddol iawn ac rydyn ni'n wirioneddol uchelgeisiol iawn ac o ran yr hyn rydyn ni'n mynd i'w ddarparu ar hynny, mae'n adeiladu ar yr hyn sydd gennym ni eisoes yn ei le o ran model system gyfan (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 2)

Rydyn ni wedi defnyddio rhan o'r arian trawsnewid i'n helpu ni yn y ffordd honno ac yn y bôn mae wedi bod yn edrych ar arweinyddiaeth, diwylliant, a sut ydyn ni'n gweithio (Uwch Reolwr, BI/HB, Ardal 1)

- 10.27 Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch y diffyg eglurder a phwrpas canfyddedig y gellid defnyddio'r cyllid ar ei gyfer: *Mae angen i ni fod yn wirioneddol glir ynghylch yr hyn rydyn ni'n disgwyl ei gyflawni trwy'r trawsnewid ac yna a ydyn ni'n yn ei gyflawni. Mae'n golygu achosion busnes, yntydi? Mae'n golygu dull llawer mwy meintiol â ffocws o ddweud 'os gwariwn ni'r arian hwn yma, bydd yr arbediad hwn inni yn y maes acw erbyn y dyddiad hwn' (Uwch Reolwr, BI/HB, Ardal 4)*

Taliadau Uniongyrchol

- 10.28 Er gwaethaf tynnu sylw at daliadau uniongyrchol fel cysyniad 'da iawn', nodwyd nifer o heriau. Yn benodol, cyfrifoldeb unigolion fel cyflogwyr, materion recriwtio, a'r cwestiwn i ba raddau y mae unigolyn mewn gwirionedd yn rheoli pwy mae'n ei gyflogi:

Y ffordd y mae taliadau uniongyrchol yn cael eu gwerthu i bobl ydy'r agwedd 'Hei, mae'n wych, rydych chi'n cael rheolaeth, gennyh chi mae e, mae'n eiddo i chi'. Ond yna rydych chi'n sylweddoli eich bod chi'n mynd i fod yn gyflogwr ac mae'n rhaid i chi fod yn gyfrifol ac mae'n rhaid i chi gael yswiriant atebolrwydd. Oes, mae yna ychydig nad ydyn nhw'n hoffi dweud wrthoch chi amdano. Dyna'r realiti (Rheolwr Gweithredol, Darparwr a Sefydliad a Gomisiynydd, Ardal 1)

Mae'r Ddeddf yn dweud bod yn rhaid i ni gynnig taliadau uniongyrchol i bobl, mae'n un o'r dewisiadau cyntaf ac mae hynny'n anodd iawn. Yn ddiwylliannol yn [yr ALI hwn] dydy pobl ddim eisiau bod yn gyflogwyr, maen nhw am iddo gael ei drefnu ar eu cyfer. Mae hynny'n dipyn o broblem, gan fod recriwtio cynorthwyr personol hefyd yn fater o bwys, sy'n anodd ei gyflawni mewn gwirionedd. Mae'r cysyniad o ddarparu taliad uniongyrchol yn wirioneddol yn un da gan eich bod yn rhoi llais a rheolaeth i bobl dros y gofal y maen nhw'n ei dderbyn ond mae'n anodd ei gyflawni oherwydd ei bod yn anodd recriwtio (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)

Arbedion

Gwneud arbedion a meddwl achos busnes

- 10.29 Nododd cyfranogwyr fod y cam gweithredu ar gyfer y Ddeddf wedi digwydd ar adeg anodd i wasanaethau cyhoeddus, yng nghanol cyfnod o gyni. Fe wnaethon nhw dynnu sylw ymhellach at yr heriau o briodoli newid mewn cyllidebau ac arbedion i'r gweithgareddau a'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf.

Rwy'n credu bod yr ataliad sy'n gysylltiedig â chyllideb ac arbed arian yn gymhleth iawn, mewn gwirionedd, a dydy e'n ddim yn syml o gwbl (Rheolwr Gweithrediadau, ALI, Ardal 4)

Roeddem yn gallu gweithio allan, o safbwynt ariannol, dyma gost gyfartalog plentyn y tu allan i'r sir, dyma gost yr eiddo hwnnw o ran staffio, talu am yr eiddo, bwyd neu beth bynnag, roeddem yn gallu costio hynny. Gallem weithio allan 'wel, byddai'n costio £X fesul plentyn inni, dyma beth y mae'n ei gostio inni ar hyn o bryd, dyma beth mae'n ei arbed'. Felly mewn rhai prosiectau,

mae'n hawdd eu gwneud ond mae prosiectau eraill yn llawer mwy anodd i'w gwneud nhw (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)

- 10.30 O ystyried yr holl heriau y cyfeiriwyd atyn nhw, daethpwyd â meddylfryd 'achos busnes' i'r gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau arbedion:

Yr hyn sydd wedi datblygu dros yr 20 mlynedd diwethaf ydy meddwl busnes eithaf cryf a bu 'na hefyd yr angen i arbed llawer o arian, yn enwedig dros y 10 mlynedd diwethaf. O ganlyniad, er y byddai'r mwyafrif yn cefnogi'r syniad o weithio gyda sector dielw, ar ddiwedd y dydd, pwy fydd yn gallu ei ddarparu orau ac am y pris tecaf, a dydyn nhw ddim yn tueddu i ddod i mewn i'r gystadleuaeth, dydyn nhw ddim o fewn cyrraedd (Rheolwr Gweithredol, Rhanbarthol, Ardal 3)

Y prif ffocws i mi gyda'r gwasanaeth ydy beth rydyn ni'n ei wneud ar wario, sut ydych chi'n rheoli'ch cyllidebau, pa gynlluniau cynilo sydd gennych chi, sut ydych chi'n mynd i'w gweithredu, ydyn nhw wedi gweithio, ydyn ni wedi cyflawni'r arbedion mewn gwirionedd. (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 1)

Effaith bositif drwy gydweithio â'r Ddeddf

- 10.31 Fodd bynnag, roedd nifer o sylwadau oedd yn adlewyrchu ar yr effeithiau cadarnhaol ar yr arbedion i gyllidebau drwy weithio'n unol â'r Ddeddf:

Fe allwn i edrych ar rywfaint o'r gweithgaredd yn un o fy nhimau, er enghraifft, a gallwn ddweud, gyda llaw, eu bod yn gwneud pethau nawr o'u cymharu â phedair blynedd yn ôl, eu bod wedi arbed X o bunnoedd (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 2)

Gallwn wneud hynny a gallwn nodi ffigurau osgoi costau, i ddweud pe bai'r unigolyn hwn wedi parhau heb gefnogaeth y cydlynnydd ardal, yna gallai hyn fod wedi digwydd yn ei fywyd a byddai wedi costio hyn. Efallai y bydd rhywfaint o hynny, mewn gwirionedd, dydyn nhw ddim angen pecyn gofal gan y gwasanaethau cymdeithasol fel y gallwn gostio hynny, felly dyna'r gost sydd wedi'i hosgoi (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)

- 10.32 Roedd pwysigrwydd partneriaeth a rhannu baich cynilo ar draws gwahanol sefydliadau, gan gynnwys partneriaid yn y sector gwirfoddol, yn nodwedd gefnogol:

Y cyfathrebu, yr ymgynghori, edrych a sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn y tymor hwy ond doedd hyn, serch hynny, ddim yn hollol addas ar gyfer strategaeth ariannol y rhanbarth. Rwy'n tybio bod hyn oherwydd enw da ac oherwydd profiad ac oherwydd y berthynas, rwyf wedi gallu dirnad hynny [...]. Rwy'n wirioneddol falch o ble mae [yr ALI] yn hynny a'r hyn rydyn ni wedi gallu ei gyflawni a'r hyn rydyn ni wedi gallu ei ddarparu (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 2)

Crynodeb

10.33 Mae'r bennod hon wedi ystyried nodweddion allweddol (y cyfeiriwyd atyn nhw gan gyfranogwyr) mewn perthynas â goblygiadau ariannol ac economaidd y Ddeddf.

10.34 Dyma'r negeseuon allweddol:

- Nododd cyfranogwyr fod y cyfnod gweithredu ar gyfer y Ddeddf wedi digwydd ar adeg anodd i wasanaethau cyhoeddus, yng nghanol cyfnod o gynt
- Nodwyd effeithiau negyddol cyni a phwysau ariannol a'u cysylltu â'r canlynol:
 - Gorwario o fewn y gwasanaethau cymdeithasol a gostyngiad yn y ddarpariaeth statudol o wasanaethau
 - Rheoli galw a gostwng disgwyliadau wrth geisio rheoli gofynion cystadleuol o fewn llywodraeth leol
 - Canlyniadau trefniadau cyllido, a chwestiynau am effeithiolrwydd cyffredinol trefniadau cyllido tymor byr o'r fath
- Nodir y gwahaniaeth rhwng y rhethreg a realiti cyllidebau cyfun a chwestiynau am eu rôl
- Nodwyd sawl anhawster sy'n gysylltiedig â chyllido tymor byr, yn bennaf y diffyg sefydlogrwydd a chynaliadwyedd mewn trefniadau o'r fath, megis costau cyfle wrth wasanaethu grantiau, a'r amser a gollir wrth reoli contractau staff.
- Canfuwyd bod y Gronfa Gofal Integredig (ICF) wedi helpu i hwyluso gwaith yn unol ag egwyddorion y Ddeddf, ond gallai fod wedi cael mwy o effaith pe byddai wedi'i chynllunio'n well

- Roedd arbedion hefyd yn cael eu cysylltu â'r effaith gadarnhaol o weithio ochr yn ochr â'r Ddeddf, gyda phwyslais ar bartneriaethau a rhannu'r baich ar draws gwahanol sefydliadau

11. Casgliadau

- 11.1 Wrth ddod i gasgliadau ar derfyn yr adroddiad hwn, mae pedair elfen i fyfyrion arnyn nhw. Mae'r cyntaf yn defnyddio canfyddiadau'r cyfweiliadau i ganolbwyntio sylw ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu'r Ddeddf ymhellach a blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'r ail yn creu cysyniad o'r data a gasglwyd yn ystod y gwerthuso proses. Mae'r trydydd yn rhoi adborth ar nodau ac amcanion y gwerthusiad. Mae'r rhan olaf yn myfyrion ar faterion sy'n dod i'r amlwg o'r cam hwn o'r astudiaeth, ac yn ystyried y goblygiadau i weddill y prosiect.

Sylwadau gan ymatebwyr

Blaenoriaethau ar gyfer eu gweithredu ymhellach

- 11.2 Roedd y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu'r Ddeddf ymhellach yn cynnwys parhad a datblygiad integreiddio a phartneriaethau, monitro a thystio'r canlyniadau, a'r seilwaith i hwyluso gweithio integredig.
- 11.3 Er mwyn gwireddu potensial llawn y Ddeddf, amlygwyd pwysigrwydd deialog agored rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, a chysylltiadau gwaith dwyochrog: *Er mwyn i hynny ddigwydd, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio, allwn ni ddim cael y sefyllfa o ddweud 'o wel, mae yn y Ddeddf rydyn ni wedi delio â hyn' ac yna'r awdurdodau lleol yn dweud 'o wel, dywedwch wrthyn nhw am roi'r arian i ni'. Rhaid cael rhyw fath o sgwrs rhyngddyn nhw (Uwch Reolwr, Rhanbarthol, Cenedlaethol)*
- 11.4 Roedd monitro data a'i gasglu er mwyn cael tystiolaeth o'r canlyniadau a'r effaith hefyd yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth: *Mae'n bwysig sicrhau bod monitro a chyllido wedi'u cysylltu'n ddeallus â gweithredu'r Ddeddf, yn enwedig er mwyn sicrhau bod y mesurau y mae sefydliadau yn eu cyflawni wedi'u cysylltu'n wirioneddol ac yn effeithiol i'r egwyddorion craidd (Ymateb i'r Arolwg, y Gweithlu)*
- Y camau nesaf i Lywodraeth Cymru*
- 11.5 Roedd y negeseuon am yr hyn y dylai Llywodraeth Cymru ei wneud nesaf yn cynnwys symud o ddulliau tymor byr i rai tymor hir i ddatblygu/cynnal modelau cymunedol a gwytnwch, a chynaliadwyedd tymor hwy gan gynnwys cyllido, cysondeb ymarfer, a phrynu i mewn a thrawsnewid y system gyfan: *Mae dulliau*

tymor byr yn lladd modelau ymgysylltu â'r gymuned yn llwyr. Rwy'n gwybod pan fyddwch chi'n cyflwyno gwleidyddiaeth i unrhyw beth, mae pethau tymor hir yn mynd drwy'r ffenest, oherwydd pan fyddwch chi'n rhoi gwleidyddiaeth i mewn mae'n rhaid i chi ddangos buddugoliaeth gyflym, onid oes, a chynhyrchu rhywbeth o fewn nifer penodol o flynyddoedd. Ond os ydyn ni wir eisiau cymunedau cydnerth sy'n gysylltiedig ac yn hyderus, mae angen dull tymor hir o wneud hynny, mae'n rhywbeth i wneud â chenhedlaeth yn hytrach nag yn fath o galendr gwleidyddol pob pedair/pum mlynedd. Dyna un peth, cael gwared ar ddulliau tymor byr (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4)


- 11.6 Gwnaed cymariaethau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol gyda galwad am gydraddoldeb cyllid rhwng y ddau: *Maen nhw'n wahanol fodolau, un am ddim yn y man cyflenwi, un y codir tâl amdano, ac am ddim os na allwch dalu. Dydy hynny ddim yn helpu, dydy'r model cyllido ddim yn helpu, ond yn yr un modd dydy'r arian sy'n mynd i mewn i iechyd yn hytrach na gofal cymdeithasol ddim wedi helpu felly ein safle a fy marn i fyddai ariannu o leiaf i'r un lefel (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 4)*
- 11.7 Amlygwyd cynaliadwyedd yng nghyd-destun cyllid ond hefyd diffyg cysondeb yn yr ymarfer ledled Cymru: *Mae gennym 22 o awdurdodau, rhai ohonyn nhw mor fach fel mai prin y maen nhw'n gynaliadwy. Mewn gwirionedd, sut gallwch chi ymarfer fel hyn os nad oes gennych chi ddigon, a hefyd mae gennych chi'r fath anghysondeb mewn dulliau o fynd ati ledled Cymru (Rheolwr Gweithredol, BI/HB, Ardal 2)*
- 11.8 Roedd yna bwyslais ar Lywodraeth Cymru yn helpu i sicrhau bod y Ddeddf wedi'i sefydlu ac i hyrwyddo cydnabyddiaeth bod ei dyletswyddau'n berthnasol i bob sefydliad sy'n darparu gofal a chefnogaeth: *'Doedd yna ddim unrhyw gydnabyddiaeth bod angen cyllid ar y Ddeddf hon i weithredu na chwaith digon o gydnabyddiaeth i'r ffaith y bydd angen i'n partneriaid allweddol y tu allan a'r tu mewn i'r cyngor fod yn rhan ohono gymaint ag yr ydyn ni, mewn gwirionedd. Felly fy nisgwylid, neu fy ngobaith, ydy y byddan nhw [Llywodraeth Cymru] yn gwrando, bod nhw'n edrych yn fanwl ar sut roedd yn gweithio, beth allan nhw ei wneud i sicrhau ei bod yn sefydlu ac ymgorffori'n ehangach ac nid yn gyfrifoldeb yr adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn unig. (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)*

- 11.9 Dim ond un elfen oedd cyllid oedd yn cael ei ystyried yn galluogi cynaliadwyedd tymor hir. Roedd agweddau pwysig eraill yn cynnwys cysondeb ym maes ymarfer ac ymgorffori'r Ddeddf ledled Cymru, a 'thrawsnewid system gyfan', wedi'i yrru gan arweinyddiaeth sy'n canolbwyntio ar werthfawrogi'r gweithlu: *Mae e rhywbeth i wneud â'r ffaith chi os ydych chi'n mynd i greu system iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy bod rhaid i'r holl rannau ohono fod yn gynaliadwy er mwyn caniatáu ichi wneud hynny (Uwch Reolwr, ALI, Ardal 4).*

Cysyniadau'r canfyddiadau

- 11.10 Mae cryn gymhlethdod (a rhywfaint o wrthddweud i raddau) yn y canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad. Mae yna gyfoeth o wybodaeth yn y tudalennau blaenorol, wedi'i seilio fel y mae ar seiliau sylweddol o dystiolaeth. Mae'r sylwadau'n darparu llawer iawn o safbwyntiau ar draws y cyfan o'r sefydliadau gwasanaeth cymdeithasol a'r rhai partner.
- 11.11 Mae Ffigur 11.1 (dros y tudalen) yn ymgais i resymoli'r cymhlethdod a welwyd gennym. Mae'n gosod cysyniadau'r adborth a dderbynnir mewn dau brif faes: y modd trawsnewid, a'r modd parhad.
- 11.12 Mae'n awgrymu, oherwydd manau cychwyn gwahanol yr holl ardaloedd yng Nghymru, ac yn enwedig y pedair ardal sydd wedi'u cynnwys yn y cam hwn o'r astudiaeth, fod pedwar math gwahanol o arfer wedi'u hymgorffori ym mhroses weithredu'r Ddeddf hyd yma. Mae'r gwahanol fathau hyn o ymarfer wedi galw am wahanol raddau o newid er mwyn cwrdd â gofynion y gweithredu.
- 11.13 Y rhesymeg y tu ôl i'r diagram ydy bod y petryal coch yn cynrychioli cyfanrwydd y gweithgaredd ar draws y gwasanaethau cymdeithasol. O dan hynny mae pob un o'r gweithgareddau o dan y Ddeddf a drafodwyd yn ystod y cam hwn o'r astudiaeth. Mae'r gweithgaredd hwn i gyd 'ar y daith' wrth symud o un math o ymarfer i'r llall.
- 11.14 Mae dwy echel bwysig arall. Ar hyd yr ochr chwith mae maint y newid sydd ei angen er mwyn cyflawni gofynion y Ddeddf. Ar waelod y diagram hwn felly y mae'r agweddau/nodweddion sydd angen y newid lleiaf i gael ei weithredu, a thuag at y brig mae'r agweddau/nodweddion sydd angen mwy o newid.

Ffigwr 11.1: Parhad a Thrawsnewid ffurfiau ymarfer mewn ymateb i weithredu'r Ddeddf



11.15 Mae newid yn digwydd mewn dau faes. Y maes cyntaf ydy lle mae mathau o weithgaredd ac ymarfer yn parhau, lle roedd pethau, fwy neu lai, eisoes wedi'u sefydlu cyn gweithredu'r Ddeddf. Mae'r ail faes yn ymwneud â mathau o arferion oedd yn gofyn am elfen o drawsnewid er mwyn cyflawni dyletswyddau a gofynion y Ddeddf. Mae pedwar cam yn y broses hon.

Parhad | (Cyn) Aliniedig

11.16 Hwn ydy'r cam sy'n gofyn am y newid lleiaf ac sy'n fath o barhad sydd yng nghornel chwith isaf y diagram o'r enw 'Parhad | (Cyn) -Aliniedig'. Soniodd ystod o ymatebwyr eu bod eisoes yn gwneud pethau a amlinellodd y Ddeddf cyn i'r Ddeddf ei hun ddod i rym. Felly, roedden nhw wedi eu 'cyn-alinio' â gofynion y Ddeddf cyn y dyddiad gweithredu. Mae rhai enghreifftiau yn y cam hwn yn cynnwys ailalluogi, a'r ymarfer o 'arwyddion diogelwch' ym maes gwasanaethau plant. Felly ychydig iawn o newid oedd ei angen ar y mathau hyn o ymarfer er mwyn cyflawni'r dyletswyddau o dan y Ddeddf.

Parhad | Cydsyniol

11.17 Mae'r ail gam 'Parhad | Cydsynio' yn fathau o ymarfer sydd wedi bod angen ychydig mwy o newid arny'n nhw i gyflawni dyletswyddau'r Ddeddf newydd gan ei gwneud hi'n ofynnol i bobl symud rhywfaint yn anfoddog ar adegau i fathau newydd o ymarfer fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf. Gallai hyn fod wedi cynnwys meysydd yn ymwneud â systemau data fel WCCIS er enghraifft, neu newidiadau mewn arferion comisiynu ar gyfer canlyniadau wrth i bobl symud o un math o ymarfer i un arall.

Parhad | Amsugol

11.18 Mae'r trydydd ffurf o weithgaredd 'Parhad | Amsugol' yn un lle roedd llawer mwy o frwdfrydedd dros y newid, lle roedd pobl yn awyddus i fabwysiadu ac ymgorffori mathau newydd o ymarfer yr oedd y Ddeddf yn gofyn amdany'n nhw. Roedd parhad o'r ffordd yr oedd pethau'n cael eu cyflawni i raddau, ond ymdeimlad llawer mwy cadarnhaol o fabwysiadu ac amsugno mathau newydd o weithio. Er enghraifft, gallai hyn fod yn ymwneud ag Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol, a welwyd yn ddatblygiad newydd cadarnhaol. Yn yr un modd, croesawyd, mabwysiadwyd ac amsugnwyd yn gadarnhaol ar gyfer yr ymarfer, y sgysiau 'yr hyn sy'n bwysig' a ffurfiau asesu sy'n seiliedig ar gryfderau.

Trawsnewid

- 11.19 Mae'r rhaniad rhwng y ffurfiau parhad a'r ffurfiau trawsnewid sy'n ofynnol wrth weithredu'r Ddeddf. Ar draws y rhaniad hwnnw mae agweddau sydd wedi galw am y newid mwyaf, yn bennaf oherwydd nad oedden nhw'n bodoli cyn i'r Ddeddf ddod i fodolaeth. Roedd rhai o'r rhain yn ffurfiau trawsnewidiol o ymarferion megis gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, a oedd yn ofynion y Ddeddf nad oedd ganddyn nhw gynsail cyn Ebrill 2016. Roedd yna hefyd fathau newydd sbon o seilwaith o dan y Ddeddf fel y byrddau RPB. Yr hyn sy'n parhau i gael ei ddeall am y ffurfiau trawsnewidiol hyn ydy'r graddau y mae'r rhain yn rhai dros dro lle maen nhw'n dod ac yna'n mynd, neu a ydyn nhw'n ffurfiau trawsnewid mwy parhaol lle maen nhw'n dod ac maen nhw'n aros.

Asesiad wrth gymharu â'r nodau ac amcanion

- 11.20 Mae'r cwestiynau canlynol yn cynrychioli nodweddion allweddol nodau ac amcanion gwerthuso'r broses. Isod, a chan dynnu ar y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad uchod, rydym yn darparu ein hasesiad yn eu herbyn.

Sut mae'r ddeddfwriaeth wedi'i gweithredu ar lefel genedlaethol?

- 11.21 I raddau helaeth, gweithredwyd y ddeddfwriaeth yn effeithiol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Mae tystiolaeth o Rannau ac Adrannau'r Ddeddf, a'r Rheoliadau a'r Codau Ymarfer cysylltiedig, yn yr holl ddata yn yr adroddiad hwn. Dydy hynny ddim yn golygu bod yr holl Ddeddf wedi'i gweithredu mor llawn, mor gyflym, neu mor deg ag y gellid bod wedi'i rhagweld, ond heb 'linell amser' ar gyfer y broses o'i gweithredu, mae'n anodd asesu a ydy'r darlun sy'n dod i'r amlwg o'r adroddiad hwn ydy'r un y dylem fod wedi disgwyl ei weld ar ôl ymron i bum mlynedd o fywyd y Ddeddf.

Beth fu'r rôl gafodd amrediad eang o sefydliadau y mae'r Ddeddf wedi effeithio arny'n nhw yn y gweithredu hwn?

- 11.22 Mae gweithredu'r Ddeddf wedi bod yn brofiad cydweithredol, ond efallai ddim yn brofiad mor gynhyrchiol ag y gellid bod wedi'i ragweld na'i ddymuno. Mae sefydliadau statudol wedi datblygu perthynas dda trwy gydol y broses weithredu, er bod lle i wella a dyfnhau rhai o'r perthnasau hyn. Mae cefnogaeth gyffredinol ymhlith yr holl sefydliadau rhanddeiliaid i egwyddorion y Ddeddf, ond mae angen tanlinellu'r

gefnogaeth honno fel y gellir gwireddu'r agweddau mwy cyd-gynhyrchiol o gydweithio yn llawn.

Pa gynllunio a wnaed gan bartneriaid allweddol ar gyfer gweithredu'r Ddeddf ac a oedd hyn yn ddigonol (gan gynnwys cynllunio gan Lywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol, y trydydd sector, y sector annibynnol a phartneriaid allweddol eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol)?

- 11.23 Wrth adlewyrchu ar y sylfaen o dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r gwerthuso proses, mae'n amlwg bod y sefydliadau allweddol sy'n ymwneud â'r broses weithredu wedi gwneud cryn dipyn o waith. Yn bennaf, roedd hyn yn canolbwyntio ar hyfforddiant cychwynnol, ar lefel genedlaethol a lleol. Mae llawer o'r hyfforddiant hwn wedi'i ailadrodd ers y dyddiad gweithredu. Roedd yn ymddangos mai'r awdurdodau lleol oedd wedi paratoi orau ar gyfer gweithredu'r Ddeddf, ac efallai mai'r grŵp a baratowyd leiaf oedd y defnyddwyr gwasanaeth a'r gofawyr. Bu cryn ddadlau ynghylch y gwthio a fu y tu ôl i'r Ddeddf, o unigolion yn cymryd mwy o gyfrifoldeb amdanyn nhw eu hunain ac yn cydnabod y cryfderau a'r asedau sydd ganddyn nhw, gyda diffyg negeseuon a chodi ymwybyddiaeth. Bellach mae pryderon y gallai hyn arwain at danseilio dyheadau cyffredinol y ddeddfwriaeth.

A ydy'r holl gydrannau gweithredu hyd yma wedi'u cwblhau yn ôl y bwriad?

- 11.24 Nododd cyfranogwyr yn gyson mai proses nid digwyddiad oedd gweithredu'r Ddeddf, a'u bod 'ar y daith' tuag at ei gweithredu. Yn ôl diffiniad, mae'r trosiad hwn yn galw am ofyn dau gwestiwn arall - os ydy sefydliadau a'r gweithlu ar y daith, i ble maen nhw'n anelu, ac erbyn pryd y byddan nhw'n cyrraedd? Roedd ymatebwyr yn onest ynglŷn â'r ffaith efallai na fydd hi byth yn bosibl 'cwblhau' y dasg o weithredu pob cymal o'r ddeddfwriaeth, i raddau helaeth oherwydd nad oes unrhyw beth yn sefydlog mewn polisi ac arfer, ac mae'r Ddeddf yn ail-lunio ei hunan yn gyson. Mae dyfodiad Deddf Coronafeirws a'i goblygiadau (potensial) i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn enghraifft dda o hyn.

Ydy cydrannau'r Ddeddf wedi treiddio i'r ymarfer?

- 11.25 O'r sylfaen dystiolaeth a gyflwynwyd, mae'n amlwg bod cydrannau'r Ddeddf wedi treiddio i'r ymarfer - o ran swyddogaethau gweithredol adrannau gwasanaethau cymdeithasol a'u partneriaid (o ran, ymhlith eraill, gwasanaethau Cyngor

Gwybodaeth a Chymorth, asesiadau wedi'u seilio ar gryfderau, sgysiau 'yr hyn sy'n bwysig', ac ati), ond hefyd o ran sut mae egwyddorion y Ddeddf yn llywio'r arfer hwnnw. Fodd bynnag, cydnabyddir bod hwn yn 'dasg ar waith' ac, er enghraifft, bod gwasanaethau sy'n cael eu cydgynhyrchu'n wirioneddol, gyda llais a rheolaeth defnyddwyr gwasanaeth a gofalwr yn ganolog iddyn nhw, eto i'w gwireddu'n llawn.

Beth fu'r dehongliad o'r Ddeddf ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol?

- 11.26 Cafodd dull y Ddeddf o fynd ati a'r egwyddorion y tu ôl iddi gymeradwyaeth gyffredinol gan ymatebwyr. Ar y cyfan, roedd y Ddeddf yn cael ei hystyried yn ddarn o ddeddfwriaeth alluogi, yn fframwaith ar gyfer newid, sydd wedi catalyddu ac ysgogi dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn tuag at waith y gwasanaethau cymdeithasol, ac integreiddio agosach rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, ochr yn ochr â phartneriaid allweddol, yn y sectorau gwirfoddol ac annibynnol. Yn ei ffurf haniaethol, mae'r 'Ddeddf' yn cael ei dyfynnu fel esiampl – daw'r her wrth iddi gael ei chyflawni a'i gweithredu gyda'i hagenda uchelgeisiol.

Beth fu profiad y rhai sy'n ymwneud â gweithredu, gan ganolbwyntio'n benodol ar integreiddio, cydgynhyrchu, arwain, rheoli, rhyngweithio, hyfforddi a darparu gwasanaethau yn Gymraeg?

- 11.27 Cafwyd profiadau cymysg mewn perthynas â'r gwahanol ffactorau a restrir uchod. Ar ôl pwysu a mesur, mae'r gweithredu wedi bod yn brofiad cadarnhaol i'r rhan fwyaf o'r bobl, y rhan fwyaf o'r amser, ond mae rhai heriau wedi codi ac fe fanylir arnyn nhw yn y tudalennau uchod.

Y Camau Nesaf

- 11.28 Yn yr adran olaf hon, rydym yn cyflwyno nifer o faterion a godwyd mewn ymateb i'r canfyddiadau sy'n helpu i osod agenda ar gyfer gweddill yr astudiaeth gan yr ardaloedd a gynhwyswyd gennym a'r SERG. Maen nhw'n canolbwyntio ar nifer o'r meysydd y bydd yr astudiaeth yn eu hystyried yn y camau nesaf i'r cam gwerthuso effaith a fydd yn canolbwyntio ar brofiad defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, teuluoedd a chymunedau. Mae hefyd yn bwysig nodi, oherwydd amseriad y digwyddiadau (Hydref 2020), y gwnaed sylwadau am yr effeithiau yn ystod y cyfnodau clo sydd wedi digwydd yng Nghymru ers mis Mawrth 2020.

Ymwybyddiaeth y cyhoedd am y Ddeddf

11.29 Ar fater ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Ddeddf, neu ddiffyg ymwybyddiaeth, cafwyd nifer o sylwadau am y 'gwrthwthio/pushback' ar ddinasyddion, o ystyried cyfrifoldeb cyrff cyhoeddus i sicrhau eu bod yn cael cynnig eu hawliau ac yn gwybod amdany'n nhw. Roedd cwestiynau ynghylch a ydy'r cydbwysedd yn iawn rhwng cyrff statudol ac unigolion, ac a ydy hwn yn 'gynnig gweithredol'? Cydnabuwyd bod cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd yn her enfawr, gyda theimlad y dylai ymwybyddiaeth y gweithlu fod wedi codi hefyd.

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPB)

11.30 Roedd yna ymdeimlad bod y berthynas rhwng awdurdodau lleol ac awdurdodau ieuchyd wedi gwella drwy'r byrddau 'RPB', ond yn aml nid oes yna ddigon o 'le' i asiantaethau eraill. Y canfyddiad ydy, ar ôl i'r partneriaid statudol gymryd yr hyn sydd ei angen arny'n nhw, bod y sector gwirfoddol a'r sector annibynnol yn cael eu 'gadael gyda'r gweddillion'. Mae'r rhethreg yn cyfleu partneriaeth gyfartal o amgylch y bwrdd ond mae'r realiti yn wahanol.

11.31 Mae cynrychiolwyr gofalwyr a dinasyddion yn teimlo bod cwmpas a chylch gwaith yr RPB mor fawr nes bod penderfyniadau'n cael eu cymryd y tu allan i gyfarfodydd a'u cyflwyno yn ôl yn fwy ar gyfer eu gwirio yn hytrach na fel cydgynhyrchu go iawn. Credir hefyd fod llais plant ar goll yn rhai o'r sgwrsiau hyn, ac ni theimlir eu bod yn cael eu clywed yn yr RPB.

11.32 Buddsoddir yr arian o fewn RPB mewn systemau sefydledig, a dim digon yn y gwasanaethau i'w cadw allan o'r system yn y lle cyntaf.

Cyllid ar gyfer partneriaid anstatudol eraill

11.33 O ystyried bod cymaint o sefydliadau anstatudol wedi ymateb i'r her sylweddol ers mis Mawrth 2020 ac wedi helpu i atal nifer o bobl rhag mynd i ofal neu i'r ysbyty, mae pryderon y bydd y cyllid yn parhau i gael ei gwtogi.

11.34 Mynegwyd barn nad ydy'r cydbwysedd yn iawn rhwng y disgwyliadau ar y sector gwirfoddol a'r cyllid a ddarperir ar ei gyfer, sy'n cael effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

11.35 Nid oes neb yn awyddus i dderbyn y sefyllfa lai ac sydd wedi ei dogni ac yn gyfyngedig y mae rhai bellach yn canfod eu hunain ynddi.

Profiadau'r cyfnod clo

- 11.36 Mynegwyd pryderon gwirioneddol y bu symudiad yn ystod y cyfnod clo lle bu meddylfryd modelau meddygol yn tra-arglwyddiaethu wrth lunio polisïau cenedlaethol. Canfuwyd hefyd bod y gweithlu wedi symud tuag at helpu pobl i oroesi yn hytrach na byw. Holwyd sut i gael y ffocws yn ôl ar 'fyw'.
- 11.37 Nodwyd, o safbwynt y gofalwr, fod profiad yr ychydig fisoedd diwethaf wedi bod yn heriol iawn.
- 11.38 Codwyd materion ynghylch yr hyn y bydd y Ddeddf Coronafeirws yn ei olygu yn y tymor hir i egwyddorion a dulliau'r Ddeddf o fynd ati.

Llais a rheolaeth a chymau ymgysylltu

- 11.39 Codwyd cwestiynau ynghylch i ba raddau y bu'r berthynas rhwng y gweithlu ac unigolion yn ddigon gwydn i oroesi her y misoedd diwethaf.
- 11.40 Awgrymwyd bod 'faint' o lais a rheolaeth y mae pobl wedi'i gael yn arbennig o bwysig i'w ddeall ar wahanol gyfnodau yn eu hymgysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol. Efallai bod pedwar cam gwahanol i'r ymgysylltu:
1. Pan fydd pobl yn cysylltu â'r awdurdod lleol am y tro cyntaf;
 2. Yn ystod y broses asesu;
 3. Wrth ddatblygu'r cynllun gofal a chymorth a sut mae hynny wedi'i ddylunio; ac hefyd
 4. Yn y ffordd y mae'r gweithlu'n ymateb i bobl.
- 11.41 Awgrymwyd y byddai'n ddiddorol deall y deinameg hwn cyn COVID-19, yn ystod COVID-19, ac ar ôl COVID-19.

Perthynas ac egwyddorion y Ddeddf.

- 11.42 Nodwyd ei bod yn anodd iawn deddfu yr hyn sy'n berthynas dda, a bod rhai o'r rhwystrau strwythurol a sefydliadol yn tanseilio ewyllys da.
- 11.43 Mae paralel rhwng egwyddorion ac ethos allweddol y Ddeddf, a pherthynas yn y gwaith. A ydy'r berthynas broffesiynol honno'n gyd-gynhyrchiol? A oes gan bawb yn y berthynas broffesiynol honno lais a rheolaeth? Beth sy'n bwysig i weithwyr proffesiynol yn y berthynas honno? Pa gryfderau ac asedau rydych chi'n dod â nhw i'r berthynas a'r bartneriaeth honno? A oes unrhyw un erioed wedi gofyn y mathau hyn o gwestiynau? A ellid asesu partneriaeth a pherthynas yn erbyn egwyddorion y Ddeddf i greu cysylltiadau rhwng partneriaid yn fwy effeithiol.
-

Myfyrdodau wrth derfynu

- 11.44 Bydd cam nesaf yr astudiaeth (o Ionawr 2021 ymlaen) yn clywed yn helaeth gan yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth, y gofalwyr, teuluoedd a'r cymunedau i sicrhau ein bod yn darparu cydbwysedd yn erbyn safbwyntiau'r gweithlu. Cyn hynny, mae'r canlynol yn cynrychioli rhestr ddatblygol o gwestiynau i'w dwyn ymlaen i gam gwerthuso effaith yr astudiaeth:
1. Pa mor dda y mae disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth a'r gofalwyr yn cael eu boddioni o ran eu profiadau o ofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol?
 2. I ba raddau mae cydgynhyrchu wedi'i ymgorffori yn ymarfer ac asesiad y gwasanaethau cymdeithasol?
 3. Sut brofiadau mae defnyddwyr y gwasanaethau wedi eu cael o ran asesiadau gofal a rheoli achosion ers cyflwyno'r Ddeddf?
 4. I ba raddau y rhoddir llais a rheolaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau yn eu rhyngweithiadau â'r gwasanaethau cymdeithasol?
 5. I ba raddau y mae pwysau ariannol a chyni yn effeithio ar y gwasanaethau rheng flaen, y darpariaethau ymarfer a gofal?
- 11.45 Mae'r Ddeddf yn amlwg wedi cyfreithloni newid, ac wedi bod yn rym cataleiddiol yn natblygiad y gwasanaethau cymdeithasol, a chysylltiadau awdurdodau lleol â

phartneriaid allweddol ym maes iechyd, y sector gwirfoddol a'r sector annibynnol. Bedair blynedd ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym, mae cryn dystiolaeth o'r gwahaniaeth a wnaed, ond hefyd o ran y gwahaniaeth sydd eto i'w wneud. Mae'n bwysig cydnabod, er bod gweithredu'r Ddeddf yn daith sy'n dal i fynd ymlaen, ei bod hefyd yn gyfraith.

Cyfeiriadau

Anderson P., Lyttleton-Smith J., Kosnes L., Read S., Blackmore H. & Williams Z. (2020) Wellbeing Literature Review, yn Llewellyn, M., Verity, F. & Wallace, S (eds). [Evaluation of the Social Services and Well-being \(Wales\) Act 2014: Literature Review](#) Caerdydd.

Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 60/2020.

Andrews N., Calder G., Blanluet N., Tetlow S. & Wallace S. (2020) Co-production Literature Review, yn Llewellyn, M., Verity, F. & Wallace, S (golygyddion). [Evaluation of the Social Services and Well-being \(Wales\) Act 2014: Literature Review](#) Caerdydd. Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 60/2020.

Braun, V. & Clarke, V. (2006) '[Using thematic analysis in psychology](#)', *Qualitative Research in Psychology*, 3(2), p.77-101.

Creswell, J.W. & Plano Clark, V.L. (2011) *Designing and Conducting Mixed Methods Research*. 2nd edn/(2^{il} arg). Los Angeles: Sage Publications.

Emerson, E., Hatton, C. & Robertson, J. (2011) [Prevention and Social Care for Adults with Learning Disabilities. A Scoping Review](#). School for Social Care Research.

Gough, I. (2013). [The Political Economy of Prevention](#). *British Journal of Political Science*. 45 (2): 307-327.

Knapp, M., Bauer, A., Perkins, M. & Snell, T. (2012). [Building community capital in social care: is there an economic case?](#) *Community Development Journal*. 48 (2): 313- 331.

Llewellyn, M., Verity, F. & Wallace, S (golygyddion). (2020) [Evaluation of the Social Services and Well-being \(Wales\) Act 2014: Literature Review](#). Caerdydd. Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 60/2020.

Llewellyn M., Saltus R., Blackmore H., Tetlow S., Williams Z. & Wallace S.(2020) 'Voice and Control', yn Llewellyn, M., Verity, F. & Wallace, S (golygyddion). [Evaluation of the Social Services and Well-being \(Wales\) Act 2014: Literature Review](#) Cardiff. Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 60/2020.

Merriam, S. (2009) *Qualitative Research: A Guide to Design and Implementation*. John Wiley & Sons: San Francisco.

Moore G., Audrey, S., Barker, M., Bond, L., Bonell, C., Hardeman, W., et al. (2015) '[Process evaluation of complex interventions: Medical Research Council guidance](#)' *BMJ*,;350 :h1258.

Patton, M. (2018) *Principles-Focused Evaluation*, The Guilford Press, Llundain.

Roberts A & Charlesworth A (2014) '[A decade of austerity in Wales? The funding pressures facing the NHS in Wales to 2025/26](#)'. Adroddiad ymchwil. Ymddiriedolaeth Nuffield Trust.

Shapiro, V.B., Hawkins, D.J., Oesterle, S., Monahan, K.C., Brown, E.C. & Arthur, M.W. (2013). '[Variation in the Effect of Communities That Care on Community Adoption of a Scientific Approach to Prevention](#)'. *Journal of Social Work Research*, 4(3), doi:10.5243/jsswr.2013.10.

Verity, F., Andrews, N., Blackmore, H., Calder, G., Richards, J., Llewellyn, M. (2019). '[Evaluation of the Social Services and Wellbeing \(Wales\) Act 2014: Framework for Change Report](#)'. Cardiff. Welsh Government, Rhif adroddiad GSR 38/2019.

Verity F., Read S. & Richards, J. (2020) Pennod/Chapter 3: Prevention and early intervention literature review, yn Llewellyn, M., Verity, F. & Wallace, S (golygyddion). '[Evaluation of the Social Services and Well-being \(Wales\) Act 2014: Literature Review](#)' Cardiff. Welsh Government, Rhif adroddiad GSR 60/2020.

Wallace C., Orrell A., Garthwaite T., Tetlow S. & Wallace S (2020) Pennod/Chapter 5: Multi-agency literature review, yn Llewellyn, M., Verity, F. & Wallace, S (golygyddion). '[Evaluation of the Social Services and Well-being \(Wales\) Act 2014: Literature Review](#)' Caerdydd. Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 60/2020.